PAC(4)-07-12 (Papur 1)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

Teitl: Papur Ymgynghori – y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft

Dyddiad: 15 Mawrth 2012

Gan: Jane Hutt, AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Ar 12 Gorffennaf 2011, yn ei ddatganiad ar Raglen Ddeddfu Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai Bil yn cael ei gyflwyno i sefydlu trefniadau i sicrhau atebolrwydd, llywodraethu a throsolwg mwy effeithiol mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i Swyddfa.

Heddiw (15 Mawrth 2012) rwy'n cyhoeddi papur ymgynghori sy'n gofyn am sylwadau ar Fil Drafft a luniwyd i gyflawni'r amcanion hynny a rhagor.

Nid yw'r Bil Drafft yn gwneud Archwilydd Cyffredinol Cymru yn llai annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn wir, mae'n diogelu'r annibyniaeth honno, ac ar yr un pryd yn diwygio ac yn moderneiddio'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer yr Archwilydd a'i swyddfa ac yn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol ac iddo statws cyfreithiol penodol a diffiniol.

Byddai'r Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn gyfrifol am yr ystod lawn o swyddogaethau o natur gorfforaethol sy'n eiddo ar hyn o bryd i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y bwriad y tu ôl i'r polisi yw sicrhau na fydd pwerau o'r fath bellach yn nwylo un unigolyn.

Byddai'r Swyddfa Archwilio newydd yn cynnwys saith o aelodau - y mwyafrif ohonynt (sef pump) yn aelodau anweithredol (neu heb fod yn gyflogeion). Byddai'r pum aelod anweithredol yn cael eu penodi gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad, a hynny ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Byddai Cadeirydd y Swyddfa newydd yn cael ei benodi gan y Cynulliad drwy gynnig a gyflwynid gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Byddai'r penodiad hwnnw hefyd yn cael ei wneud ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.

Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dod yn aelod o'r Swyddfa Archwilio newydd yn awtomatig, ac yn Brif Swyddog Gweithredol arni. Byddai un aelod-gyflogai o'r Swyddfa Archwilio newydd, a'r person hwnnw'n cael ei benodi gan yr aelodau anweithredol.

Y Swyddfa Archwilio newydd fyddai'r cyflogwr a deiliad y gyllideb. Byddai amcangyfrif o gyllideb gyfan y Swyddfa yn destun gweithdrefn Cynnig Cyllidebol Blynyddol y Cynulliad a byddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn gosod yr amcangyfrif (gydag addasiadau neu hebddynt) gerbron y Cynulliad. Byddai'r Swyddfa Archwilio newydd hefyd yn gyfrifol am sefydlu cynllun ffioedd, a hi fyddai'n gyfrifol am gasglu'r incwm o ffioedd sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai gofyn iddi (ar y cyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru) gynhyrchu cynllun blynyddol yn pennu'r rhaglen waith arfaethedig, ei chost, a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd i ddod. Byddai gofyn hefyd iddi lunio adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, o leiaf ddwywaith y flwyddyn, yn nodi'r cynnydd a wnaethpwyd mewn perthynas â'r cynllun.

Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau i fod yn gorfforaeth undyn a byddai'n cadw'r cyfrifoldeb am ei holl swyddogaethau archwilio, astudio ac arolygu etc, a fyddai'n cael eu hariannu gan y Swyddfa Archwilio newydd ar y sail y rhoddid sylw dyledus i'r cynllun gwaith blynyddol. Byddai'r Swyddfa Archwilio yn rhyddhau adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol ar yr amod bod yr adnoddau y gofynnodd yr Archwilydd amdanynt yn rhesymol.

Byddai'r Bil Drafft hefyd yn egluro, yn symleiddio ac yn cydgrynhoi, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, y darpariaethau niferus sy'n ymwneud â swyddogaethau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru, er mwyn darparu corff cyson o gyfreithiau yn lle'r ddeddfwriaeth bresennol, dameidiog ei natur, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 15 Mai, ac yna bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried. Rwy'n bwriadu cyflwyno'r Bil yn y Cynulliad Cenedlaethol cyn toriad yr haf.

Atotiad B

Rhif: **WG14986**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) Drafft

Dyddiad cyhoeddi: **15 Mawrth 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **15 Mai 2012**

## Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yw gofyn am ymatebion i gynnwys arfaethedig y Bil a fydd yn diwygio'r trefniadau archwilio cyhoeddus yng Nghymru; yn creu corff newydd a elwir yn Swyddfa Archwilio Cymru; yn rhoi ac yn cydgrynhoi swyddogaethau archwilio ariannol a gwerth am arian; ac at ddibenion cysylltiedig. Bwriad y Bil yw moderneiddio trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y gwasanaeth archwilio cyhoeddus yng Nghymru.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **15 Mai 2012**.

Gallwch gyflwyno eich ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd ar ein gwefan:
http://wales.gov.uk/consultations/improving/pawbill/?lang=cy

Fel arall, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd yn Atodiad 3 i'r ddogfen ymgynghori hon i ymateb. Dylech anfon yr ymatebion hyn naill ai ar ffurf electronig neu drwy'r post i:

e-bost: publicauditwalesbill@wales.gsi.gov.uk

Post:
Tîm Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Llywodraeth Cymru
Llawr Cyntaf Gogledd
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gallwch weld y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
http://wales.gov.uk/consultations/improving/pawbill/?lang=cy

## Manylion cysylltu

e-bost: publicauditwalesbill@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 6270

## Diogelu data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2012

# Cynigion Ar Gyfer Bil Archwilio Cyhoeddus  (Cymru)

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir datblygiad y Bil | 3 |
| Y Ddarpariaeth Statudol Bresennol | 4 |
| Yr Angen am Ddeddfwriaeth | 6 |
| Manylion cynigion y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft | 8 |
| Rhan 1: Sefydliadau Archwilio Cyhoeddus Cenedlaethol | 11 |
| Rhan 2: Archwilio Cyhoeddus a Swyddogaethau Gwerth am Arian | 28 |
| Rhan 3: Amrywiol a Chyffredinol | 45 |
| Atodiad 1: Datganiad Ysgrifenedig a Memorandwm (Hydref 2010) | 49 |
| Atodiad 2: Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad | 58 |
| Atodiad 3: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | 60 |

## Rhagair y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Er mwyn rhedeg ein gwasanaethau cyhoeddus yn briodol ac yn effeithiol mae llywodraethu da, atebolrwydd ac agwedd agored yn hanfodol. Mae gan bobl Cymru yr hawl i ddisgwyl bod y rheini sy’n dal swyddi cyhoeddus yn cwrdd â’r safonau uchaf a bod eu disgwyliadau’n cael eu bodloni yn barhaus. Dyna pam y gwnes i groesawu datganiad y Prif Weinidog fis Gorffennaf diwethaf ynghylch Rhaglen Ddeddfu Llywodraeth Cymru pan gyhoeddodd y byddai Bil yn cael ei gyflwyno i wella goruchwyliaeth y Cynulliad dros Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chryfhau atebolrwydd a thryloywder y Swyddfa honno.

Mae’r Bil drafft yn cynnig trefniadau statudol a fydd yn ymdrin yn effeithiol â’r problemau hynny, ond a fydd hefyd yn gwarchod statws yr Archwilydd Cyffredinol a’i annibyniaeth ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Bydd y Bil yn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru newydd, gorfforaethol, gyda saith aelod, a bydd pump o’r rhain yn cael eu penodi gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dod yn brif weithredwr ac yn aelod o’r corff newydd yn awtomatig, ac fe fydd yna aelod sy’n gyflogai. Bydd y Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol sy’n eiddo i’r Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd. Bydd dyletswydd arni hefyd i fonitro’r Archwilydd, a bydd ganddi’r pŵer i’w gynghori.

Mae’r Bil drafft hefyd yn cynnig cydgrynhoi a symleiddio, cyhyd ag y bo hynny’n ymarferol bosibl, nifer o ddarpariaethau sy’n ymwneud â swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn creu corff cyson o gyfreithiau a fydd yn disodli natur wasgaredig y ddeddfwriaeth gyfredol a ddatblygwyd dros y blynyddoedd.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 15 Mai. Caiff yr holl ymatebion eu hystyried ac fe gaiff y Bil drafft ei adolygu yn sgil y sylwadau hynny. Rwy’n bwriadu cyflwyno Bil yn ffurfiol yn y Cynulliad cyn toriad yr haf

**JANE HUTT AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

## Cyflwyniad

1. Ar 12 Gorffennaf 2011, gwnaeth y Prif Weinidog Ddatganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn y datganiad hwnnw cyhoeddodd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil, yn ystod sesiwn 2011-2012 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), i sefydlu trefniadau atebolrwydd, llywodraethu a goruchwylio mwy effeithiol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a Swyddfa ACC.

2. Mae Llywodraeth Cymru felly yn bwriadu cyflwyno Bil er mwyn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel corff corfforaethol gydag amrywiaeth o swyddogaethau; i wneud darpariaeth ynghylch ACC; i gynnig eglurder ynghylch y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i swyddogaethau archwilio ariannol a gwerth am arian ac ati ACC; ac at ddibenion cysylltiedig. Enw'r Bil fydd "Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)".

3. Nod cyffredinol y Bil yw sicrhau y caiff ACC a SAC eu llywodraethu mewn modd mwy agored ac effeithiol, ond gan warchod a chynnal annibyniaeth ACC ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad o ran cynnal archwiliadau

4. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro cefndir y Bil, y rhesymau dros ei gyflwyno, a'r hyn y dylai ei gynnwys, ym marn Llywodraeth Cymru. Gallwch weld fersiwn ddrafft o'r Bil ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
http://wales.gov.uk/consultations/improving/pawbill/?lang=cy
Hoffai Llywodraeth Cymru wybod beth y mae unigolion a sefydliadau, gan gynnwys y rheini y mae ACC yn eu harchwilio neu'n eu hastudio ar hyn o bryd, yn ei feddwl am y cynigion yn y Bil drafft. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn nifer o gwestiynau am gynnwys y Bil drafft a byddem yn croesawu eich sylwadau arnynt. Byddem hefyd yn croesawu sylwadau ar awgrym a allai gyfiawnhau cynnwys cymal pellach yn y Bil o ran datblygu cynaliadwy. Wedi hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law ac yn penderfynu a ddylid diwygio'r Bil drafft cyn ei gyflwyno yn y Cynulliad i'r corff hwnnw graffu arno.

**Cefndir Datblygiad y Bil**

5. Ers peth amser, mae Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Cynulliad (ACau) wedi bod yn pryderu am y trefniadau rheoli, llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag ACC a Swyddfa ACC.

6. Mae'r pryderon yn cynnwys y modd y gwnaeth yr ACC ar y pryd gyflawni agweddau ar ei ddyletswyddau, y diffyg atebolrwydd allanol cadarn a'r modd yr oedd yr ACC ar y pryd wedi gweithio gyda chyrff eraill ac wedi defnyddio'r adnoddau cyhoeddus oedd ar gael iddo i hwyluso ei swyddogaethau a rhedeg SAC. O ganlyniad, dechreuodd Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chynnwys yn un o Filiau priodol Llywodraeth y DU a fyddai'n rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad allu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, drwy un o Ddeddfau'r Cynulliad, a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i foderneiddio a chryfhau trefniadau llywodraethau ac atebolrwydd ACC a SAC. Gosodwyd datganiad ysgrifenedig a memorandwm esboniadol Llywodraeth Cymru ar ei chynigion i sicrhau darpariaeth o'r fath gerbron y Cynulliad ar 22 Hydref 2010 (mae'r rhain yn amgaeedig er gwybodaeth yn Atodiad 1).

7. Yn dilyn hynny, sicrhawyd y cymhwysedd deddfwriaethol yn Neddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011 (Deddf 2011) sydd, ar y cyd â darpariaeth cymhwysedd archwilio ac ati gyfredol y Cynulliad yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), yn galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth sylfaenol er mwyn diwygio'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer ACC a SAC.

8. Wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo, parhaodd Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) y Cynulliad ac ACau i fynegi pryderon ynghylch gweithredoedd ACC ar y pryd pan oedd yn cyflawni'r swydd. Roedd y pryderon yn ymwneud â methiant i baratoi cyfrifon ar gyfer SAC a oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau adrodd ariannol gofynnol, materion yn ymwneud â phriodoldeb, a methiant i gynnal safonau llywodraethu uchel.

9. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd y PCC ei adroddiad ar y "Materion yn ymwneud â Chyfrifo, Llywodraethu a Phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru". Roedd yr adroddiad hwnnw yn gwneud nifer o argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer gwella dulliau llywodraethu ac atebolrwydd ACC drwy ddeddfwriaeth y Cynulliad.

10. Yn sgil y cytundeb trawsbleidiol bod angen deddfu yn y maes hwn, ymrwymiad maniffesto y Blaid Lafur i *"[d]defnyddio ein pwerau newydd i ddeddfwriaethu i wneud Archwiliwr Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*", a phŵer y Cynulliad i wneud deddfwriaeth sylfaenol, fe gynhwyswyd cynnig ar gyfer Bil yn rhaglen ddeddfwriaethol y Prif Weinidog.

## Y Ddarpariaeth Statudol Bresennol

11. Amlinellir darpariaethau manwl ynghylch penodiad a statws ACC, staff ACC a materion ariannol a phwerau cyffredinol ACC yn Rhan 5 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 8 i'r Ddeddf honno. Mae swydd ACC yn gorfforaeth undyn[1]. Nid oes gan SAC ei phersonoliaeth gyfreithiol ei hun, ond yn hytrach mae'n derm sy'n disgrifio ACC a staff ACC ar y cyd. Penodir ACC gan Ei Mawrhydi ar sail enwebiad y Cynulliad. Llywodraethir cyfnod yr Archwilydd Cyffredinol yn y swydd gan baragraff 2 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006. Nid oes yna ddarpariaeth statudol benodol sy'n pennu hyd y penodiad na sawl gwaith y gall person ddal y swydd honno, ond gwneir darpariaeth o'r fath yn nhelerau ac amodau penodiad ACC.

12. Mae ACC yn penodi staff, yn pennu eu telerau a'u hamodau, ac mae ganddo'r grym i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn cynorthwyo ACC i gyflawni ei swyddogaethau. Caiff y symiau sy'n ofynnol at y dibenion hyn a threuliau eraill eu talu o gyllideb ACC; mae'r PCC yn ystyried amcangyfrif o'r rhain (a chaiff ei addasu) yn unol â pharagraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006. Mae'r amcangyfrif wedyn, wedi'i addasu neu beidio, o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad yn rhan o gynnig y gyllideb gyffredinol a gyflwynir yn flynyddol yn y Cynulliad (fel sy'n ofynnol o dan adran 125 o Ddeddf 2006).

13. Mae gan ACC y grym mewn rhai achosion, ac mae dan ofyniad mewn achosion eraill, i godi ffioedd am archwilio cyfrifon a chynnal arolygiadau ac astudiaethau i, er enghraifft, ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ogystal ag unrhyw gronfeydd sydd ar gael o ganlyniad i gynnig cyllidebol y Cynulliad yn rhinwedd adran 120(1) a (2) o Ddeddf 2006, caiff rhai darpariaethau penodol mewn deddfiadau awdurdodi ACC dan rai amgylchiadau i gadw derbynebau, ar gyfer ffioedd a godwyd am wasanaethau penodol, er enghraifft. Mewn achosion o'r fath, yn achos ffioedd a godir am archwilio cyrff llywodraeth leol er enghraifft, caiff y symiau a dderbynia ACC eu cadw, ac nid ydynt yn rhan o amcangyfrif ACC o'r gyllideb, ni all y PCC graffu arnynt ac nid ydynt yn rhan o gynnig cyllidebol blynyddol y Cynulliad.

14. Mae gan ACC y pŵer hefyd i fenthyca pan fo'r gwariant yn fwy na'r incwm dros dro, ac ef hefyd yw Swyddog Cyfrifyddu SAC.

15. Wrth arfer ei swyddogaethau nid yw ACC yn destun cyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru. Mae'n hynod bwysig, felly, bod y cyfrifoldebau a roddir i ACC, a busnes ei swydd, yn cael eu cyflawni mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, a bod y systemau llywodraethu a'r rheolaethau mewnol yn cwrdd â'r safonau uchaf.

16. Mae'r pwerau yn Neddf 2006, ar y cyd â'r rhai a roddwyd i'r Cynulliad gan ddarpariaethau Deddf 2011, sy'n diwygio'r Pynciau ym Mhennawd 14 (gweinyddiaeth gyhoeddus) o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 er mwyn cynnwys "Archwilydd Cyffredinol Cymru", yn galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth, drwy un

[1] Cysyniad cyfreithiol thechnegol yw corfforaeth undyn. Swydd/corff corfforaethol ydyw sy'n gallu dal eiddo ac sy'n bodoli hyd yn oed pan nad oes yna berson yn dal y swydd honno (hynny yw pan fo swydd yn wag).

o Ddeddfau’r Cynulliad, i foderneiddio’r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â SAC ac ACC. Nid yw’r pwerau hyn yn caniatáu i’r Cynulliad wneud ACC yn destun cyfarwyddyd neu reolaeth y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru. Nid yw’r cyfyngiad hwnnw, fodd bynnag, yn atal y Cynulliad rhag rhoi swyddogaethau sy’n ymwneud ag ACC i un o bwyllgorau’r Cynulliad (boed hwnnw’n un newydd neu’n un cyfredol) sy’n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ac nad yw’n cael ei gadeirio gan AC sy’n aelod o grŵp gwleidyddol sydd â rôl lywodraethol yng Nghymru.

## Yr Angen am Ddeddfwriaeth

17. Yn sgil pryderon a fynegwyd gan Weinidogion Cymru ac ACau, ynghyd â thystiolaeth a gyflwynwyd i'r PCC, canfuwyd nifer o wendidau a methiannau mewn perthynas â gweithredoedd cyn ACC pan oedd yn cyflawni'r swydd.

### Materion cyfrifyddu

18. O dan baragraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 mae'n rhaid i ACC baratoi cyfrifon blynyddol yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys, gan gynnwys cydymffurfio â'i Lawlyfr Adroddiadau Ariannol. O dan baragraff 16 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 ACC yw'r Swyddog Cyfrifyddu, ac mae gofyn iddo gymeradwyo'r cyfrifon, cymryd cyfrifoldeb personol am eu cywirdeb a chydymffurfio â'r Llawlyfr. Mae ACC hefyd yn gyfrifol am reolaeth ariannol o fewn SAC, gan gynnwys sicrhau bod y trafodion yn rheolaidd, yn briodol ac yn ystyried yn llawn yr angen i sicrhau gwerth am arian.

19. Ar gais yr ACC presennol, fe archwiliodd y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol gyfrifon a chofnodion cyfrifyddu y cyn ACC a chadarnhaodd, yn achos y pum mlynedd 2005-2010, nad oedd ei gyfrifon yn cydymffurfio â'r Llawlyfr. Canfuwyd na roddwyd cyfrif llawn am y gwariant ar setliadau ymddeol yn gynnar, ei hawliau pensiwn cronnus a'r arian a dderbyniwyd o'r pwrs cyhoeddus, gan arwain at anawsterau o ran canfod sut yr oedd ei wariant a gwariant ei swydd yn cysoni â'r symiau a awdurdodwyd gan y Cynulliad.

20. Er mwyn osgoi'r perygl y gallai hyn godi eto, neu ostwng y siawns y gallai hynny ddigwydd yn sylweddol o leiaf, mae'n rhaid newid y ddeddfwriaeth sy'n trosglwyddo'r gyllideb (fel y penderfynir arni gan y Cynulliad) o gyfrifoldeb uniongyrchol ACC yn unig (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) i SAC yn gorfforaethol. I'r perwyl hwnnw, byddai SAC gorfforaethol yn ariannu swyddogaethau ACC a, thrwy hynny, yn creu'r gwahaniad angenrheidiol o ran cyfrifoldebau, monitro a goruchwylio sy'n absennol o dan y trefniadau presennol.

### Materion priodoldeb

21. Cyflawnodd cyn ACC droseddau gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol SAC yn adeiladau SAC a'r Cynulliad. Plediodd yn euog i'r troseddau ac fe'i dedfrydwyd i wyth mis o garchar ym mis Tachwedd 2010.

22. Mewn adroddiad (Ionawr 2011) gan yr ACC presennol ar ymddygiad cyn ACC honnir bod yr olaf wedi cymryd camau bwriadol i guddio gwir faint pecyn diswyddo ymddeoliad cynnar ei Brif Swyddog Gweithredu, a bod cyfiawnhad dros gasglu ei fod wedi mynd ati'n fwriadol i guddio ei natur a'i faint rhag ei Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac uwch-swyddogion ACC. Daeth y PCC i'r casgliad ei fod wedi camarwain y Cynulliad a bod ei weithredoedd, fel ACC ar y pryd, yn gamymddygiad at ddibenion paragraff 2(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006.

23. Yn ystod cyfnod cyn ACC yn ei swydd, honnir ei fod wedi awdurdodi gwariant o tua £77,000 ar hyfforddiant a threuliau iddo ef ei hun a'i Brif Swyddog Gweithredu, ond heb unrhyw achos busnes, cynlluniau datblygiad personol nac unrhyw reswm arall i gyfiawnhau'r taliadau. Roedd y PCC o'r farn nad oedd maint yr hyfforddiant,

ynghyd â'r diffyg cyfiawnhad, yn cynrychioli gwerth am arian ac mai ef ei hun a'r Prif Swyddog Gweithredu a gafodd y budd mwyaf o'r arian a wariwyd.

24. Er mwyn lleihau'r risg y gallai'r systemau rheoli mewnol gael eu diystyru yn y dyfodol, bydd y ddeddfwriaeth newydd yn darparu mai SAC – yn hytrach nag ACC – fydd yn cyflogi'r holl staff ac y bydd SAC yn gyfrifol am oruchwylio swyddogaethau ACC. Yn ogystal, byddai gan y SAC gorfforaethol gyfrifoldebau eraill, er enghraifft caffael TG, hyfforddiant staff a gwasanaethau eraill a fyddai'n lleihau'n sylweddol, neu'n cael gwared yn llwyr ar y cyfleoedd i unrhyw ACC ymddwyn yn amhriodol.

**Llywodraethu**

25. Yn fuan ar ôl ymgymryd â'i swydd, cydnabu'r ACC presennol y gwendidau o ran llywodraethu ac atebolrwydd a etifeddodd, ac mae wedi mynd ati i unioni'r gwendidau hynny drwy gryfhau ei systemau rheoli mewnol a chyflwyno nifer o brosesau adolygu rheolaidd. Er bod y newidiadau hyn i'w croesawu, nid yw eu heffeithiolrwydd yn gyson â'r arferion gorau cydnabyddedig: nid oes sail gyfreithiol i dri phwyllgor cynghori ACC (rheolaeth a risg archwilio; adnoddau; a chydnabyddiaeth) ac nid ydynt yn darparu unrhyw warant o barhad sefydliadol; ac fe gaiff aelodau annibynnol y pwyllgorau cynghori eu penodi gan ACC (gyda mewnbwn gan y sawl a enwebwyd gan Gadeirydd y PCC).

26. Er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn o ran materion cyfrifyddu, priodoldeb a llywodraethu, lleihau yn sylweddol y siawns y byddant yn codi eto, a chynnig mwy o sicrwydd i'r Cynulliad, a'r cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau yn y Bil hwn a fyddai:

- yn cwrdd â'r ymrwymiadau mewn datganiadau cyhoeddus i ddiwygio a moderneiddio'r dull o lywodraethu ACC gan gynnwys SAC;
- yn sefydlu SAC gorfforaethol newydd lle byddai'r mwyafrif o'r aelodau yn aelodau anweithredol a benodir gan y PCC;
- yn pennu gwahaniad cyfrifoldebau clir rhwng swyddogaethau'r SAC newydd a rhai'r ACC newydd;
- yn gwneud y SAC newydd yn ddeiliad y gyllideb, gyda'i hamcangyfrif blynyddol cyfan o incwm a gwariant yn destun cymeradwyaeth y Cynulliad;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAC newydd a'r ACC newydd gytuno ar gynllun gwaith blynyddol;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAC newydd ariannu, ar gais, swyddogaethau'r ACC newydd, cyhyd â bod y ceisiadau hynny'n rhesymol;
- yn gosod dyletswydd ar y SAC newydd i fonitro'r ACC ac yn rhoi'r pŵer iddi ei gynghori;
- yn galluogi'r SAC i greu pwyllgorau (ac is-bwyllgorau) a dirprwyo ei swyddogaethau iddynt;
- yn gwella tryloywder ac atebolrwydd;
- yn gwarchod annibyniaeth a statws yr ACC newydd;
- yn cydgrynhoi ac yn symleiddio'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n gysylltiedig ag ACC.

## Manylion Cynigion y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) Drafft

### Trosolwg

27. Bwriad cyffredinol y Bil yw cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag ACC, SAC ac, fel sy'n briodol, cydgrynhoi, symleiddio ac/neu ddiwygio deddfwriaeth sy'n berthnasol i swyddogaethau archwilio a gwerth am arian ac ati ACC, ond gan warchod annibyniaeth a statws ACC ar yr un pryd.

28. Er mwyn cyflawni'r amcanion hynny bydd y Bil yn trosglwyddo swyddogaethau'r cyflogwr, swyddogaethau ariannol a swyddogaethau gweinyddol eraill o'r ACC presennol ac yn eu breinio yn y SAC newydd a fydd yn atebol i'r PCC ac yn destun craffu'r Pwyllgor hwnnw. Bydd y Pwyllgor, yn ei dro, yn atebol i'r Cynulliad. Bydd y Bil yn sicrhau bod ACC yn parhau i fod yn annibynnol ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ac yn darparu bod yr ACC newydd yn cael ei benodi gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad y Cynulliad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac i'r ACC newydd barhau i fod yn gorfforaeth undyn.

29. Bydd prif ddarpariaethau'r Bil yn cynnwys sefydlu'r SAC newydd fel corff corfforaethol gyda 7 o aelodau. Bydd y mwyafrif yn aelodau anweithredol a benodir gan PCC y Cynulliad ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth agored a theg. Bydd yr ACC newydd yn dod yn brif swyddog gweithredol ac yn aelod o'r SAC newydd yn awtomatig, a bydd un aelod sy'n gyflogai yn cael ei benodi gan aelodau anweithredol y SAC newydd.

30. Bydd y SAC newydd yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau o natur gorfforaethol sydd wedi'u breinio ar hyn o bryd yn ACC, a'r nod yw sicrhau na fyddai pwerau o'r fath yn nwylo un unigolyn yn y dyfodol. Bydd dyletswydd ar y SAC newydd i fonitro'r ACC newydd a bydd ganddi'r pŵer i'w gynghori; bydd hefyd yn cyflogi staff, yn sicrhau y darperir gwasanaethau ac yn dal eiddo at ddibenion arfer ei swyddogaethau a rhai'r ACC newydd.

31. Bydd yn rhaid i'r SAC newydd a'r ACC newydd baratoi amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant i'w gymeradwyo, wedi'i addasu neu beidio, gan y PCC. Bydd yn rhaid i'r PCC osod yr amcangyfrif (wedi'i addasu neu beidio) gerbron y Cynulliad. Y SAC newydd fydd deiliad y gyllideb a bydd ei hamcangyfrif o'r gyllideb gyfan yn destun gweithdrefn Cynnig Cyllidebol Blynyddol y Cynulliad, unwaith y'i gosodir gerbron y Cynulliad. Bydd y SAC newydd hefyd yn gyfrifol am godi'r ffioedd, a chasglu'r incwm, sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r ACC newydd.

32. Bydd gofyn i'r SAC newydd hefyd, ar y cyd â'r ACC newydd, baratoi cynllun blynyddol, a rhaid i'r ddau barti roi sylw dyladwy iddo. Bydd y cynllun blynyddol yn amlinellu'r rhaglen waith y bwriedir ei dilyn, ei chost a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol. O leiaf ddwywaith y flwyddyn bydd y SAC newydd a'r ACC newydd yn rhoi adroddiad interim i'r PCC ar y cynnydd mewn perthynas â'r cynllun.

33. Bydd yr ACC newydd yn gyfrifol am ei swyddogaethau archwilio, astudio ac arolygu ac ati. Bydd y SAC newydd yn darparu'r adnoddau i alluogi'r ACC newydd i

arfer ei swyddogaethau ar sail rhoi sylw dyladwy i'r cynllun gwaith blynyddol, ac ar yr amod bod ceisiadau'r ACC newydd am adnoddau yn rhesymol.

34. Bydd y Bil Drafft hefyd yn egluro, yn symleiddio ac yn cydgrynhoi, cyhyd ag y bo'n ymarferol bosibl, y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau archwilio, astudio ac arolygu ac ati ACC er mwyn darparu corff llawer mwy cyson o gyfreithiau a fyddai'n disodli'r ddarpariaeth dameidiog ar archwilio statudol ac ati sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd.

35. Fel gyda phob deddfwriaeth ddrafft bydd gofyn gwneud newidiadau technegol o hyd (ee, drwy symud darpariaethau, diwygio er mwyn sicrhau cysondeb) cyn i'r Bil gael ei gyflwyno yn y Cynulliad.

36. Mae prif bwerau'r Cynulliad y dibynnir arnynt ar gyfer y Bil hwn (fel y'u nodir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), wedi'u hatgynhyrchu isod. Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

Public administration
14

Public Services Ombudsman for Wales. [**Auditor General for Wales.] Audit, examination, regulation** and **inspection** of auditable public authorities. Inquiries [in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General exercise functions]. Equal opportunities in relation to equal opportunity public authorities. Access to information held by open access public authorities.

The following are "auditable public authorities" and "equal opportunity public authorities"—

a. the Assembly,
b. the Assembly Commission,
c. the Welsh Assembly Government,
d. persons who exercise functions of a public nature and in respect of whom the Welsh Ministers exercise functions,
e. persons who exercise functions of a public nature and at least half of the cost of whose functions in relation to Wales are funded (directly or indirectly) by the Welsh Ministers, and
f. persons established by enactment and having power to issue a precept or levy.

The following are "open access public authorities"—

a. the Assembly,
b. the Assembly Commission,
c. the Welsh Assembly Government, and
d. authorities which are Welsh public authorities, within the meaning of the

Freedom of Information Act 2000 (c 36).
Exception—
Regulation of the profession of auditor.

37. Yn ystod y broses ymgynghori a chyn i'r Bil gael ei gyflwyno, bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â Swyddfa Cymru (ac, os bydd angen, ag adrannau eraill Llywodraeth y DU) er mwyn trafod yn fanwl a yw holl ddarpariaethau arfaethedig y Bil drafft o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yna ddadleuon cyfreithiol parchus i ddadlau bod y Bil drafft o fewn cymhwysedd. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar hynny, fodd bynnag.

38. Mewn rhai achosion rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cydsyniad i ddarpariaethau Biliau'r Cynulliad er mwyn iddynt fod o fewn cymhwysedd. Yn ogystal, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer drwy orchymyn o dan adran 150 o Ddeddf 2006 i wneud darpariaethau canlyniadol yn sgil Deddfau'r Cynulliad – ee, newid materion nad ydynt wedi'u datganoli a allai fod yn ofynnol o ganlyniad i'r newidiadau a achoswyd gan y Ddeddf Cynulliad berthnasol mewn perthynas â materion datganoledig.

39. Ceir nifer o achosion mewn deddfwriaeth gyfredol (sy'n cael eu hailddatgan yn y Bil), o greu troseddau lle gellir amddiffyn rhag y cyhuddiad os gall y diffinydd brofi bod ganddo esgus rhesymol. Er mwyn osgoi unrhyw fater sy'n ymwneud â hawliau dynol yn y Bil rydym wedi sicrhau ym mhob achos o'r fath bod yna ddarpariaeth sy'n golygu, os yw'r diffinydd yn dyfynnu tystiolaeth o esgus rhesymol, y bydd y baich wedyn yn disgyn ar yr erlyniad i brofi nad oedd gan y person esgus o'r fath. Mewn geiriau eraill ni fydd yn rhaid i'r diffynnydd brofi bellach bod ganddo esgus o'r fath; yr unig beth y bydd gofyn i'r diffynnydd ei wneud fydd codi digon o dystiolaeth ynghylch esgus o'r fath i'r baich ddisgyn ar y wladwriaeth wedyn i wrthbrofi hynny.

40. Mae'r rhan hon o'r papur ymgynghori yn manylu ar y cynigion yn y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft ac yn holi cwestiynau am rai o'i brif ddarpariaethau. Mae hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch unrhyw fater arall y gellid ei gynnwys yn y Bil. Gallwch weld rhestr lawn o'r cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hon (Atodiad 3 ar dudalen 40). Gallwch weld copi llawn o'r Bil Drafft ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://wales.gov.uk/consultations/improving/pawbill/?lang=cy

41. Mae'r Bil wedi'i rannu'n Rannau, yna'n Benodau, ac yna'n gymalau. Mae'r rhan hon o'r papur ymgynghori yn dilyn strwythur y Bil drafft, ond pan fo cymal yn cyflwyno atodlen, caiff yr atodlen honno ei hystyried o dan y cymal perthnasol.

**Cymal 1: Trosolwg**

42. Mae'r cymal hwn yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Bil ac ni fwriedir iddo gael unrhyw effaith gyfreithiol.

## Rhan 1 – Sefydliadau Archwilio Cyhoeddus Cenedlaethol

### Pennod 1: Archwilydd Cyffredinol Cymru

43. Mae’r Bennod hon yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer parhad swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr ACC newydd) a materion cysylltiedig gan gynnwys penodi, cyfnod y swydd; ymddiswyddiad neu ddiswyddiad; y dull o benodi person i arfer swyddogaethau ACC dros dro; cyflogaeth ac ati cyn ACC; statws yr ACC newydd; datgymhwyso a’r trefniadau talu.

44. Ni ellir newid rhai o’r darpariaethau cyfredol, yn fwyaf arbennig yn Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), ynghylch penodi’r ACC presennol, cyfnod y swydd (ond dim ond mewn perthynas â phwerau Ei Mawrhydi i ryddhau ACC o’i swydd neu’i ddiswyddo), annibyniaeth a statws, gan nad yw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn caniatáu hynny. Pan fo hynny’n berthnasol, mae effaith darpariaethau Deddf 2006 wedi’u hailddatgan yn y Bil.

### Cymal 2: Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru

45. Mae’r cymal hwn yn darparu ar gyfer parhad swydd yr ACC newydd ac i Ei Mawrhydi benodi ACC ar enwebiad y Cynulliad, cyhyd â bod y Cynulliad yn fodlon ei fod wedi ymgynghori â’r cyrff hynny yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd yr ACC newydd yn dal y swydd am 7 mlynedd ac ni fydd yn gymwys i gael ei ailbenodi.

| |
|---|
| **Cwestiwn 1:** Beth yw eich barn ynghylch y ffaith y bydd yr ACC yn dal y swydd am 7 mlynedd? Ydi hynny’n rhy hir, yn rhy fyr neu’n rhesymol? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 2**: Ydych chi’n cytuno mai dim ond unwaith y caiff person fod yn ACC? |

### Cymal 3 : Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad

46. Mae’r cymal hwn yn amlinellu’r broses ar gyfer ymddiswyddiad neu ddiswyddiad yr ACC newydd; mae’n glynu’n agos at y darpariaethau cyfredol ym mharagraff 2 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006.

### Cymal 4: Cyflogaeth etc cyn Archwilydd Cyffredinol

47. Mae’r ddarpariaeth hon yn darparu ar gyfer gosod cyfyngiadau ar berson sy’n rhoi’r gorau i swydd ACC. Mae’r cyfyngiadau’n ymwneud â swyddi, cyflogaeth a gwasanaethau yr ystyrir y byddent yn amhriodol i berson sydd wedi rhoi’r gorau i fod yn ACC ymgymryd â hwy neu’u darparu. Y nod yw osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu ganfyddiad o wrthdaro o’r fath pan fo person yn ACC – ee, osgoi’r sefyllfa lle bo ACC sy’n tynnu at ddiwedd ei gyfnod yn y swydd yn cyflawni ei swyddogaethau yn llai llym mewn perthynas â chorff y gallai gael ei benodi iddo ar ôl rhoi’r gorau i fod yn ACC.

| |
|---|
| **Cwestiwn 3:** Beth yw eich barn ynghylch gosod cyfyngiadau ar y swyddi, y gyflogaeth a’r gwasanaethau y gall person eu dal unwaith y mae’n rhoi’r gorau i fod yn ACC? |

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno bod dwy flynedd yn gyfnod priodol ar gyfer y cyfyngiadau hyn?

**Cymal 5: Statws etc**

48. Bydd swydd yr ACC newydd yn parhau i fod yn gorfforaeth undyn

49. Rhaid peidio â barnu y bydd yr ACC newydd yn was neu'n asiant i'r Goron neu fod ganddo unrhyw statws, imiwnedd neu fraint sydd gan y Goron, heblaw bod yr ACC newydd i gael ei ystyried yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989

**Cymal 6: Anghymhwyso**

50. Ni fydd person yn cael bod yn ACC (na pharhau i fod yn ACC) os yw'n dal swydd sy'n ei ddatgymhwyso, hynny yw unrhyw swydd y caiff person ei benodi neu'i argymell neu'i enwebu i'w benodi iddo gan, neu ar ran, y Goron, y Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad), Aelod Cynulliad, aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon, neu gyflogai'r SAC newydd.

51. The purpose of these provisions is to maintain the independence of the new AGW in respect of the bodies that the new AGW audits or examines. It is also considered that being the new AGW and at the same time a member of any legislature in England, Wales, Scotland or Northern Ireland would not be appropriate.

**Cymal 7: Tâl**

52. Cyn i ACC newydd gael ei benodi, bydd Cadeirydd y PCC yn gwneud y trefniadau talu mewn perthynas â'r penodiad hwnnw, ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad.

53. Drwy ymgynghori, gall Cadeirydd y PCC gasglu safbwyntiau ehangach ar briodoldeb y trefniadau talu arfaethedig. Caiff y trefniadau ymdrin â chyflog a buddion eraill, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer pensiwn, a'r taliadau tuag ato, a gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd, ond ni fyddant yn cynnwys unrhyw elfen sy'n seiliedig ar berfformiad. Caiff unrhyw symiau sy'n daladwy eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru, hynny yw, eu talu o'r Gronfa honno yn hytrach na'r arian y mae'r Cynulliad yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Y nod yma yw gwarchod annibyniaeth swydd yr ACC ymhellach rhag dylanwad gwleidyddol amlwg.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n ystyried bod y drefn ar gyfer pennu'r trefniadau talu yn deg?

**Pennod 2: Swyddfa Archwilio Cymru**

54. Amcan cyffredinol Pennod 2 yw sefydlu'r SAC newydd fel corff corfforaethol, sy'n atebol i'r PCC a'r Cynulliad; i'r SAC newydd fod ag ystod o swyddogaethau; a darparu ar gyfer llywodraethu'r ACC newydd yn effeithiol

**Cymal 8 ac Atodlen 1: Ymgorffori'r SAC newydd**

55. Bydd y cymal hwn ac Atodlen 1 yn sefydlu corff corfforaethol, a elwir yn Swyddfa Archwilio Cymru (Wales Audit Office yn Saesneg), i weithredu mewn perthynas â Chymru y swyddogaethau a roddir iddi gan gynigion y Bil pan gaiff ei gyflwyno. Ni fydd y SAC newydd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

| |
|---|
| **Cwestiwn 6**: Beth yw eich barn ynghylch sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol? |

**Atodlen 1, paragraffau 1 a 3: Aelodaeth a Statws**

56 Bwriad Llywodraeth Cymru wrth sefydlu'r SAC newydd fel corff corfforaethol yw na ddylai fod yn rhy fawr. Bydd yna 7 aelod o'r SAC newydd. Bydd yna 5 o bersonau nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y SAC newydd ("yr aelodau anweithredol"), yr ACC newydd (a fydd yn dod yn aelod yn awtomatig) ac un o gyflogeion y SAC newydd (yr "aelod sy'n gyflogai").

57. Rhaid peidio â barnu bod y SAC newydd nac unrhyw un o'i haelodau na chyflogeion y SAC newydd yn weision neu'n asiantwyr y Goron neu fod ganddynt unrhyw statws, imiwnedd neu fraint sydd gan y Goron, a rhaid peidio â barnu bod eiddo'r SAC newydd yn eiddo i'r Goron, neu'n cael ei ddal ar ei rhan. Yr eithriad yw y bydd aelodau'r SAC newydd yn cael eu hystyried yn weision y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

| |
|---|
| **Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno y dylai fod yna 7 aelod o'r SAC newydd? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 8:** Beth yw eich barn ynghylch cyfansoddiad y SAC newydd? |

**Atodlen 1, paragraffau 2, 4 i 6: Penodi aelodau anweithredol a chadeirydd SAC ac ailbenodi**

58. Bydd PCC y Cynulliad yn penodi pob aelod anweithredol o'r SAC newydd ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored (Atodlen 1, paragraff 2).

59. Ni fydd penodiad yn parhau am gyfnod o fwy na 3 blynedd ac ni chaniateir i unrhyw un gael ei benodi'n aelod o'r SAC newydd fwy na dwywaith.

60. Bydd un o aelodau anweithredol y SAC newydd yn gadeirydd arni. Mater i'r PCC fydd cyflwyno a symud cynnig i benodi Cadeirydd y SAC newydd yn y Cynulliad, ac er mwyn gwneud hynny rhaid i'r PCC fod wedi ymgynghori â Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad a'r Prif Weinidog. Ymgynghorir â Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad er mwyn derbyn amrywiaeth o safbwyntiau, nad ydynt yn seiliedig ar safbwyntiau'r pleidiau gwleidyddol, ynghylch y penodiad, a diben ymgynghori â'r Prif Weinidog yw clywed barn Llywodraeth Cymru ar yr un mater.

61. Penodir Cadeirydd y SAC newydd am 3 blynedd ac ni chaniateir i'r un person gael ei benodi'n Gadeirydd fwy na dwywaith. Caiff y Cynulliad ymestyn penodiad cychwynnol Cadeirydd y SAC newydd ar sail cynnig a gyflwynir ac a symudir gan Gadeirydd y PCC, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad a'r Prif

Weinidog. Bydd penodiad a ymestynnir yn cael ei ystyried yn benodiad ar wahân at ddibenion:

- y cyfyngiad ar nifer yr achlysuron y ceir penodi person yn Gadeirydd y SAC newydd;
- y trefniadau talu;
- pennu telerau ac amodau, er enghraifft cyfyngiadau ar y swyddi ac ati y caiff aelod anweithredol o'r SAC newydd eu dal yn ystod ei gyfnod yn y swydd, ac wedi hynny.

62. Caiff yr aelodau anweithredol eraill eu penodi gan y PCC gan ddilyn y gweithdrefnau a nodir ym mharagraff 58 uchod. Os oes yna swydd wag neu swyddi gwag ymysg yr aelodau anweithredol bydd y PCC yn penodi eto ar sail teilyngdod ac yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.

63. Bydd aelod anweithredol yn dal ac yn gadael ei swydd fel aelod neu Gadeirydd y SAC newydd yn unol â'i delerau penodi.

| |
|---|
| **Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau penodi ac ailbenodi ar gyfer Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill y SAC newydd? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 10:** Ydych chi'n ystyried bod cyfnod penodi cychwynnol yr aelodau anweithredol, sef hyd at dair blynedd, yn ddigonol? Os nad ydych chi, rhowch eich rhesymau. |

| |
|---|
| **Cwestiwn 11:** A ddylai'r aelodau anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, fod yn gymwys i wasanaethau am fwy na dau dymor? |

**Atodlen 1, paragraff 7 : Aelodau anweithredol a Chadeirydd SAC: Trefniadau talu**

64. Caiff Cadeirydd y PCC, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad a'r Prif Weinidog, wneud trefniadau talu cydnabyddiaeth mewn perthynas â Chadeirydd y SAC newydd, a bydd y symiau sy'n daladwy i'r person hwnnw yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu ohoni, hynny yw, yr un yw'r dull talu ag ar gyfer yr ACC newydd (gweler paragraffau 52 a 53) ac mae'r rhesymau a nodwyd yno hefyd yn berthnasol.

65. Caiff y PCC wneud trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer unrhyw aelod anweithredol arall, a bydd y symiau sy'n daladwy i'r aelodau hynny yn cael eu talu gan y SAC newydd.

66. Caiff y trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill y SAC newydd gynnwys ddarpariaeth ar gyfer cyflogau, ffioedd, teithio a chynhaliaeth a lwfansau a buddion eraill, ond nid ar gyfer pensiwn. Er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o beryglu annibyniaeth Cadeirydd y SAC newydd a'r aelodau anweithredol eraill, ni fydd unrhyw elfen o'u taliadau cydnabyddiaeth yn seiliedig ar berfformiad.

| |
|---|
| **Cwestiwn 12:** Beth yw eich barn am y trefniadau talu ar gyfer Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill y SAC newydd? |

**Atodlen 1, paragraff 8: Aelodau anweithredol a Chadeirydd SAC: Telerau penodi eraill**

67. Caiff y PCC bennu telerau ac amodau eraill sy'n berthnasol i aelodau anweithredol y SAC newydd, gan gynnwys ei Chadeirydd. Er mwyn osgoi unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau neu beryglu enw da, gallai'r telerau gynnwys cyfyngiadau ar y swyddi y cânt eu dal, neu'r trefniadau contractiol neu drefniadau eraill y gallent ymrwymo iddynt yn ystod cyfnod eu penodiad, ac am gyfnod o hyd at ddwy flynedd ar ôl rhoi'r gorau i'w swydd.

| |
|---|
| **Cwestiwn 13:** Beth yw eich barn ynghylch y ffaith y bydd y PCC yn gallu gosod cyfyngiadau ar Gadeirydd ac aelodau anweithredol SAC yn ystod eu cyfnod yn y swydd ac wedi hynny am gyfnod o hyd at ddwy flynedd? Ydych chi'n ystyried bod dwy flynedd yn ddigon? |

**Atodlen 1, paragraff 9: Aelodau anweithredol a Chadeirydd SAC: Ymgynghori**

68. Cyn pennu'r trefniadau talu cydnabyddiaeth ac unrhyw delerau penodi eraill, ac er mwyn cael dealltwriaeth ehangach o delerau o'r fath, rhaid i'r PCC neu'i Gadeirydd (fel y bo'n briodol) ymgynghori ag unrhyw berson sy'n goruchwylio penodiadau cyhoeddus fel y gwêl y PCC neu ei Gadeirydd (fel y bo'n briodol) yn dda.

**Atodlen 1, paragraffau 10 ac 11: Dod â phenodiadau i ben**

69. Caiff Cadeirydd y SAC newydd ymddiswyddo o'r swydd honno drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Gadeirydd y PCC, a daw'r penodiad hwnnw i ben pan dderbynnir yr ymddiswyddiad. Caiff unrhyw aelod anweithredol arall o'r SAC newydd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r PCC a bydd y penodiad yn dod i ben pan dderbynnir yr ymddiswyddiad.

70. Mae Paragraff 11(1) yn nodi'r amgylchiadau hynny lle caiff y PCC ddod â phenodiad unrhyw aelod anweithredol i ben drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod.

71. Caiff y Cynulliad ddod â phenodiad Cadeirydd y SAC newydd i ben wedi i gynnig gael ei gyflwyno a'i symud gan Gadeirydd y PCC (ar ôl ymgynghori â Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad a'r Prif Weinidog) os yw Cadeirydd y SAC newydd:

- wedi methu cydymffurfio â thelerau'r penodiad;
- yn anfodlon cyflawni swyddogaethau Cadeirydd y SAC newydd.

72. Ni fydd y ffaith bod penodiad Cadeirydd y SAC newydd wedi dod i ben, am y naill neu'r llall o'r rhesymau uchod, neu'r ddau reswm, yn golygu ei fod yn rhoi'r gorau yn awtomatig i fod yn aelod anweithredol o'r SAC newydd.

| |
|---|
| **Cwestiwn 14:** A oes yna unrhyw resymau eraill pam y dylid dod â phenodiad aelodau anweithredol neu'r Cadeirydd i ben? |

**Atodlen 1, paragraff 12: Taliadau ychwanegol i ACC**

73. Caiff y SAC newydd wneud trefniadau taliadau cydnabyddiaeth ychwanegol ar gyfer yr ACC newydd, o ran lwfansau ac unrhyw fuddion eraill i gwrdd ag unrhyw dreuliau yr aethpwyd iddynt yn angenrheidiol ac yn briodol, gan yr ACC newydd yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r SAC newydd, a phrif weithredwr arni. Y SAC newydd fydd yn talu unrhyw symiau o'r fath.

**Atodlen 1, paragraffau 13 i 18: Aelod sy'n gyflogai o'r SAC newydd**

74. Caiff yr aelod sy'n gyflogai ei benodi gan aelodau anweithredol y SAC newydd. Diben y penodiad hwn yw dod â phrofiad y cyflogai i fwrdd y SAC newydd.

75. Os oes yna swydd wag, rhaid i'r ACC newydd argymell person i'r aelodau anweithredol ei benodi, a rhaid iddynt naill ai benodi'r person hwnnw neu benodi person arall o'u dewis hwy.

76. Bydd yr aelodau anweithredol yn pennu amodau penodi aelod sy'n gyflogai, a gallent osod amodau eraill gan gynnwys cyfyngu ar y swyddi ac ati y caiff yr aelod sy'n gyflogai eu dal tra'i fod yn y swydd, neu am gyfnod o hyd at ddwy flynedd ar ôl rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r SAC newydd.

77. Caiff yr aelodau anweithredol wneud trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer yr aelod sy'n gyflogai, ond dim ond mewn perthynas â lwfansau a buddion eraill yr aethpwyd iddynt, yn angenrheidiol ac yn briodol, fel aelod sy'n gyflogai, gan y bydd yn parhau i gael ei dalu fel un o gyflogeion y SAC newydd. Ni fydd cyfnod yr aelod sy'n gyflogai yn y swydd yn cael ei ystyried yn doriad yng nghyfnod ei gyflogaeth gyda'r SAC newydd.

78. Bydd yr aelod sy'n gyflogai yn dal ac yn gadael y swydd yn unol â thelerau ei benodiad, a bydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod sy'n gyflogai o'r SAC newydd yn awtomatig os bydd yn ymddiswyddo neu'n rhoi'r gorau i gael ei gyflogi gan y SAC newydd. Caiff yr aelodau anweithredol ddod â phenodiad aelod sy'n gyflogai i ben am yr un rhesymau â'r rhai ar gyfer yr aelodau anweithredol (gweler paragraffau 69 i 71 uchod).

| |
|---|
| **Cwestiwn 15:** Beth yw eich barn ynghylch penodi aelod sy'n gyflogai o'r SAC newydd? Ydych chi'n cytuno â'r dull sy'n cael ei gynnig ar gyfer penodi'r person hwnnw? |

**Atodlen 1, paragraff 19: Cyflogeion**

79. Bydd gan y SAC newydd y pŵer i gyflogi a thalu ei staff (na fyddant yn weision sifil) ar y telerau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol ar yr amod bod ei gweithdrefnau recriwtio a dethol staff a'i thelerau cyflogaeth yn cyfateb yn fras i rai aelodau staff Llywodraeth Cymru (sy'n weision sifil).

80. Caiff y SAC gynnwys ymysg ei gyflogeion archwilwyr sydd â chymwysterau priodol i helpu ACC i gyflawni ei swyddogaethau archwilio ac ati.

81. Ni chaiff personau sy’n dymuno bod yn gyflogeion (neu barhau i fod yn gyflogeion) y SAC newydd ddal hefyd unrhyw swydd y caiff person ei benodi iddi, neu ei argymell neu’i enwebu i’w benodi iddi, gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn ymgynghori ag ACC a chynrychiolydd cyflogeion ACC er mwyn penderfynu a ddylai’r cyfyngiadau hyn fod yn berthnasol i gyflogeion yr ACC presennol sy’n trosglwyddo i’r SAC newydd ac yn dod yn gyflogeion iddi, os bydd y Bil hwn yn troi’n ddeddf ac yn dod i rym.

82. Ni fydd cyflogeion y SAC newydd yn cael eu hystyried yn weision neu’n asiantwyr y Goron, nac yn meddu ar unrhyw statws, imiwnedd neu fraint sydd gan y Goron. Ystyrir eu bod yn weision y Goron, fodd bynnag, at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

**Cwestiwn 16:** Ydych chi’n cytuno y dylai’r gweithdrefnau recriwtio a dethol a’r amodau cyflogaeth ar gyfer staff SAC ddilyn, yn fras, y rhai ar gyfer staff Llywodraeth Cymru?

83. Bydd gofyn i’r SAC newydd wneud taliadau ar gyfer buddion pensiwn a’u costau gweinyddol cysylltiedig.

**Atodlen 1, paragraffau 20 i 22: Rheolau Gweithdrefnol**

84. Rhaid i’r SAC newydd wneud rheolau mewnol er mwyn rheoleiddio ei gweithdrefnau. Rhaid i’r rheolau bennu cworwm ar gyfer unrhyw un o gyfarfodydd y SAC newydd a rhaid iddynt ddarparu na fodlonir cworwm o dan unrhyw amgylchiadau oni bai mai aelodau anweithredol yw mwyafrif yr aelodau sy’n bresennol. Yn amodol ar hynny, caiff y rheolau ddarparu bod cworymau gwahanol yn gymwys dan wahanol amgylchiadau.

85. Caiff y SAC newydd sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau a gwneud rheolau ar gyfer eu rheoleiddio. Caiff cyflogai i’r SAC newydd, ac eithrio’r aelod sy’n gyflogai o’r SAC newydd, fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor. Caiff person nad yw’n aelod sy’n gyflogai o’r SAC newydd nac yn gyflogai iddi, fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor o’r SAC newydd, ond dim ond os nad oes unrhyw un o swyddogaethau’r SAC newydd wedi’u dirprwyo i’r pwyllgor neu’r is-bwyllgor.

**Atodlen 1, paragraffau 23 a 24: Pwerau a Dilysrwydd**

86. Caiff y SAC newydd wneud unrhyw beth (gan gynnwys dal a gwaredu eiddo, tir a buddiant mewn tir) i hwyluso cyflawni ei swyddogaethau (gan gynnwys ei swyddogaethau mewn perthynas â’r ACC newydd) ac ni fydd unrhyw swydd wag neu benodiad diffygiol yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir ganddi hi, ei haelodau neu unrhyw un o’i phwyllgorau neu is-bwyllgorau.

**Atodlen 1, paragraff 25: Dirprwyo Swyddogaethau**

87. Yn amodol ar rai cyfyngiadau, caiff y SAC newydd ddirprwyo ei swyddogaethau i unrhyw un o'i aelodau, ei gyflogeon neu'i bwyllgorau neu bersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r SAC newydd neu ar gyfer yr ACC newydd. Caiff pwyllgor o'r SAC newydd ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau (gan gynnwys y swyddogaethau a ddirprwywyd iddo) i is-bwyllgor. Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn effeithio ar gyfrifoldeb y SAC newydd am gyflawni'r swyddogaeth. Dyma swyddogaethau'r SAC newydd na chaniateir eu dirprwyo:

- amcangyfrif o'i hincwm a'i gwariant am bob blwyddyn ariannol;
- penodi person i arfer swyddogaethau ACC dros dro;
- llunio'r rheolau ar gyfer rheoleiddio ei gweithdrefnau;
- argymhelliad ar gyfer penodi ei harchwilydd;
- paratoi ei chynllun blynyddol;
- paratoi ei hadroddiad blynyddol ac interim.

**Atodlen 1, paragraff 26: Darparu Gwasanaethau**

88. Diben y paragraff hwn yw sicrhau y gall y SAC newydd brynu gwasanaethau y gallai fod arni eu hangen, a'r gwasanaethau archwilio ac ati arbenigol y gallai fod eu hangen ar ACC er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Mae'n galluogi'r SAC newydd i ddarparu gwasanaethau ac i dderbyn gwasanaethau gan awdurdod perthnasol, fel y'i diffinnir, a hefyd yn galluogi'r SAC newydd ac awdurdod perthnasol, archwilydd cymwysedig neu gorff cyfrifyddiaeth i wneud trefniadau i gydweithio a chynorthwyo ei gilydd (gan gynnwys gan yr ACC newydd ac ar ei gyfer). Caiff y SAC newydd wneud trefniadau o'r fath ar y telerau y cytunir arnynt gyda'r cyflenwyr, ond os yw'r SAC newydd yn codi ffi am ei wasanaethau neu wasanaethau'r ACC newydd, dim ond yn unol â'r cynllun codi ffioedd dan gymal 22 y gellir codi ffi.

| |
|---|
| **Cwestiwn 17:** Beth yw eich barn am y pwerau o dan Atodlen 1, paragraff 26 mewn perthynas â darparu gwasanaethau. A yw'r pwerau hyn yn ddigon eang? Beth arall ddylid ei ychwanegu? |

**Atodlen 1, paragraff 27: Cyfrifon SAC**

89. Bydd gan y PCC y pŵer i benodi'r ACC newydd neu berson arall i fod yn swyddog cyfrifyddu ar gyfer y SAC newydd. Rhaid i'r swyddog cyfrifyddu, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gadw cyfrifon a chofnodion priodol a pharatoi a llofnodi'r datganiad o gyfrifon y SAC newydd yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys. Caiff cyfarwyddiadau'r Trysorlys gynnwys cyfarwyddiadau i baratoi cyfrifon sy'n ymwneud â materion ariannol a thrafodion personau ar wahân i'r SAC newydd a bydd gan y person a benodir yn swyddog cyfrifyddu unrhyw swyddogaethau eraill y bydd y PCC yn penderfynu arnynt.

| |
|---|
| **Cwestiwn 18:** A ddylai fod yna ddyletswydd ar y PCC i benodi swyddog cyfrifyddu y SAC newydd? |

**Atodlen 1, paragraffau 28 a 29: Archwilio SAC**

90. Yn amodol ar gymeradwyaeth y PCC, y SAC newydd fydd yn penderfynu ar benodiad, telerau ac amodau archwilydd y SAC newydd. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau presennol, lle mai'r PCC yn unig sy'n gyfrifol am benodi archwilydd yr ACC presennol a'i swyddfa. Drwy osod y SAC newydd ar sail statudol, rhoi hunaniaeth gorfforaethol iddi, rhoi cyfrifoldebau sylweddol amrywiol iddi o ran rheoli ei materion ei hun, a'i gwneud yn atebol i'r PCC a'r Cynulliad, ystyrir bod y dull diwygiedig yn fwy priodol ar gyfer y cynigion yn y Bil hwn.

91. Rhaid i'r archwilydd fodloni gofynion cymhwysedd penodol a phan gaiff ei benodi bydd disgwyl iddo fodloni safonau ac egwyddorion darparwr gwasanaethau cyfrifyddu ac archwilio arbenigol. Rhaid i Gadeirydd y SAC newydd gyflwyno cyfrifon SAC i'r archwilydd yn ddim hwyrach na 5 mis wedi diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn ymdrin â hi. Unwaith y bydd wedi cwblhau'r archwiliad, rhaid i'r archwilydd ardystio'r cyfrifon a'u cyflwyno, ynghyd ag adroddiad yr archwilydd arnynt, i'r PCC a rhaid i'r PCC eu gosod gerbron y Cynulliad yn ddim hwyrach na 4 mis wedi i'r cofnodion gael eu cyflwyno. Bydd gan yr archwilydd y pŵer hefyd i gynnal astudiaethau o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr ACC newydd ac/neu y SAC newydd wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau ac i'r archwilydd adrodd ar ei ganfyddiadau i'r PCC. Rhaid i'r PCC yn ei dro osod unrhyw adroddiad ar ganlyniad astudiaethau'r archwilydd i werth am arian gerbron y Cynulliad.

| |
|---|
| **Cwestiwn 19:** A ddylai'r PCC gymeradwyo penodiad, telerau ac amodau archwilydd y SAC newydd? |

**Atodlen 1, paragraff 30: Tystiolaeth Ddogfennol**

92. Y SAC newydd, yn hytrach na'r ACC newydd, fydd â sêl gorfforaethol gan mai'r SAC newydd fydd yn cyflogi staff, yn dal eiddo ac yn sicrhau y darperir gwasanaethau er mwyn galluogi'r ACC newydd i arfer ei swyddogaethau. Bydd cymhwysiad y sêl, fel y gellir derbyn dogfennau mewn tystiolaeth, yn cael ei ddilysu gan aelod o'r SAC newydd neu un o gyflogeion y SAC newydd a awdurdodwyd i wneud hynny.

**Cymal 9: Effeithlonrwydd**

93. Bydd yna ddyletswydd ar y SAC newydd i anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Er nad oes yna ddull gorfodi ffurfiol, gallai achosion o fethiant sylweddol i gydymffurfio arwain at her drwy gyfrwng adolygiad barnwrol. Yn ogystal, byddai cyflawni'r ddyletswydd yn fater y gallai archwilydd y SAC newydd ei ystyried wrth astudio'r modd y defnyddiodd y SAC newydd ei adnoddau, a'i ystyried pan fo aelodau'r SAC newydd yn cael eu dal yn atebol gan y PCC ac/neu'r Cynulliad

**Cymal 10: Gwariant**

94. Ar hyn o bryd caiff y prosesau statudol ar gyfer pennu'r amcangyfrif o incwm a gwariant y SAC presennol, a phennu'r gyllideb honno, eu hamlinellu yn Neddf 2006.

O dan Reol Sefydlog 20 y Cynulliad, caiff yr amcangyfrif ei osod gerbron y Cynulliad (gydag addasiadau gan y PCC neu beidio), ei ystyried, ei gynnwys yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol, ac wedyn bydd y Cynulliad yn cytuno arno (neu beidio, yn ôl yr amgylchiadau). Ond o dan baragraff 9(3) a (4) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 caiff yr ACC presennol gadw ffioedd a enillwyd drwy arfer swyddogaethau sy’n gysylltiedig â llywodraeth leol yng Nghymru a defnyddio’r enillion heb fod angen ymdrin â hynny yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol.

95. Mae paragraffau 12(5) a (6) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 yn atal y PCC rhag ystyried neu ddiwygio’r rhan honno o amcangyfrif yr ACC presennol sy’n ymwneud ag incwm a gwariant mewn perthynas ag archwilio ac ati cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Cyflwynwyd y ddarpariaeth hon, ac o bosibl y ddarpariaeth ym mharagraff 9 (3) a (4) er mwyn creu a chynnal rhywfaint o raniad rhwng y Cynulliad newydd ar y pryd, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac awdurdodau lleol a etholir yn ddemocrataidd. Wedi hynny, pan ddaeth archwilio llywodraeth leol o fewn maes cyfrifoldeb cyffredinol yr ACC presennol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae’n bosibl bod yna bryder bod y Cynulliad, fel corff corfforaethol statudol, yn cynnwys y ‘ddeddfwrfa’ a’r ‘weithrediaeth’. Nid oedd yn cael ei hystyried yn briodol, felly, y gallai’r ‘weithrediaeth’ ystyried a diwygio amcangyfrif yr ACC presennol i’r graddau bod hynny’n berthnasol i’w swyddogaethau mewn perthynas â llywodraeth leol yng Nghymru.

96. Bwriad cymal 10 a chymalau 13 i 15 yw y bydd y cyfrifoldeb am geisio a dyrannu adnoddau sy’n galluogi’r ACC newydd i gyflawni ei swyddogaethau archwilio ac ati yn cael ei rannu rhwng yr ACC newydd a’r SAC newydd, gyda’r olaf yn ddeiliad y gyllideb at ddibenion ei swyddogaethau a rhai'r ACC newydd. Y bwriad wrth wneud y SAC newydd yn ddeiliad y gyllideb yw sicrhau nad ACC yn unig sy’n gyfrifol am faterion o’r fath, gan fynd i’r afael felly â rhai o’r gwendidau yn y strwythur rheoli a ddaeth i’r amlwg yn ystod cyfnod y cyn ACC yn y swydd, ac wedi hynny. Hefyd, yn sgil gwahanu’r ddeddfwrfa a’r weithrediaeth o dan Ddeddf 2006, bydd gan y PCC a’r Cynulliad y pŵer llawn i ystyried y cyfan o’r amcangyfrif o incwm a gwariant y SAC newydd gan gynnwys yr elfennau sy’n ymwneud â llywodraeth leol. Bydd darpariaethau Atodlen 8 i Ddeddf 2006 sy’n galluogi ACC i gadw’r incwm o ffioedd mewn perthynas â llawer o swyddogaethau llywodraeth leol ACC yn cael eu diddymu. Bydd gofyn ad-dalu’r holl incwm o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio pan fo’r Cynulliad wedi cytuno yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol y caiff y SAC newydd gadw’r incwm o ffioedd, a’i ddefnyddio at ddibenion penodedig.

97. Ar gyfer pob blwyddyn ariannol bydd Cadeirydd y SAC newydd a’r ACC newydd yn paratoi, ar y cyd, amcangyfrif o holl incwm a gwariant y SAC newydd a bydd yn rhaid i hwnnw gynnwys, yn arbennig, yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer swyddogaethau’r ACC newydd. Caiff y SAC newydd ei dynodi’n “berson perthnasol” at ddibenion adrannau 125 i 128 o Ddeddf 2006 (y symiau i’w talu o Gronfa Gyfunol Cymru gan gynnig cyllidebol y Cynulliad) yn hytrach nag ACC, fel sy’n berthnasol ar hyn o bryd.

98. Mae Cymal 10 yn darparu bod yn rhaid i Gadeirydd y SAC newydd a’r ACC newydd gyflwyno amcangyfrif ar y cyd ar gyfer pob blwyddyn ariannol i’r PCC o leiaf 5 mis cyn dechrau’r flwyddyn ariannol berthnasol. Bydd y PCC yn adolygu’r amcangyfrif ac yn ei osod gerbron y Cynulliad ynghyd ag unrhyw addasiadau y

mae'r PCC yn eu hystyried yn briodol. Cyn gosod amcangyfrif gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, bydd yn rhaid i'r PCC ymgynghori â Chadeirydd y SAC newydd a'r ACC newydd ac ystyried unrhyw sylwadau ganddynt. Bydd yr amcangyfrif (wedi'i ddiwygio neu beidio) wedyn yn rhan o'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20 o Reolau Sefydlog y Cynulliad.

| |
|---|
| **Cwestiwn 20:** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r PCC ystyried yr amcangyfrif ac y dylai fod yn rhan o'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol? |

**Cymal 11: Benthyca**

99. Bydd gan y SAC newydd, yn hytrach na'r ACC newydd, y pŵer i fenthyca arian mewn sterling, drwy gyfrwng gorddrafft neu fel arall, er mwyn cwrdd â gorwariant dros dro o gymharu â'r symiau sydd ar gael i gwrdd â'r gwariant hwnnw. Ni fydd gan ACC y pŵer i fenthyca arian.

**Cymal 12: Cynllun blynyddol**

100. Mae'r cymal hwn yn cynnig bod yn rhaid i'r SAC newydd a'r ACC newydd, cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, gytuno ar gynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd y cynllun blynyddol yn amlinellu rhaglenni gwaith yr ACC newydd a'r SAC newydd ar gyfer y flwyddyn, y gyllideb fydd ar gael neu y disgwylir iddi fod ar gael i'r SAC newydd yn ystod y flwyddyn a sut y caiff yr adnoddau hynny eu defnyddio er mwyn ymgymryd â'u rhaglenni gwaith. Rhaid i'r Cynllun Blynyddol hefyd nodi uchafswm yr adnoddau y disgwylir y bydd y SAC newydd yn eu dyrannu i'r ACC newydd er mwyn ymgymryd â rhaglen waith yr ACC newydd. Mae'r cymal hefyd yn diffinio ystyron rhaglenni gwaith yr ACC newydd a'r SAC newydd.

101. Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn dymuno ymyrryd mewn unrhyw fodd ag annibyniaeth yr ACC newydd, o ran ei ddisgresiwn llwyr i arfer ei swyddogaethau, ni fydd gan y Cynulliad na'r PCC rôl o ran cymeradwyo'r cynllun blynyddol, ac mae yna weithdrefn benodol (gweler isod) ar gyfer nodi yn y cynllun blynyddol uchafswm yr adnoddau y disgwylir y byddant ar gael i'r ACC newydd. Ond bydd gan y PCC rôl o ran ystyried ac, os gwêl yn dda, addasu, amcangyfrif ariannol blynyddol y SAC newydd a'r ACC newydd, a bydd gofyn cymeradwyo cyllideb gyfan y SAC newydd yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol. Bydd cyfanswm y gyllideb a gymeradwyir gan y Cynulliad ar gyfer y SAC newydd yn sail i'r rhaglenni gwaith a amlinellir yn y cynllun blynyddol.

| |
|---|
| **Cwestiwn 21:** Beth yw eich barn am y ffaith y byddai gan y PCC y pŵer i graffu ar y cynllun blynyddol ac /neu ei gymeradwyo gyda diwygiadau neu heb ei ddiwygio? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 22:** Beth yw eich barn ynghylch rhoi'r grym i'r PCC i osod y cynllun blynyddol gerbron y Cynulliad, ac y gallai'r Cynulliad ei gymeradwyo gyda diwygiadau neu heb ei ddiwygio? |

**Cymal 13: Cynllun blynyddol: adnoddau i'w dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol**

102. Mae'r cymal hwn yn amlinellu'r weithdrefn i'r ACC newydd a'r SAC newydd gytuno, yn y cynllun blynyddol, ar uchafswm yr adnoddau y rhagwelir sydd i'w

dyrannu i'r ACC newydd. Mae'r weithdrefn hon wedi'i chynllunio er mwyn parchu annibyniaeth yr ACC newydd gymaint ag sy'n ymarferol bosibl o fewn y system newydd ar gyfer dyrannu adnoddau. Rhaid i'r ACC newydd gyflwyno datganiad i'r SAC newydd yn amlinellu

- ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn;
- ei amcangyfrif o'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r gwaith hwnnw;
- uchafswm yr adnoddau y mae'r ACC newydd yn ei ragweld sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r gwaith.

103. Caiff y SAC newydd naill ai gytuno â datganiad yr ACC newydd ac ymgorffori ei gynnwys yn y cynllun blynyddol neu wrthod y datganiad neu unrhyw ran ohono. Dim ond os yw'r datganiad, neu unrhyw ran ohono, yn afresymol y caiff y SAC newydd ei wrthod, ac mewn achosion o'r fath bydd y SAC newydd yn gofyn i'r ACC newydd gyflwyno datganiad diwygiedig. Bwriedir i'r prawf rhesymoldeb fod yn brawf gwrthrychol.

| |
|---|
| **Cwestiwn 23:** Beth yw eich barn am y dull sy'n cael ei gynnig i'r SAC newydd benderfynu ar uchafswm yr adnoddau a ragwelir i'w dyrannu i'r ACC newydd? |

**Cymal 14: Cynllun blynyddol: Gweithdrefn y Cynulliad**

104. Mae'r cymal hwn yn darparu y bydd yn rhaid i'r ACC newydd a Chadeirydd y SAC newydd gyflwyno'r cynllun i'r PCC a'i osod gerbron y Cynulliad. Bydd yn rhaid i'r PCC gyhoeddi'r cynllun blynyddol.

**Cymal 15: Cynllun Blynyddol: Effaith**

105. Ni fydd y SAC newydd na'r ACC newydd yn cael eu rhwymo gan y cynllun blynyddol, ond bydd dyletswydd arnynt i roi sylw dyledus iddo wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys darparu adnoddau i'r SAC newydd o dan gymal 16, ond nid yn gyfyngedig i hynny.

106. Caiff y cynllun blynyddol ei bennu cyn dechrau'r flwyddyn ariannol a'r bwriad yw na fydd yn cael ei ddiwygio. Rhoddir adroddiadau yn erbyn y cynllun blynyddol fel y'i pennwyd gan ddangos unrhyw wyro oddi wrth y cynllun (os yw hynny'n berthnasol). Byddai rhwymo'r SAC newydd a'r ACC newydd i'r cynllun yn eu caethiwo'n ormodol felly ond rhaid iddynt, ym mhopeth a wnânt, roi sylw dyledus i'w cynllun gwaith blynyddol gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol. Ystyr sylw dyledus yw bod yn rhaid iddynt roi ystyriaeth briodol i'r cynllun blynyddol dan bob amgylchiad. O ganlyniad, os na fydd unrhyw beth yn newid y disgwyliad fydd y bydd y cynllun yn cael ei ddilyn. Os bydd mater brys yn codi na chafodd ei ragweld pan grëwyd y cynllun blynyddol rhaid i'r SAC newydd a'r ACC newydd roi sylw dyledus i'r rhaglenni gwaith yn y cynllun blynyddol a'r adnoddau a ddyrannwyd ar ei gyfer, wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth y cynllun blynyddol er mwyn ymdrin â'r mater brys sydd wedi codi.

**Cymal 16: Darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol**

107. Mae'r cymal hwn yn cynnig y bydd y SAC newydd, fel deiliad y gyllideb, yn gyfrifol am ddarparu adnoddau i'r ACC newydd fel y gall arfer ei swyddogaethau, yn benodol, cyflogi staff i gynorthwyo'r ACC newydd; caffael gwasanaethau gan unrhyw berson (ee, archwilio allanol neu wasanaethau treth); dal eiddo neu ddogfennau neu ddata arall; a chadw cofnodion er mwyn cynorthwyo'r ACC newydd i gyflawni ei swyddogaethau.

108. Caiff adnoddau eu rhyddhau i'r ACC newydd, ar ei gais, cyn belled â bod yr hyn a wneir a'i gost yn cael eu nodi. Dim ond os yw cais yn afresymol y caiff y SAC newydd wrthod cais ac, o dan gymal 15, rhaid i'r ddau barti dalu sylw dyledus i uchafswm yr adnoddau y rhagwelir fydd ar gael (ar gyfer swyddogaethau'r ACC newydd) fel y'i nodir yn y cynllun blynyddol. Bwriedir i'r prawf rhesymoldeb fod yn brawf gwrthrychol.

| |
|---|
| **Cwestiwn 24:** Ydych chi'n ystyried bod y dull o ryddhau adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r ACC newydd yn briodol? |

**Cymal 17 ac Atodlen 2: Y Berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol**

109. Mae cymal 17 (1) yn darparu y bydd yr ACC newydd yn brif weithredwr ar y SAC newydd ond nid yn gyflogai iddi. Nid oes yna unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Bil sy'n rhoi unrhyw bwerau neu ddyletswyddau atodol i'r prif weithredwr, ar wahân i fod yn aelod o'r SAC newydd, ond mae'n bosibl y gellid rhoi rolau penodol iddo o fewn gweithdrefnau neu ddirprwyaethau'r SAC newydd.

**Atodlen 2, paragraff 1: SAC i fonitro a darparu cyngor**

110. Elfen arall o'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd newydd ar gyfer yr ACC newydd yw sicrhau bod y SAC newydd nid yn unig yn dal y gyllideb ac yn darparu'r adnoddau ar gyfer yr ACC newydd ond ei bod hefyd yn monitro ac yn cynghori'r ACC newydd. I'r perwyl hwnnw bydd y paragraff hwn: yn gosod dyletswydd ar y SAC newydd, fel y mae'n ei hystyried yn briodol, i fonitro arfer swyddogaethau'r ACC newydd; yn grymuso'r SAC newydd i gynghori'r ACC newydd ar ei swyddogaethau; ac yn gosod dyletswydd ar yr ACC newydd i ystyried unrhyw gyngor o'r fath.

| |
|---|
| **Cwestiwn 25:** Beth yw eich barn am y ffaith y byddai'r SAC newydd yn monitro ac yn cynghori'r ACC newydd? |

**Atodlen 2, paragraff 2: Dirprwyo swyddogaethau ACC i SAC**

111. Mae'r paragraff hwn yn debyg i baragraff 8 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 gyda rhai addasiadau. Bydd y ddarpariaeth yn galluogi unrhyw gyflogai neu berson sy'n darparu gwasanaethau i'r SAC newydd (gan gynnwys y rheini sy'n darparu gwasanaethau i'r ACC newydd) i arfer unrhyw un o swyddogaethau'r ACC newydd, cyn belled â bod y cyflogai neu'r person wedi'i awdurdodi i wneud hynny mewn cynllun dirprwyo a ddarparwyd gan yr ACC newydd.

112. Dim ond os yw'r SAC newydd wedi'i gymeradwyo y gellir gwneud unrhyw gynllun dirprwyo, a dim ond wedyn y bydd yn effeithiol.

113. Caniateir i unrhyw swyddogaeth gan yr ACC newydd gael ei harfer ar y cyd â chyflogai neu berson (sy'n darparu gwasanaethau i SAC) a awdurdodwyd o dan gynllun ond nid yw unrhyw ddirprwyaeth yn rhwystro'r ACC newydd rhag gwneud unrhyw beth yn bersonol, ac nid yw ychwaith yn effeithio ar gyfrifoldeb yr ACC newydd y mae'r swyddogaeth yn cael ei harfer ar ei ran.

| |
|---|
| **Cwestiwn 26:** A ddylai'r SAC newydd gymeradwyo cynllun dirprwyo yr ACC newydd? |

**Atodlen 2, paragraff 3: Adroddiadau**

114. Un o'r dulliau o wneud y SAC newydd a'r ACC newydd yn fwy atebol i'r Cynulliad, ac yn fwy tryloyw, yw drwy graffu ar eu gweithredoedd yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cymalau 12 i 15 yn amlinellu'r trefniadau o ran cynllun blynyddol yr ACC newydd a'r SAC newydd. Yn sgil hynny, bwriad paragraff 3 o Atodlen 2 yw i'r PCC a'r Cynulliad dderbyn yr adroddiadau hyn, ac i'r PCC eu hystyried ac adrodd yn gyhoeddus arnynt ac, o ganlyniad, ar y modd y mae'r ACC newydd a'r SAC newydd yn arfer eu swyddogaethau, yn rheolaidd.

115. Bydd yn rhaid i Gadeirydd y SAC newydd a'r ACC newydd, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, baratoi adroddiad ar y cyd ynghylch arfer swyddogaethau'r SAC newydd a'r ACC newydd yn ystod y flwyddyn honno. Y bwriad yw y bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y graddau y cydymffurfiwyd â'r cynllun blynyddol yn ystod y flwyddyn, neu i ba raddau y gwyrwyd oddi wrtho, ynghyd â'r defnydd o adnoddau. Caiff yr adroddiad hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae Cadeirydd y SAC newydd a'r ACC newydd yn eu hystyried yn briodol.

116. Bydd yn rhaid i Gadeirydd y SAC newydd a'r ACC newydd gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar y cyd i'r PCC, a fydd yn ei gyhoeddi, a rhaid i'r SAC newydd a'r ACC newydd ei osod gerbron y Cynulliad.

117. Yn ogystal, bydd yn rhaid i Gadeirydd y SAC newydd a'r ACC newydd gyflwyno adroddiadau 'interim' ar y cyd i'r PCC. Bydd yr adroddiadau hyn yn ymdrin â'r un materion ag a amlinellir ym mharagraff 115 uchod ar wahân i'r ffaith y byddant yn ymdrin â'r cynnydd a wnaed hyd yma o gymharu â'r cynllun blynyddol (ac unrhyw wyro oddi wrtho os yw hynny'n berthnasol). Ni fydd yna ddyletswydd ar y PAC i gyhoeddi'r adroddiadau interim ond bydd yn rhaid i'r SAC newydd a'r ACC newydd osod adroddiadau interim gerbron y Cynulliad.

118. Caiff yr adroddiadau interim eu cyflwyno i'r PCC ddwywaith yn ystod pob blwyddyn ariannol. Mater i'r PCC fydd penderfynu, o bryd i'w gilydd, erbyn pryd y caiff adroddiadau o'r fath eu cyflwyno iddo.

119. Bydd y PCC yn ystyried pob adroddiad blynyddol ac interim a dderbynnir ganddo mewn sesiwn gyhoeddus a rhaid iddo, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol

bosibl yn dilyn derbyn adroddiad o’r fath, osod adroddiad gerbron y Cynulliad yn amlinellu canfyddiadau’r PCC mewn perthynas ag ef.

| |
|---|
| **Cwestiwn 27:** Beth yw eich barn am y syniad o’i gwneud yn ofynnol i’r ACC newydd a’r SAC newydd baratoi adroddiadau interim ac adroddiadau blynyddol? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 28:** Beth yw eich barn ynghylch y ffaith y bydd gan y PCC rôl graffu mewn perthynas â’r adroddiadau hyn? |

**Atodlen 2, paragraff 4: Dogfennau a gwybodaeth**

120. Bydd y paragraff hwn yn darparu y caniateir i unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae’n rhaid i berson ei ddarparu i’r ACC newydd, neu y caniateir ei ddarparu iddo, ei ddarparu i’r SAC newydd hefyd. Y bwriad yma yw hwyluso’r cyfrifoldeb a roddir ar y SAC newydd i dderbyn a dal dogfennau a gwybodaeth ar gyfer yr ACC newydd ac i gynnal cofnodion. Bydd y paragraff hefyd yn darparu bod y SAC newydd yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

**Cymal 17 a Rhan 2 o Atodlen 2, paragraffau 5 i 14: Person arall, dros dro, yn arfer swyddogaethau ACC**

121. Ar hyn o bryd, os yw swydd yr ACC presennol yn wag, neu os yw’r person hwnnw’n anfodlon arfer swyddogaethau ACC, neu’n methu â gwneud hynny, nid oes yna ddarpariaeth i benodi person dros dro er mwyn arfer swyddogaethau ACC. Yn lle hynny, dibynnwyd yn y gorffennol ar yr ACC presennol i fod wedi awdurdodi, o dan baragraff 8 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, aelod o’i staff i arfer swyddogaethau ACC. Ystyrir nad yw hynny’n sefyllfa dderbyniol, felly mae’r cymal hwn a Rhan 2 o Atodlen 2 yn pennu’r amgylchiadau penodol lle caiff y SAC newydd, gyda chydsyniad datganedig Cadeirydd y PCC, ddynodi un o gyflogeion SAC i arfer swyddogaethau ACC dros dro. Dyma’r amgylchiadau hynny:

- bod swydd yr ACC presennol yn wag;
- nad yw’r ACC a benodwyd yn fodlon arfer swyddogaethau’r swydd;
- bod SAC a Chadeirydd y PCC yn ystyried bod yr ACC a benodwyd yn methu â chyflawni swyddogaethau’r swydd.

122. Caiff dynodiad ar gyfer amgylchiadau o’r fath barhau am gyfnod o hyd at 6 mis a chyda cytundeb SAC a Chadeirydd y PCC gellid ymestyn y dynodiad am gyfnod o hyd at 6 mis arall. Pan gaiff person ei ddynodi neu pan gaiff dynodiad ei ymestyn, bydd yn rhaid i Gadeirydd SAC, ym mhob achos, osod datganiad gerbron y Cynulliad yn nodi’r rhesymau dros roi’r dynodiad, pwy yw’r person a ddynodwyd, y cyfnod y mae’r person hwnnw wedi’i ddynodi felly a bod Cadeirydd y PCC wedi cytuno i’r dynodiad.

| |
|---|
| **Cwestiwn 29:** Ydych chi’n cytuno â’r trefniadau sy’n cael eu cynnig ar gyfer dynodi person i arfer swyddogaethau ACC dros dro? |

**Cymalau 18 i 22 – Ffioedd**

**Cymal 18: Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd**

123. Bydd swyddogaethau'r ACC presennol o ran codi ffioedd mewn perthynas ag archwilio ac astudiaethau gwerth am arian ac ati yn cael eu trosglwyddo i'r SAC newydd gan mai'r SAC newydd fydd deiliad y gyllideb. Bydd yna ddiwygiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth gyfredol er mwyn adlewyrchu hynny.

124. Mae cymal 18 ynghyd â chymalau 19 i 22 yn gwneud darpariaeth ynghylch ffioedd.

125. Os oes gan yr ACC presennol y pŵer i godi ffi fe wneir darpariaeth fel mai'r SAC newydd fydd â'r pŵer i godi ffi. Os oes dyletswydd ar yr ACC presennol i godi ffi fe wneir darpariaeth fel bod dyletswydd ar y SAC newydd i godi ffi. Fodd bynnag gall y SAC newydd, ym mhob achos, godi ffi hyd at gost lawn y gwasanaeth, ond nad yw'n fwy na'r gost honno.

126. Dim ond yn unol â'r cynllun y darperir ar ei gyfer yng nghymal 22 y caiff ffioedd eu codi.

**Cymal 19: Ffioedd a godir ar gyrff llywodraeth leol**

127. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r SAC newydd i wneud darpariaeth mewn perthynas â graddfeydd y ffioedd y mae'n rhaid eu talu mewn perthynas ag archwilio ac ati cyrff llywodraeth leol, ac i'r ffioedd a godir fod yn fwy neu'n llai na'r ffioedd rhagnodedig os yw'r gwaith yn fwy neu'n llai nag a ragwelwyd. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar y SAC newydd i godi ffi am wasanaethau'r ACC newydd o dan gymal 73.

| |
|---|
| **Cwestiwn 30:** A ddylid rhoi dyletswydd ar y SAC newydd, neu roi'r pŵer iddo, i godi ffi mewn perthynas ag unrhyw archwiliad, astudiaeth ac ati gan yr ACC newydd mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol yng Nghymru? |

**Cymal 20: Ffioedd am baru data**

128. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r SAC newydd i wneud darpariaeth ynghylch graddfeydd ffioedd ar gyfer ymarferion paru data, a chodi ffioedd sy'n fwy neu'n llai na'r ffioedd rhagnodedig os yw'r gwaith yn fwy neu'n llai nag a ragwelwyd.

**Cymal 21: Pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd**

129. Mae'r cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd yn lle'r rheini a ragnodir gan SAC o dan gymal 19 neu gymal 20.

**Cymal 22: Cynllun ar gyfer codi ffioedd**

130. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno newid pwysig o ran ffioedd. Fel y nodwyd, dim ond yn unol â'i gynllun ffioedd y caiff y SAC newydd godi ffioedd, a rhaid i'r PCC ei gymeradwyo cyn y gellir ei wneud.

## Rhan 2 – Archwilio Cyhoeddus a Swyddogaethau Gwerth am Arian

### Pennod 1: Arfer Swyddogaethau

### Cymal 23: Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer

131. Mae'r cymal hwn yn sicrhau bod yr ACC newydd yn parhau i fod yn annibynnol. Mae'n darparu y bydd gan yr ACC newydd ddisgresiwn llwyr wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ac na fydd yn destun cyfarwyddyd neu reolaeth y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru. Mae'r disgresiwn hwn yn amodol ar; fod yr ACC newydd yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn gost-effeithiol; bod yr ACC newydd yn rhoi ystyriaeth i arferion cyfrifyddiaeth ac archwilio proffesiynol arbenigol; bod yr ACC newydd yn ystyried barn y PCC; a'r gofyniad bod yr ACC newydd yn rhoi sylw dyladwy i'r cyngor a roddir gan y SAC newydd a'r cynllun blynyddol.

**Cwestiwn 31:** Nodwch unrhyw faterion eraill yr ydych chi'n credu y dylid eu cynnwys yn y rhestr o eithriadau yng nghymal 23(2)?

### Cymal 24: Pwerau atodol

132. Caiff yr ACC newydd bŵer eang i wneud pethau sy'n hwyluso cyflawni ei swyddogaethau.

133. Fel y mae wedi'i ddrafftio, fodd bynnag, nid oes yna gyfeiriad at allu'r ACC newydd i ddal eiddo (gan y bydd tir ac ati yn cael ei ddal gan y SAC newydd).

### Cymal 25: Pwerau eraill

134. Mae cymal 25(1) i (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, lle mae ganddynt yr hawl i benodi archwilydd ar gyfer cyfrifon unrhyw berson (ar wahân i'r ACC newydd), i benodi'r ACC newydd i fod yn archwilydd hyd yn oed pe bai'r ACC yn anghymwys fel arall i fod yn archwilydd. Cyn gwneud hynny rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r SAC newydd, a chânt wneud unrhyw benodiad am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol. Mae yna ddarpariaeth hefyd sy'n golygu y caiff Gweinidogion Cymru neu un o Weinidogion y Goron ddod i gytundeb gydag unrhyw berson fel y caiff yr ACC newydd archwilio cyfrifon y person hwnnw neu gynnal astudiaethau gwerth am arian (a gwneud argymhellion) i'r modd y mae'r person hwnnw wedi defnyddio adnoddau ac arfer ei swyddogaethau. Rhaid ymgynghori â'r SAC newydd cyn ymrwymo i drefniant o'r fath.

135. Mae'r cymal hefyd yn amlinellu pŵer lle caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol (archwilydd Senedd y DU) i'r ACC newydd mewn achosion lle bo gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 58 o Ddeddf 2006 yn trosglwyddo'r swyddogaethau o baratoi cyfrifon i Weinidogion Cymru. Hefyd, lle bo'r Trysorlys yn dynodi Gweinidogion Cymru at ddibenion y cyfrifon llywodraeth gyfan, i'r ACC fod yn archwilydd i'r perwyl hwnnw.

**Cymal 26: Trosglwyddo etc swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol**

136. Mae'r cymal hwn yn amlinellu'r trefniadau lle caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrff cyhoeddus y mae a wnelo eu swyddogaethau â Chymru'n unig (neu ag ardal ohoni) i'r ACC newydd. Caiff gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 58 o Ddeddf 2006 wneud darpariaeth o'r fath hefyd.

**Cymal 27: Trosglwyddo etc swyddogaethau Gweinidogion Cymru**

137. Mae'r cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad yr ACC newydd, i drosglwyddo unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau goruchwylio mewn perthynas â chorff cyhoeddus neu landlord cymdeithasol cofrestredig i'r ACC newydd, neu caiff ddarparu iddynt gael eu harfer gan yr ACC newydd ar ran Gweinidogion Cymru. Cyn rhoi unrhyw gydsyniad mae'n rhaid i'r ACC ymgynghori â'r SAC newydd. Caiff "swyddogaethau goruchwylio" eu diffinio yn adran (3), ac mae'n rhaid gosod unrhyw adroddiad arnynt a baratowyd gan yr ACC newydd gerbron y Cynulliad.

**Pennod 2 – Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol a Chyrff Cyhoeddus Cymreig eraill**

138. Bwriad Pennod 2, cymalau 28 i 48 yw dod â'r darpariaethau sy'n ymwneud ag archwiliadau cyfrifon ac astudiaethau gwerth am arian yr ACC newydd at ei gilydd mewn un lle mewn perthynas â'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru (ac eithrio llywodraeth leol yr ymdrinnir â hi ar wahân ym Mhennod 3 o Ran 2). Yn ogystal â'r cydgrynhoi hwnnw, bwriedir i'r cymalau hefyd symleiddio, egluro ac/neu addasu'r ddarpariaeth gyfredol sy'n berthnasol i swyddogaethau archwilio ariannol a gwerth am arian ac ati yr ACC presennol. Y sail ar gyfer y swyddogaethau hyn i raddau helaeth yw adrannau 131 i 142 o Ddeddf 2006 ac adrannau 144 i146A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Deddf 1998) ac Atodlen 17 iddi. Bwriedir diddymu'r darpariaethau hynny a'u hailddatgan neu roi trefn newydd yn eu lle drwy'r darpariaethau yng nghymalau 28 i 48. Caiff hyn ei wneud am dri rheswm.

139. Y rheswm cyntaf yw nad yw Atodlen 17 wedi ei diweddaru'n rheolaidd a'i bod eisoes wedi dyddio; mewn nifer o achosion mae darpariaethau cyfrifon ac archwilio ac ati wedi'u creu mewn deddfiadau ar wahân sy'n sefydlu cyrff sy'n dod o fewn cylch gwaith yr ACC presennol. Yn ail, mae'r darpariaethau cyfredol yn seiliedig ar bŵer eang i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch cyfrifon ac archwilio, ond y bwriad yn awr yw cael un ddarpariaeth safonol sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o'r archwiliadau a'r astudiaethau gwerth am arian y bydd yr ACC newydd yn eu cynnal. Yn drydydd, nid yw adran 144 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 17 iddi yn glir o ran eu gweithrediad am y rhesymau canlynol:

- Mae Rhan 1 o Atodlen 17 yn cyfeirio at gyrff sy'n destun archwilio ac ati ("audit etc.") yn gyffredinol ("generally") ond nid oes yna eglurhad clir o ystyr "generally" yn y cyd-destun hwn;
- Mae Rhan 2 o Atodlen 17 yn cyfeirio at gyrff sy'n destun archwilio at ati ("audit etc.") yn rhannol ("partially"). Unwaith eto, nid yw hyn yn glir;

- Mae Rhan 3 o Atodlen 17 yn cyfeirio at archwiliadau mewn perthynas â defnyddio adnoddau ac er ei bod yn amlwg bod adran 145 o Ddeddf 1998 yn rhagweld hynny, nid oes yna ddarpariaeth glir yn adran 144 sy'n galluogi gwneud darpariaeth ynghylch astudiaethau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Ymhellach, nid yw'n glir a yw archwiliad o'r fath yn gyfyngedig i ddadansoddiad o'r 'cyfrifon' neu a yw hi'n ofynnol i'r ACC presennol edrych ar y cyfrifon a materion eraill er mwyn ffurfio barn ynghylch gwerth am arian.

140. Y bwriad, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, yw cyflwyno darpariaeth archwilio newydd a darpariaeth gwerth am arian newydd a fydd yn pennu ym mhob achos y gofynion sy'n gysylltiedig ag archwilio ariannol ac astudiaethau gwerth am arian, yn y drefn honno, ac a fydd yn gymwys pan fo person neu gorff o fewn cylch gwaith yr ACC newydd (ac eithrio cyrff llywodraeth leol yr ymdrinnir â hwy ar wahân ym Mhennod 3). Yn ogystal, bydd gofyn sicrhau, wrth i'r sefyllfa newid yn y dyfodol, y gellir ychwanegu personau, cyrff neu swyddi at y drefn newydd, neu eu tynnu ohoni, ac y gellir ei ddiwygio os yw'r disgrifiad yn newid. Ystyrir mai'r ffordd orau o gyflawni hynny yw trwy gael rhestr o'r rhai sy'n destun y darpariaethau archwiliad unigol a gwerth am arian unigol.

141. Byddai'r darpariaethau symlach sy'n cael eu cynnig ar gyfer archwilio ariannol ac astudiaethau gwerth am arian yn creu cysondeb sylweddol o ran y gofynion a osodir ar yr holl gyrff sydd o fewn cylch gwaith yr ACC newydd, yn ogystal â'r materion y bydd yn rhaid i'r ACC newydd eu hystyried a chael ei fodloni yn eu chylch. Y pwerau a'r dyletswyddau diwygiedig fyddai'r prif ddull o ddwyn unrhyw gyrff newydd o fewn cylch gwaith yr ACC newydd, a byddai hynny'n osgoi sefyllfa lle byddai unrhyw ddarpariaethau archwilio ariannol ac astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol yn cael eu gwasgaru ar draws gwahanol ddeddfwriaeth.

142. Bwriedir mai'r strwythur newydd a'r pŵer yng nghymal 46 i ychwanegu neu hepgor person, neu addasu'r disgrifiad o berson, sy'n destun yr archwiliad unigol ac, o ganlyniad, y drefn gwerth am arian unigol, fydd y prif ddull lle caiff unrhyw bersonau, cyrff neu swyddi newydd eu dwyn o fewn cylch gwaith ACC, gan osgoi sefyllfa lle byddai darpariaethau archwilio ariannol a gwerth am arian yn y dyfodol yn cael eu gwasgaru ar draws gwahanol ddeddfwriaeth.

| |
|---|
| **Cwestiwn 32:** Ydych chi'n cytuno, mewn egwyddor, â symleiddio'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau archwilio ariannol a gwerth am arian ACC? |

**Cymalau 28 i 36: Archwilio cyfrifon a darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud ag archwilio cyrff o dan y Bennod hon**.

**Cymal 28: Gweinidogion Cymru**

143. Mae'r cymal hwn yn cynnig y gofynion cyfrifo a'r gofynion cysylltiedig a osodir ar Weinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys. Rhaid i Weinidogion Cymru:

- gadw cyfrifon a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy;

- paratoi datganiad o gyfrifon.

144. Rhaid cyflwyno'r datganiad o gyfrifon i'r ACC newydd yn ddim hwyrach na 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol berthnasol a rhaid iddynt gynnwys manylion trafodion a materion ariannol y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Weinidog.

**Cymal 29: Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol**

145. Mae'r cymal hwn yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a'r gofynion cysylltiedig a osodir ar Gomisiwn y Cynulliad yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys ac erbyn pryd, am bob blwyddyn, y bydd yn rhaid cyflwyno datganiad o gyfrifon y Comisiwn i'r ACC newydd.

**Cymal 30: Cyrff cyhoeddus Cymreig eraill**

146. Mae'r cymal hwn yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth archwilio ariannol unigol arfaethedig. Nodir elfennau allweddol eraill y drefn hon yng nghymalau 37, 38 a 39. Mae'n amlinellu'r gofynion archwilio a'r gofynion cysylltiedig a osodir ar gorff cyhoeddus Cymreig (gweler Tabl 1) yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir iddo gan yr awdurdod cyfarwyddo. Yr awdurdod cyfarwyddo yw'r Trysorlys, Gweinidogion Cymru neu Weinidogion Cymru gyda chydsyniad y Trysorlys fel y bo'n berthnasol. Rhaid cyflwyno datganiad o gyfrifon y corff ar gyfer pob blwyddyn ariannol i'r ACC newydd yn ddim hwyrach na dyddiad y cofnod cyfatebol ar gyfer y corff hwnnw yng ngholofn 3 o Dabl 1 a, lle bo hynny'n berthnasol, i Weinidogion Cymru erbyn yr un dyddiad.

| |
|---|
| **Cwestiwn 33**: Beth yw eich barn ynghylch y cynigion yng nghymalau 28 i 30? |

**Cymal 31: Cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio o dan gymal 30: Cyfyngu**

147. Bydd y cymal hwn yn darparu ar gyfer cyfyngiadau i ddarpariaethau cymal 30 o ran ymddiriedolaethau elusennol neu anelusennol (lle bo corff GIG Cymru yn ymddiriedolwr) a'r Comisiynwyr Coedwigaeth.

**Cymal 32: Archwilio cyfrifon cryno cyrff GIG Cymru**

148. Yn gyffredinol, mae'r cymal hwn yn atgynhyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ar gyfrifon cryno GIG Cymru, ond mae'n gwneud hynny o fewn cyd-destun y drefn symlach ar gyfer archwilio ac ati sy'n cael ei chynnig yn y Bil. Bydd cymalau 38 a 39, felly, yn berthnasol i'r cyfrifon hyn fel y maent berthnasol mewn achosion eraill (ee, y cyrff cyhoeddus a restrir yn Nhabl 1).

**Cymal 33: Archwilio cyfrifon swyddogion cyrff GIG Cymru**

149. Yn gyffredinol, mae'r cymal hwn yn atgynhyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol i'r perwyl hwn, ond mae'n gwneud hynny o fewn cyd-destun y drefn symlach ar gyfer archwilio ac ati sy'n cael ei chynnig yn y Bil. Bydd cymalau 37, 38 a 39, felly, yn

berthnasol i'r cyfrifon hyn fel y maent berthnasol mewn achosion eraill (ee, y cyrff cyhoeddus a restrir yn Nhabl 1).

**Cymal 34: Archwilio corfforaethau addysg bellach ac uwch**

150. Mae'r cymal hwn yn dwyn y gofynion cadw cyfrifon ac archwilio mewn perthynas â'r corfforaethau addysg uwch yng Nghymru (CAUau) a'r corfforaethau addysg bellach yng Nghymru (CABau) yn agosach at y darpariaethau symlach a amlinellir yn y Bil. Ni fydd yn rhaid i CAU na CAB, fodd bynnag, gyflwyno ei datganiad o gyfrifon i'r ACC newydd at ddibenion archwilio, ond gallant ddewis gwneud hynny. Os yw CAU neu CAB yn penderfynu peidio defnyddio'r ACC newydd, rhaid iddi ymgynghori ag ef ac ystyried ei farn cyn penodi person cymwys i fod yn archwilydd iddi.

151. Ar gais Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), caiff yr ACC newydd ei gynghori ynghylch unrhyw gyfarwyddiadau y mae HEFCW yn dymuno eu rhoi i CAU.

152. Bydd cymalau 37 a 38 hefyd yn berthnasol i CAUau a CABau a bydd cymal 39 hefyd yn berthnasol os bydd unrhyw CAU neu CAB yn dewis yr ACC newydd i fod yn archwilydd ar ei chyfer mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

**Cymal 35: Archwilio corfforaethau addysg bellach ac uwch: pwerau ACC**

153. Bydd y cymal hwn yn galluogi ACC, ar gais CAB neu CAU, i gynghori ynghylch penodi ei archwilydd, neu archwilio cyfrifon blynyddol y gorfforaeth.

| |
|---|
| **Cwestiwn 34:** Ai'r ACC newydd ddylai fod yn archwilydd statudol ar gyfer Corfforaethau Addysg Uwch ac/neu Gorfforaethau Addysg Bellach? |

**Cymal 36: Ystyr corfforaethau addysg bellach ac addysg uwch**

154. Mae'r cymal hwn yn diffinio ystyr CAB a CAU a'r cyfeiriadau cysylltiedig at y Deddfau Addysg.

**Cymal 37: Cynnwys cyfrifon a datganiad o gyfrifon**

155. Bydd y cymal hwn yn darparu un gofyniad a fydd yn gymwys i gyfrifon a datganiad o gyfrifon Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad, cyrff cyhoeddus Cymreig eraill, CABau, CAUau a swyddogion cyrff y GIG fel eu bod yn rhoi cyfrif gwir a theg o ble mae'r cyrff arni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'u hincwm a'u gwariant yn y flwyddyn ariannol.

**Cymal 38: Cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â chyfrifon a datganiad o gyfrifon**

156. Mae'r cymal hwn yn cynnig grymuso'r awdurdodau cyfarwyddo i roi, diwygio neu ddirymu cyfarwyddiadau mewn perthynas â chyfrifon a datganiadau o gyfrifon Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad, cyrff cyhoeddus Cymreig eraill, CABau, CAUau, Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyfrifon cryno y GIG a swyddogion cyrff y GIG. Caiff y cyfarwyddiadau gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig

iddynt: trafodion ariannol; gwybodaeth; cyflwyno; llunio; ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol. Caiff cyfarwyddiadau'r Trysorlys mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymdrin â chyfrifon a datganiad o gyfrifon personau heblaw am yr Ombwdsmon.

**Cymal 39: Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: archwilio cyfrifon**

157. Bydd y cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAC newydd (yn amodol ar gyfyngiadau cymal 32) archwilio ac ardystio unrhyw ddatganiad o gyfrifon a gyflwynir iddo gan y person neu'r corff sy'n destun archwiliad – hynny yw Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad, y cyrff cyhoeddus yng nghymal 30, Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyfrifon cryno y GIG, swyddogion cyrff y GIG, ac mewn perthynas â CABau a CAUau os mai'r ACC newydd sy'n cael ei ddewis fel eu harchwilydd ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol.

158. Bydd y cymal hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAC newydd osod gerbron y Cynulliad, yn ddim hwyrach na 4 mis wedi i'r datganiad o gyfrifon gael ei gyflwyno, copi o'r datganiad o gyfrifon wedi'i ardystio gan yr ACC ynghyd â'i adroddiad arno.

159. Ar ôl archwilio'r datganiad o gyfrifon a gyflwynir, bydd yn rhaid i'r ACC newydd fod yn fodlon:

- bod y gwariant yn gyfreithlon ac wedi'i awdurdodi;
- bod yr arian a ddaeth i law wedi'i wario at y diben neu'r dibenion a fwriadwyd;
- eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol sy'n gymwys iddynt;
- bod yr arferion priodol wedi'u cadw wrth eu llunio.

160. Rhaid i'r ACC newydd ystyried hefyd a yw'r person neu'r corff sy'n destun archwilio wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau.

**Cymal 40: Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: archwiliadau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**

161. Y cymal hwn yw'r ddarpariaeth gwerth am arian unigol arfaethedig. Mae'n cael gwared ar yr ansicrwydd yn y ddeddfwriaeth gyfredol o ran Atodlen 17 i Ddeddf 1998 a ddisgrifiwyd uchod. Bydd yn galluogi'r ACC newydd i gynnal astudiaethau gwerth am arian a gwneud argymhellion ynghylch darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person a restrir yn is-adran (4) wrth arfer ei swyddogaethau neu wrth ddefnyddio ei adnoddau i wneud hynny.

162. Caiff yr ACC newydd y pŵer i gynnal astudiaethau i'r modd y darparwyd gwasanaethau gan y personau a restrwyd yn is-adran (4), a chaiff hefyd wneud argymhellion ynghylch hynny.

163. Wrth gynnal astudiaethau o'r fath ac wrth wneud argymhellion ni fydd gan yr ACC newydd yr hawl i gwestiynu rhinweddau amcanion polisi y person sy'n destun yr astudiaeth.

164. Bydd y cymal hefyd yn darparu ar gyfer cyfyngiadau ar astudiaethau o'r fath mewn perthynas ag ymddiriedolaethau elusennol ac anelusennol lle mae corff GIG Cymru yn ymddiriedolwr a'r Comisiynwyr Coedwigaeth.

| **Cwestiwn 35:** Beth yw eich barn am y cynigion yng nghymalau 40 i 42? |
|---|

**Cymal 41: Personau ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio**

165. Bydd y ddarpariaeth hon yn pennu'r personau eraill, yn ychwanegol at y rheini a restrir yng nghymal 40 (4) (hynny yw y rheini sy'n dod o fewn y strwythur archwilio symlach) a gaiff, o dan amgylchiadau penodol, fod yn destun astudiaeth gwerth am arian gan yr ACC newydd mewn perthynas â gwerth am arian neu ddarparu gwasanaeth o dan ddarpariaethau cymal 40(1).

**Cymal 42: Cyrff addysg sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio ar gais**

166. Bydd y cymal hwn yn darparu y bydd corff addysg a restrir yn Nhabl 2, ar gais ei awdurdod cyfatebol (a restrir yng ngholofn 2 yn y Tabl), yn destun astudiaeth gwerth am arian gan yr ACC newydd o dan ddarpariaethau cymal 40(1).

167. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y caiff y cyfeiriadau at ddarparwr hyfforddiant a'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion yn adran 145B o Ddeddf 1998 (y mae'r ddarpariaeth hon yn seiliedig arni), eu diddymu. Nid yw'r diddymiadau hyn mewn grym eto, ond bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hynny pan gaiff y Bil ei gyflwyno.

**Cymal 43: Safbwyntiau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad**

168. Bydd y cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACC newydd ystyried barn y PCC wrth benderfynu sut i gynnal astudiaeth gwerth am arian o dan gymal 40.

**Cymal 44: Adroddiadau ar astudiaethau**

169. Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi'r ACC newydd ym mhob achosi i osod adroddiad gerbron yn Cynulliad ynghylch canlyniad ei astudiaeth gwerth am arian gan gynnwys argymhellion yr ACC newydd, os oes yna rai, sy'n deillio ohono.

**Cymal 45: Adroddiadau er budd y cyhoedd**

170. Bydd y cymal hwn yn grymuso'r ACC newydd i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd ac yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau o'r fath gael eu gosod gerbron y Cynulliad.

171. Caiff adroddiadau gynnwys materion sy'n ymwneud â swyddogaethau archwilio ariannol yr ACC newydd mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus Cymreig a amlinellir yng nghymalau 28, 29, 30, 32, 33 a 35 ac/neu swyddogaethau

astudiaethau gwerth am arian yr ACC newydd a nodir yng nghymalau 40, 41 a 42. Bydd y pŵer hwn, felly, yn berthnasol i ystod eang o bersonau nag ar hyn o bryd.

**Cymal 46: Addasu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i archwiliad neu astudiaeth**

172. Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ychwanegu neu hepgor, neu addasu disgrifiad, corff cyhoeddus sy'n destun archwiliadau ariannol ACC o dan o gymal 30 (ac, o ganlyniad, yr astudiaethau gwerth am arian yn ogystal). Cyn cyflwyno unrhyw newidiadau rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff ac unrhyw un arall fel y gwêl y Gweinidogion yn dda, ond ni chânt hepgor y cyrff a restrir yn is-adran (3). Bydd pŵer Gweinidogion Cymru yn gyfyngedig i'r darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu i'r sefyllfa lle bo person yn arfer swyddogaethau neu'n cynnal gweithgarwch mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Bydd yr elfen olaf yn ymdrin â'r materion hynny yr ystyrir eu bod yn 'ddatganoledig' yng Nghymru (ac y mae gan Weinidogion Cymru ac ati swyddogaethau yn eu cylch) ond nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd – ee, rheoliadau adeiladu.

173. Caiff gorchymyn o dan y ddarpariaeth hon gynnwys unrhyw addasiad y mae'r Gweinidogion yn ei ystyried yn briodol; nodi enghreifftiau o'r mathau o addasiadau a ganiateir yn is-adran (5) ac maent yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â chyfrifon, archwilio a gwerth am arian, ac yn gyfyngedig i'r materion hynny. Gall yr addasiadau gynnwys y canlynol (ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt): materion sy'n ymwneud â chyfrifon y corff; paratoi ei gyfrifon; archwilio ariannol ac astudiaethau gwerth am arian; cyfrifon is-gwmnïau; cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru: cyhoeddi ac arolygu dogfennau; a hawliau'r ACC newydd i fynd at ddogfennau a gwybodaeth ac ati. Caiff gorchymyn o dan y cymal hwn ymdrin â holl swyddogaethau neu gyllido'r corff neu rai ohonynt – ee, gweler y cyfyngiadau ynghylch sut i ymdrin â'r Comisiynwyr Coedwigaeth yng nghymal 31(2).

174. Dim ond gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol y gellid gwneud unrhyw addasiadau i swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol mewn gorchymyn o'r fath.

175. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud gorchymyn o dan y cymal hwn heb osod fersiwn drafft o'r gorchymyn hwnnw gerbron y Cynulliad yn gyntaf, er mwyn iddo graffu arni, a bod y drafft hwnnw'n cael ei gymeradwyo gan benderfyniad yn y Cynulliad.

176. Gall gorchymyn o'r fath addasu'r Bil hwn (neu'r Ddeddf fel y byddai bryd hynny) dim ond os yw "mewn cysylltiad â, at ddibenion, neu o ganlyniad i" ychwanegu person, ei hepgor, neu addasu ei ddisgrifiad yn y rhestr yn Nhabl 1 yng Nghymal 30 – hynny yw dod â pherson o fewn cylch gwaith archwilio ACC.

177. Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru y bydd "person" yn is-adran (1) yn cynnwys unigolion, personau cyfreithiol a chyrff (ee, cyrff corfforaethol) a deiliaid swyddi p'un a yw'r person hwnnw yn cael ei greu mewn deddfwriaeth neu fod

ganddo swyddogaethau oddi tani, neu o dan offeryn uchelfreiniol (ee, Siarter Frenhinol).

| |
|---|
| **Cwestiwn 36:** Rhowch fanylion unrhyw gyrff neu swyddi a sefydlwyd o dan offeryn uchelfreiniol megis Siarteri neu Warantau Brenhinol yr ydych chi'n credu y dylid eu cynnwys yn y rhestr yn Nhabl 1 yng nghymal 30? |

**Cymal 47: Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am adroddiadau**

178. Bydd y cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy orchymyn am adroddiadau (ee, adroddiadau blynyddol) mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus a restrir yn Nhabl 1 yng Nghymal 30. Mae rhai cyrff wedi'u heithrio o'r pŵer hwn – is-adran (2).

**Cymal 48: Pŵer i ddynodi swyddogion cyfrifyddu**

179. Bydd y cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy orchymyn i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu) ddynodi Swyddogion Cyfrifyddu (ynghyd â'u cyfrifoldebau) ar gyfer y cyrff cyhoeddus a restrir yn Nhabl 1 yng nghymal 30 neu mewn perthynas ag unrhyw berson y gellid ei ychwanegu at y rhestr honno drwy orchymyn o dan Gymal 46. Gall hyn gynnwys dynodi (a phennu cyfrifoldebau) swyddogion cyfrifyddu ychwanegol, ond dim ond gan yr Ysgrifennydd Parhaol neu gyda'i gydsyniad. Nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i ddynodi swyddogion cyfrifyddu mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol neu'r cyrff a restrir yng nghymal 48(5). Mae'r gofynion ar gyfer swyddogion cyfrifyddu mewn perthynas â'r cyrff hynny eisoes wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.

**Pennod 3 – Llywodraeth Leol Cymru**

180. Rhan o'r bwriad y tu ôl i gynigion y Bil yw cydgrynhoi, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ACC presennol a'r gwaith o archwilio, astudio ac arolygu ac ati y cyrff datganoledig yng Nghymru. Nod hynny, ochr yn ochr â pholisi cyffredinol y Bil, yw ei gwneud yn haws i'r darllenydd ddod o hyd i'r darpariaethau perthnasol yn y llyfr statud, gan osgoi newidiadau i ddeddfiadau presennol a fyddai'n creu mwy yn hytrach na llai o gymhlethdod. Ystyrir mai un o'r prif gyfresi o ddarpariaethau y dylid eu cydgrynhoi a'u haddasu yw'r rhai hynny yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). I'r perwyl hwnnw, mae Pennod 3, cymalau 49 i 78 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifon ac archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru a materion cysylltiedig. Y bwriad yn fras yw diddymu ac ailddatgan, gyda rhai addasiadau, ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf 2004 yn y Bil hwn.

181. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut i ymdrin ag anghysonderau rhwng Pennod 3 a gweddill y Bil fel mae y wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y safbwynt ym Mhennod 2 y gall "archwiliad" (examination) gynnwys "astudio" ac y gall "gwneud" un neu ragor o astudiaethau gwmpasu darpariaethau sy'n cyfeirio ar hyn o bryd at "ymgymryd ag astudiaeth" neu "ymgymryd â rhaglen astudio". Fodd bynnag, oherwydd hynny mae rhywfaint o

anghysondeb yn y derminoleg rhwng Pennod 2 a Phennod 3, a bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried hyn ymhellach cyn cyflwyno'r Bil yn y Cynulliad.

**Cymal 49: Cyrff llywodraeth leol**

182. Mae'r cymal hwn yn diweddaru ac yn diffinio ystyr "corff llywodraeth leol", yn rhestru'r cyrff, ac yn grymuso Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ychwanegu atynt, eu hepgor neu'u diwygio.

183. Mae'r rhestr o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn seiliedig ar adran 12 o Ddeddf 2004. Cafodd y rhestr honno ei diwygio gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ond nid yw'r diwygiadau hyn mewn grym eto er bod Llywodraeth Cymru'n deall y byddant yn dod i rym yn ddiweddarach eleni. Mae'r rhestr gyfredol yn y Bil wedi'i drafftio fel pe bai'r diwygiadau hynny mewn grym ond bydd Llywodraeth Cymru'n cadw golwg ar hyn. Mae'n bosibl pan gaiff y Bil ei gyflwyno yn y Cynulliad y bydd angen i'r rhestr adlewyrchu adran 12 o Ddeddf 2004 heb y diwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2011.

184. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried a ddylai'r pŵer i ddiwygio'r rhestr atgynhyrchu adran 12(2) a (3) o Ddeddf 2004.

**Cymal 50: Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol**

185. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraeth leol baratoi ei gyfrifon blynyddol ac i'r ACC newydd eu harchwilio.

186. Ar hyn o bryd nid yw ACC yn gyfrifol yn uniongyrchol am archwilio cyrff llywodraeth leol, yn hytrach caiff yr archwiliadau hynny eu cyflawni gan archwilwyr a benodwyd gan yr ACC presennol. Ystyrir bod hyn yn gamamserol ac, o ystyried bod gan yr ACC presennol swyddogaethau eraill (ee, mewn perthynas â gwerth am arian) o ran cyrff llywodraeth leol, ac yn gyfrifol am archwilio Llywodraeth Cymru, cyrff GIG Cymru ac ati, a byrdwn y cynigion eraill yn y Bil, nawr yw'r amser cywir i ymddiried y gwaith o gynnal archwiliad o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru i'r ACC newydd.

187. Bydd archwiliad o gyfrifon corff llywodraeth leol yng Nghymru yn parhau i gael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau cyfrifon ac archwilio – gweler yn ddiweddarach.

| |
|---|
| **Cwestiwn 37**: A ydych chi'n cytuno mai'r ACC newydd ddylai fod yn archwilydd ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru? |

**Cymal 51: Dyletswyddau cyffredinol wrth archwilio cyfrifon**

188. Mae'r cymal hwn yn nodi dyletswyddau cyffredinol yr ACC newydd mewn perthynas â'r hyn y dylai fod yn fodlon ag ef o ran archwiliad ariannol o gyrff llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys edrych ar drefniadau'r corff ar gyfer sicrhau gwerth am arian. I'r perwyl hwn cynigir newid fel nad oes angen i'r ACC newydd ond ystyried a oes trefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian, yn hytrach na rhoi dyletswydd ar yr ACC newydd i fodloni ei hunan bod trefniadau priodol yn bodoli. Mae'r ffocws ar archwilio yn y darpariaethau hyn. Mae'r

ddyletswydd i “fodloni” yn fwy beichus na’r ddyletswydd i “ystyried”. O ystyried mai’r ACC newydd fydd archwilydd statudol y cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac y bydd ganddo’r gallu i gynnal astudiaethau gwerth am arian llawnach mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol yng Nghymru, ystyrir ei bod yn briodol y bydd yn ofynnol i’r ACC newydd, wrth gynnal archwiliad ariannol, “ystyried” yn unig a oes gan y corff drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian.

| |
|---|
| **Cwestiwn 38**: A ydych chi’n cytuno â’r dyletswyddau archwilio cyffredinol (gan gynnwys yr ystyriaeth o drefniadau gwerth am arian) sydd i’w rhoi ar yr ACC newydd? |

**Cymalau 52 i 58: Adroddiadau ACC ac ystyried yr adroddiadau hynny**

189. Mae’r darpariaethau hyn i raddau helaeth yn ailddatgan y darpariaethau cyfatebol yn Neddf 2004.

190. Cynigir newid, fodd bynnag, mewn perthynas â chyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau di-oed ac adroddiadau nad ydynt yn ddi-oed (cymalau 57 a 58). Mae’r newid yn rhoi’r corff llywodraeth leol o dan ddyletswydd i gyhoeddi copi o’r adroddiad ar ei wefan (os oes ganddo wefan) – gweler cymal 57(3)(c) a 58(2), yn y drefn honno.

**Cymalau 59 i 61:Y cyhoedd yn cael edrych ar ddogfennau a gwrthwynebu ac ati a chamau gweithredu gan ACC**

191. Yn fras, mae’r cymalau hyn yn ailddatgan y darpariaethau cyfatebol yn Neddf 2004.

192. Mae cymal 61 yn ymdrin â hawl etholwr llywodraeth leol i wrthwynebu adeg yr archwiliad ac mae’r newid a gynigir yma yn galluogi iddynt wrthwynebu’n ysgrifenedig yn ogystal ag yn bersonol (fel sy’n digwydd ar hyn o bryd).

**Cymalau 63 i 69: Atal gwariant anghyfreithlon**

193. Mae’r cymalau hyn yn ailddatgan y darpariaethau cyfatebol, adrannau 33 i 39 yn Neddf 2004, â rhai mân addasiadau. Er enghraifft, mae’r cyfeiriadau at archwilydd (“auditor”) yn narpariaethau 2004 bellach yn gyfeiriadau at yr ACC newydd yn y Bil hwn, ac ni fydd yn ofynnol cael unrhyw gyfeiriadau at archwilydd yn anfon dogfen at yr ACC newydd.

194. Yng nghymal 64(8) mae newid sy’n golygu bod treuliau sy’n codi mewn perthynas â hysbysiadau cynghori i gael eu hadennill gan y SAC newydd, ac nid gan yr ACC newydd.

195. Yng nghymal 67(2) a (3) gwnaed newid sy’n golygu nad yw’r ACC newydd yn cael ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru erbyn hyn. Yn hytrach, ystyrir ei bod yn fwy priodol (o gofio disgresiwn llawn yr ACC newydd) y ceir gofyn i’r ACC newydd gynnal gorchymyn eithriadol yn lle hynny, ond gall wrthod gwneud hynny dim ond os yw’r cais yn afresymol. Bwriedir i’r prawf rhesymoldeb fod yn wrthrychol.

**Cymalau 70 i 73: Gwerth am arian**

196. Mae'r darpariaethau hyn yn ailddatgan y darpariaethau cyfatebol yn Neddf 2004.

197. Nid yw cymal 70(1)(a) yn cyfeirio at gyrff llywodraeth leol yng Nghymru sy'n awdurdodau gwerth gorau at ddiben Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Erbyn cyflwyno'r Bil hwn, mae Llywodraeth Cymru'n deall, gyda'r newidiadau yn sgil Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, na fydd mwyach unrhyw gyrff llywodraeth leol yng Nghymru'n dod o fewn Rhan 1 o Ddeddf 1999.

| |
|---|
| **Cwestiwn 39:** Mewn perthynas â chymal 70 – a fydd unrhyw beth o bwys yn mynd ar goll os na fydd y Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer "hyrwyddo" astudiaethau wrth iddo gael ei gyflwyno? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 40:** Yn eich barn chi, a oes unrhyw wahaniaeth gwirioneddol i'r perwyl hwn rhwng "archwiliad" (examination) ac "astudiaeth"? |

198. Mae'r Bil drafft yn cyfeirio, mewn nifer o fannau, at y Comisiwn Archwilio. Bwriad Llywodraeth y DU yw diddymu'r corff hwnnw. Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw golwg ar y sefyllfa fel bod y Bil yn gwneud cyfeiriadau priodol ar yr adeg y caiff ei gyflwyno yn y Cynulliad.

**Cymalau 74 i 77: Safonau Perfformio**

199. Mae'r cymalau hyn yn ailddatgan adrannau 46 i 49 yn Neddf 2004, gyda rhai addasiadau.

200. Yng nghymal 73 gwneir cyfeiriad at endid o dan reolaeth awdurdod lleol oherwydd diwygiadau a wnaed o dan ddarpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 i'r darpariaethau cyfatebol yn Neddf 2004. Nid yw'r darpariaethau hyn mewn grym eto yn Neddf 2004 a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gadw golwg ar hyn wrth baratoi i gyflwyno'r Bil hwn yn y Cynulliad.

**Cymal 78: Dehongli Pennod 3**

201. Mae'r cymal hwn yn nodi ystyr "etholwr llywodraeth leol" ac yn cymhwyso'r diffiniad hwnnw i Barc Cenedlaethol yng Nghymru sy'n awdurdod cynllunio lleol.

**Pennod 4 – Paru Data**

**Cymalau 79 i 85**

202. Mae'r cymalau hyn yn ailddatgan y darpariaethau yn Rhan 3A o Ddeddf 2004 (fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2007), gyda mân addasiadau.

**Cymalau 79 i 83**

203. Mae'r cymalau hyn yn ymwneud â'r pŵer i gynnal ymarferion paru data, darparu data gorfodol a gwirfoddol, datgelu'r canlyniadau a chyhoeddi adroddiadau yn gysylltiedig ag ymarferion paru data.

**Cymal 84: Cod ymarfer paru data**

204. Mae'r cymal hyn yn darparu bod yr ACC newydd yn paratoi ac yn cadw golwg ar god ymarfer sy'n ymwneud ag ymarferion paru data. Rhaid iddo osod y cod gerbron y Cynulliad a'i gyhoeddi. Mae'n ofynnol i'r ACC newydd a'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarferion paru data ystyried y cod.

**Cymal 85: Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol**

205. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, i ddiwygio dibenion paru data yng Nghymru, i ychwanegu neu hepgor corff cyhoeddus o'r rhestr yng nghymal 80(2) ac addasu cymhwysiad y darpariaethau paru data ym Mhennod 4 o'r Bil hwn mewn perthynas â chorff sydd wedi'i ychwanegu at y rhestr honno.

**Cwestiwn 41:** A ddylai fod yna god ar wahân ar gyfer paru data neu a fyddai'n fwy priodol fel adran o fewn y Cod Ymarfer Archwilio a ddisgrifir yng nghymal 87?

**Cwestiwn 42:** A ddylai pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 85 fod yn amodol ar ofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru a chael eu caniatâd nhw lle mae hynny'n effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru?

**Pennod 5 – Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: Atodol**

**Cymal 86: Ardystio hawliadau, ffurflenni etc**

206. Mae'r cymal hwn yn ailddatgan y darpariaethau cyfatebol yn Atodlen 8 i Ddeddf 2006 mewn perthynas â dyletswydd yr ACC newydd i ardystio rhai hawliadau, ffurflenni, cyfrifon ac amcangyfrifon penodol ar gais cyrff sector cyhoeddus diffiniedig yng Nghymru, unrhyw Weinidog y Goron neu awdurdod cyhoeddus a sefydlwyd gan Gytuniadau'r Undeb Ewropeaidd neu unrhyw ddeddfiad.

**Cymal 87: Cod ymarfer archwilio**

207. Ar hyn o bryd, mae adran 16 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn galluogi ACC i baratoi cod ymarfer archwilio y mae'n rhaid ei gadarnhau gan y Cynulliad yn y lle cyntaf ac yn amodol ar y weithdrefn ddiddymu gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn datgan na all y Cynulliad ddirprwyo'r swyddogaeth o gadarnhau'r Cod er bod y ddarpariaeth honno yn goroesi'n afreolaidd o'r adeg pan oedd y Cynulliad, o dan Ddeddf 1998, yn gorff corfforaethol ac yn gallu dirprwyo ei swyddogaethau i Weinidogion.

208. Ar adeg Deddf 2004 ystyriwyd bod rôl Senedd y DU yn angenrheidiol i fodloni neu amddiffyn cyrff llywodraeth leol yng Nghymru (hy, amddiffyn gan un haen o

aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd rhag ymyrraeth gan y weithrediaeth ddatganoledig a oedd ar yr adeg honno yn rhan o gorff corfforaethol, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf 1998). Mae'n debygol bod rôl Senedd y DU wedi deillio'n wreiddiol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn unig, pan oedd y Cynulliad yn gorff corfforaethol a gallai ei gangen 'weithredol' fod wedi bod yn ddylanwad gormodol ar gynnwys y Cod. Ystyrir bellach na ddylai fod swyddogaeth i Senedd y DU yn sgil y gwahanu cyfreithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

209. Bwriad y cymal hwn yw bod gan yr ACC newydd ddyletswydd yn hytrach na phŵer i baratoi Cod yn nodi ymgorfforiad o'r arfer proffesiynol gorau mewn perthynas â safonau, gweithdrefnau a thechnegau i'w mabwysiadu ganddo a'r rhai sy'n ei gynorthwyo wrth arfer y swyddogaethau hynny; a bod y Cod yn nodi sut y caiff yr arferion hynny eu cymhwyso i holl swyddogaethau archwilio ariannol a gwerth am arian yr ACC newydd. Bydd yn ofynnol hefyd i'r ACC newydd ymgynghori â'r bobl a ystyrir yn addas ganddo cyn cyhoeddi'r Cod neu unrhyw ddiwygiad ohono. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, gyrff llywodraeth leol yng Nghymru neu gynrychiolwyr y cyrff hynny, o ystyried y bydd y cod hefyd yn gymwys i swyddogaethau'r ACC newydd o dan Ran 2, Pennod 3 o'r Bil hwn. Rhaid i'r ACC newydd drefnu i'r Cod gael ei gyhoeddi.

210. Bydd yr ACC newydd a'r rhai sy'n ei gynorthwyo wrth arfer ei swyddogaethau yn rhwym i'r Cod. Gan y bydd annibyniaeth yr ACC newydd yn cael ei hailddatgan a'i chryfhau gan gynigion y Bil hwn ystyrir nad yw'n briodol mwyach i'r Cod fod yn agored i gymeradwyaeth y Cynulliad.

211. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried (ynghyd ag unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad ar y mater) a oes modd i ddarpariaethau'r Bil sy'n gysylltiedig â gwneud y cod fod yn fwy cyson â darpariaethau tebyg mewn perthynas â'r cod ymarfer paru data.

| |
|---|
| **Cwestiwn 43:** Beth yw eich barn am y safbwynt na ddylai'r Cynulliad bellach gael ei rymuso i gymeradwyo cod ymarfer archwilio'r ACC newydd? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 44**: A ddylai fod yn ddyletswydd ar yr ACC newydd i osod ei god ymarfer archwilio gerbron y Cynulliad? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 45:** A ddylai'r cod fod yn berthnasol i swyddogaethau ardystio ac ati yr ACC newydd, o dan gymal 86 a/neu hawliau mynediad yr ACC newydd at ddogfennau ac ati dan gymalau 88 a 89? |

**Cymal 88: Hawliau i ddogfennau a gwybodaeth**

212. Bydd y cymal hwn yn rhoi hawl mynediad i'r ACC newydd at bob dogfen sy'n ymwneud â chorff cyhoeddus yr ymddengys i'r ACC newydd ei bod yn angenrheidiol at ddibenion arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r corff hwnnw o dan Benodau 1 i 4 Rhan 2 o'r Bil hwn, a hynny ar bob adeg resymol. Effaith y cymal hwn fydd darpariaeth unigol sy'n rhoi hawliau eang i'r ACC newydd gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth ac ati a ddelir gan unrhyw gorff cyhoeddus o fewn ei gylch gwaith, ac i ddilyn arian cyhoeddus lle bynnag yr aiff.

213. Mae'r ddarpariaeth yn cyfuno pwerau'r ACC newydd i gael mynediad at ddogfennau – hy, yn bennaf y pwerau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru, cyrff y GIG, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (ar hyn o bryd ym mharagraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006), a'r pwerau sy'n gymwys i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru (ar hyn o bryd yn adrannau 52 a 53 o Ddeddf 2004).

214. Bydd is-adrannau (3) (a) a (b) yn galluogi'r ACC newydd i gael mynediad at ddogfennau mewn cadwyn ariannol sy'n ymwneud â'r defnydd o arian cyhoeddus, dogfennau a ddelir neu a reolir gan unrhyw un fydd wedi cael cymorth ariannol gan gorff cyhoeddus Rhan 2 neu sydd wedi cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r corff o dan gontract, neu sydd wedi bod yn is-gontractwr mewn cysylltiad â chontract o'r fath. Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau y bydd gan yr ACC newydd y pŵer ehangaf i astudio rheoleidd-dra, priodoldeb ac egwyddorion gwerth am arian wrth iddynt gael eu cymhwyso i'r defnydd o arian cyhoeddus ymhob cam o'r gadwyn wariant. Cyfyngir ar hyn, wrth gwrs, gan is-adran (1) gan fod gan yr ACC newydd ond hawl mynediad, dyweder, at ddogfen sydd yn nwylo unig fasnachwr os byddai hynny'n "angenrheidiol" ar gyfer arfer swyddogaethau archwilio ariannol neu werth am arian yr ACC newydd mewn perthynas â pherson neu gorff sy'n dod o dan gylch gwaith yr ACC newydd.

215. Bydd is-adran (2) (c) yn grymuso Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ehangu'r categorïau o ddogfennau y gall yr ACC newydd gael mynediad atynt os bydd hynny byth yn angenrheidiol.

216. Yn ogystal â mynediad at ddogfennau a hawliau, o dan is-adrannau (5) i (8) bydd gan yr ACC newydd yr hawl i ofyn am unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol, a'u derbyn, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o dan Benodau 1 i 4 o Ran 2 o'r Bil hwn oddi wrth

- gorff cyhoeddus sy'n destun y rhai yn Rhan 2 o'r Bil hwn;
- dogfen y mae gan yr ACC newydd hawl mynediad ati;
- person sy'n dal neu'n rheoli dogfen o'r fath.

217. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys, er enghraifft, darparu cyfleusterau i'r ACC newydd – ee, mynediad at gyfrifiaduron, ffonau ac mewn rhai achosion mynediad at galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol er mwyn galluogi'r ACC newydd i gael mynediad at wybodaeth sy'n berthnasol i archwiliad neu astudiaeth a gynhelir ganddo.

| |
|---|
| **Cwestiwn 46**: Beth yw eich barn chi am gael darpariaeth unigol sy'n cwmpasu hawliau mynediad yr ACC newydd at ddogfennau a gwybodaeth o fewn y sector cyhoeddus? |

**Cymal 89: Hawliau i ddogfennau a gwybodaeth: troseddau**

218. Bydd y cymal hwn yn nodi'r troseddau os bydd methiant i gydymffurfio â gofynion is-adran 88 (5).

219. Y newid arwyddocaol yma yw y bydd y drosedd hon yn berthnasol nid yn unig pan fydd yr ACC newydd yn arfer ei hawl mynediad at ddogfennau a gwybodaeth mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol yng Nghymru (fel sy’n digwydd ar hyn o bryd - gweler adran 53 o Ddeddf 2004) ond i *unrhyw* achos pan fydd yr ACC newydd yn arfer y pŵer newydd.

| |
|---|
| **Cwestiwn 47**: A ddylai’r ddarpariaeth droseddau fod yn berthnasol mewn unrhyw achos pan fydd yr ACC newydd yn arfer y pŵer i gael mynediad at ddogfennau ac ati, nid yn unig mewn achosion llywodraeth leol? |

**Cymal 90: Cyfeirio materion sy’n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol**

220. Mae’r cymal hwn yn ailddatgan adran 51 o Ddeddf 2004 a bydd yn grymuso’r ACC newydd i gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol (yn ymarferol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau) faterion sy’n codi o waith a gyflawnir o dan Bennod 3 o’r Bil hwn, os yw’n ystyried hynny’n berthnasol i swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol sy’n ymwneud â nawdd cymdeithasol. Mae hefyd yn galluogi’r ACC newydd i anfon copi o unrhyw adroddiad a wneir ganddo o dan adran 52 sy’n cynnwys sylwadau ar weinyddiaeth awdurdod lleol o fudd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor.

221. Mae Llywodraeth Cymru’n ymwybodol o gynigion Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor a bydd y mater hwn yn cael ei fonitro at ddiben cyflwyno’r Bil hwn yn y Cynulliad.

**Cymal 91: Astudiaethau gweinyddu budd-dal ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol**

222. Bydd y cymal hwn yn ailddatgan adran 45 o Ddeddf 2004 ac yn galluogi’r ACC newydd, ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, i gyflawni neu gynorthwyo’r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal astudiaethau sydd wedi’u cynllunio i wella darbodaeth ac ati, a safon perfformio swyddogaethau sy’n ymwneud â gweinyddu budd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor gan un neu ragor o awdurdodau lleol yng Nghymru. Dim ond os yw’r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno i dalu ffi resymol i’r SAC newydd mewn cysylltiad ag unrhyw astudiaeth y caiff yr ACC newydd gymryd rhan.

**Cymal 92: Cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth**

223. Bydd y cymal hwn yn ailddatgan adran 54 o Ddeddf 2004 ac yn cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth benodol sy’n gysylltiedig â chorff neu berson penodol. Bydd y cyfyngiadau’n berthnasol lle bydd gwybodaeth yn cael ei chaffael gan yr ACC newydd wrth arfer ei swyddogaethau o dan Bennod 3 o’r Bil hwn neu Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 neu yn ystod astudiaeth o dan gymal 40 o’r Bil hwn mewn cysylltiad â landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Rhaid peidio â datgelu gwybodaeth oni fydd yn unol â’r eithriadau a restrir yn is-adrannau (2), (3) a (4). Bydd datgelu gwybodaeth yn groes i adran 92 yn drosedd o dan is-adran (6).

**Cymal 93: Cydsyniad o dan gymal 92**

224. Mae'r cymal hwn yn ailddatgan adran 54ZA o Ddeddf 2004 a bydd yn nodi'r camau sy'n rhaid eu cymryd mewn cysylltiad â chael cysyniad o dan gymal 92(4).

**Cymal 94: Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflenwi gwybodaeth budd-daliadau i'r Archwilydd Cyffredinol**

225. Mae'r cymal hwn yn ailddatgan adran 55 o Ddeddf 2004 a bydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ymarferol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau) i gyflenwi gwybodaeth i'r ACC newydd mewn cysylltiad â budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor y mae'n eu hystyried yn berthnasol i swyddogaethau'r ACC newydd.

**Cymal 95: Dogfennau sy'n ymwneud ag awdurdodau heddlu [â chomisiynwyr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid]**

226. Mae'r ddarpariaeth hon yn ailddatgan adran 40 o Ddeddf 2004. Diwygiwyd yr adran honno gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac mae'r diwygiadau'n debygol o ddod i rym yn ddiweddarach eleni. Bydd y diwygiadau'n disodli'r cyfeiriadau at awdurdodau'r heddlu ac yn rhoi cyfeiriadau at, er enghraifft, gomisiynwyr heddlu a throsedd, yn eu lle. Drafftiwyd y cymal yn y Bil i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig hyn.

227. Os yw'r ACC newydd yn gwneud adroddiad er lles y cyhoedd sy'n ymwneud ag awdurdod heddlu [comisiynwyr heddlu a throsedd neu brif gwnstabliaid] ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, yna mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddo anfon copi o'r adroddiad hwnnw at yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.

228. Os yw'r ACC newydd wedi anfon dogfen neu gopi o ddogfen at un neu ragor o awdurdodau heddlu, [comisiynwyr heddlu a throsedd neu brif gwnstabliaid], caiff yr ACC newydd anfon copi o'r ddogfen at yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.

**Cymal 96: Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Archwilio**

229. Mae'r cymal hwn yn ailddatgan adran 57 o Ddeddf 2004. Ei ddiben yw hwyluso cymariaethau trawsffiniol rhwng cyrff a sectorau, gyda'r nod o godi safonau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cymal yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACC newydd roi gwybodaeth i'r Comisiwn Archwilio, os yw'n gofyn amdani, i'w alluogi i wneud cymariaethau rhwng cyrff llywodraeth leol yng Nghymru a chyrff llywodraeth leol eraill y mae gan y Comisiwn Archwilio swyddogaethau mewn perthynas â hwy o dan adrannau 33 a 34 o Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 (i gynnal neu hyrwyddo astudiaethau i wella darbodaeth ac ati mewn gwasanaethau ac astudiaethau ar effaith darpariaethau statudol ac ati).

230. Mae dyletswydd gyfwerth eisoes ar y Comisiwn Archwilio yn y Ddeddf honno.

## Rhan 3 – Amrywiol a Chyffredinol

### Cymal 97: Y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol

231. Mae'r cymal hwn yn darparu bod y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â'r ACC newydd ac yn ystyried unrhyw waith perthnasol a wneir neu a wnaed gan yr ACC newydd cyn i'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaeth gwerth am arian o dan adran 6 neu 7 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983.

### Cymal 98: Indemnio

232. Mae'r cymal hwn yn darparu bod unrhyw swm taladwy i drydydd parti am dor-ddyletswydd (ee o dan gontract neu oherwydd esgeulustra) gan yr ACC newydd (a chyn ACC a benodwyd o dan y Bil hwn), y SAC newydd (a'i chyn-aelodau neu aelodau presennol, cyn gyflogeion neu gyflogeion presennol, neu ddarparwyr gwasanaethau) i'w godi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'i dalu ohoni, hy, nid yw'n agored i'w gymeradwyo gan y Cynulliad mewn cynnig cyllidebol.

### Cymal 99: Gorchmynion a rheoliadau

233. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch Gorchmynion a rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil. Byddant yn cael eu gwneud gan offeryn statudol a byddant felly hefyd yn destun Deddf Offerynnau Statudol 1946. Gwneir darpariaeth i orchmynion a rheoliadau fod yn agored i naill ai weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad neu weithdrefn negyddol y Cynulliad. Mae gweithdrefn gadarnhaol yn golygu na ellir gwneud yr is-ddeddfwriaeth oni fydd drafft ohoni wedi'i gosod yn gyntaf gerbron y Cynulliad ac yna wedi'i chymeradwyo ganddo. Mae gweithdrefn negyddol yn golygu y gellir gwneud yr is-ddeddfwriaeth (ac weithiau gall ddod i rym) ond rhaid ei gosod gerbron y Cynulliad ac fel rheol mae gan y Cynulliad ddeugain niwrnod i benderfynu neu anghytuno â'r is-ddeddfwriaeth. Os yw'r Cynulliad yn anghytuno â'r is-ddeddfwriaeth drwy gynnig a basiwyd yna bydd yn peidio'n gyffredin â chael effaith bellach.

234. Yn y Bil hwn mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cadw nifer y pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth mor isel â phosibl. Mae mwyafrif helaeth pwerau o'r fath yn y Bil hwn wedi'u hailddatgan o ddeddfwriaeth bresennol ac nid ydynt yn bwerau newydd.

235. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried ymhellach a oes modd symleiddio'r darpariaethau'n ehangach. Wrth ddrafftio'r Bil hwn mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan bwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â chydbwysedd y darpariaethau ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r rhai i'w cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn nes ymlaen.

236. Wrth ddrafftio'r Bil hwn (ac wrth baratoi'r Bil ar gyfer ei gyflwyno yn y Cynulliad) mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyriol a bydd yn parhau i fod yn ystyriol iawn o'r angen i'r cyhoedd ac aelodau'r Cynulliad a etholwyd yn ddemocrataidd allu craffu *o wyneb y Bil ei hun* yr holl brif ddarpariaethau strwythurol a gweithredol. At hynny, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru, cyn belled ag y bo'n

ymarferol bosibl, gynnwys ar wyneb y Bil, wrth ei gyflwyno, yr holl ddarpariaethau canlyniadol, trosiannol ac arbed sy’n ofynnol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Os yw Llywodraeth Cymru’n ceisio pwerau yn y Bil hwn, wrth ei gyflwyno, i wneud is-ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â darpariaethau canlyniadol a throsiannol ac ati, bydd hynny’n seiliedig ar ddarparu rhwyd achub i sicrhau bod modd delio â chanlyniadau nas rhagwelwyd ac ati.

237. At hynny, mae Llywodraeth Cymru am wneud yn siŵr bod pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i addasu neu ddiddymu darpariaethau deddfwriaeth sylfaenol, yn gyfyngedig ac wedi’u targedu ac nad ydynt yn mynd ymhellach na’r hyn sydd ei angen o fewn rheswm i gyflawni’r diben o wneud yn siŵr bod modd cyflawni’r bwriad yn y Bil hwn (os caiff ei basio gan y Cynulliad) a’i fod yn dod i rym yn llawn. I’r perwyl hwn, bydd Llywodraeth Cymru’n ystyried (ynghyd ag unrhyw ymatebion i’r ymgynghoriad a ddaeth i law) a yw’r darpariaethau fel y’u drafftiwyd yn foddhaol ac a gafodd gweithdrefn briodol y Cynulliad ei defnyddio i ymarfer y darpariaethau hyn (gweler isod yng nghymal 101).

**Cymal 100: Cyfarwyddiadau**

238. Mae’r cymal hwn yn gwneud darpariaeth bellach sy’n gysylltiedig â’r pwerau a roddwyd yn y Bil hwn i Weinidogion Cymru ac ati i roi cyfarwyddiadau. Mae’r ddarpariaeth hon yn galluogi hyblygrwydd fel y gall cyfarwyddyd ymdrin â gwahanol amgylchiadau.

**Cymal 101: Dehongli**

239. Mae’r cymal hwn yn rhoi ystyron y termau sy’n cael eu defnyddio yn y Bil.

240. Fel y nodwyd uchod mae Llywodraeth Cymru’n awyddus i sicrhau bod y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth wedi’u targedu ac yn briodol. Felly, yn ystod yr ymgynghoriad ac wrth baratoi ar gyfer cyflwyno’r Bil yn y Cynulliad bydd Llywodraeth Cymru’n ystyried, yn benodol, (ynghyd ag unrhyw ymatebion i’r ymgynghoriad ar y pwynt hwn) ystyr “deddfiad”. Er enghraifft, nid yw’n fwriad gan Lywodraeth Cymru i geisio pwerau ysgubol i ddiwygio’r darpariaethau yn y Ddeddf hon er y bydd angen rhywfaint o allu, wrth gwrs, i wneud diwygiadau wedi’u targedu i’r Ddeddf hon mewn perthynas â’r pŵer o dan gymal 46 y Bil hwn.

**Cymal 102 ac Atodlen 4: Darpariaethau trosiannol ac atodol**

241. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, y bwriad yma yw nodi, mewn Atodlen i’r Bil, y darpariaethau trosiannol ac arbed fydd yn ofynnol er mwyn symud o’r sefyllfa bresennol (ee, lle mae’r holl swyddogaethau wedi’u rhoi i’r Archwilydd Cyffredinol presennol) i’r system newydd lle bydd y swyddogaethau o’r math corfforaethol, er enghraifft, yn trosglwyddo i’r SAC newydd. Bydd darpariaeth, felly, i’r swyddogaethau drosglwyddo o’r ACC presennol i’r SAC newydd a’r darpariaethau arferol sy’n ymwneud â pharhad wrth arfer y swyddogaethau hynny; bydd eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yn trosglwyddo o’r ACC presennol i’r SAC newydd, a’r pethau sy’n cael eu gwneud gan yr ACC presennol wrth arfer ei swyddogaethau yn cael eu hystyried fel rhai a wneir gan yr ACC newydd, unwaith y bydd y swyddogaethau hynny’n trosglwyddo i’r SAC newydd.

242. Bydd staff yr ACC presennol yn trosglwyddo i gyflogaeth y SAC newydd a hefyd y contractau cyflogaeth. Felly yn ôl y gyfraith, er enghraifft, bydd y SAC newydd yn dod yn gyflogwr y staff hynny. Bydd trosglwyddo staff yn digwydd yn unol â Datganiad o Arfer Swyddfa'r Cabinet ar Drosglwyddo Staff. Yn ôl y ddarpariaeth hon, ni fydd trosglwyddo cyflogaeth ar delerau llai ffafriol nag a fyddai o gymhwyso TUPE. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cydgysylltu â'r ACC presennol mewn perthynas â hawliau pensiwn cyflogeion yr ACC presennol.

**Cymal 103: ac Atodlen 5: Diddymiadau a diwygiadau canlyniadol**

243. Bydd y cymal hwn ac Atodlen 5, wrth gyflwyno'r Bil yn y Cynulliad, yn nodi'r diddymiadau a'r addasiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi ar waith y cynigion terfynol ar gyfer y Bil. Yn syml, bydd y rhain, er enghraifft, yn sicrhau y bydd cyfeiriadau at yr ACC newydd, neu at y SAC newydd, fel y bo'n briodol, pan oedd y cyfeiriad yn flaenorol at yr ACC presennol.

**Cymal 104: Cychwyn**

244. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â pha bryd fydd y Ddeddf (os cytunir arni gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru) yn dod i rym. Bwriedir y bydd y Bil, unwaith y caiff ei ddeddfu, yn dod i rym yn llawn erbyn 1 Ebrill 2013 er y gall rhai darpariaethau technegol ddod i rym drwy Gydsyniad Brenhinol.

**Cymal 105: Enw byr**

245. Enw byr y Ddeddf fydd "Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013".

**Datblygu Cynaliadwy**

246. Er nad oes cynigion ar wyneb y Bil hwn sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy, mae "Rhaglen Lywodraethu" (Medi 2011) Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad:

- i ddeddfu i wneud datblygu cynaliadwy'n brif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru; ac
- i greu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.

247. Mae gan rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru swyddogaethau statudol eisoes mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, mae'n rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd gydymffurfio â chanllawiau Gweinidogion Cymru ynghylch y cyfraniad y mae'n rhaid i'r Asiantaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r amcan o gyflawni datblygu cynaliadwy, a rhaid i awdurdodau gwella lleol yng Nghymru bennu amcanion gwella parhaus i'w hunain a all gynnwys amcanion a luniwyd i gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae rhai cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru wedi llofnodi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy yn wirfoddol. Mae hyn yn eu hymrwymo i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol o ran sut y maent yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni eu gwaith.

248. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach eleni ar gynigion mewn deddfwriaeth i gryfhau dull Llywodraeth Cymru o weithredu datblygu cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn croesawu safbwyntiau yn awr ynghylch a ddylai'r ACC newydd gael dyletswydd bendant i astudio datblygu cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac a ddylai dyletswydd o'r fath gael ei chynnwys yn y Bil hwn neu'n ddiweddarach mewn Bil sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy.

249. Er enghraifft, gallai astudiaethau gan yr ACC newydd roi sylw i faterion megis i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â phobl a chymunedau o ran y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; i ba raddau y mae gan gyrff cyhoeddus weithdrefnau yn eu lle i ganiatáu ar gyfer nodi effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn ystod eu prosesau gwneud penderfyniadau; a nodi cyfleoedd i gyrff cyhoeddus wneud mwy o gyfraniad i ddatblygu cynaliadwy.

**Cwestiwn 48:** Mewn egwyddor, a ddylai fod yna ddyletswydd bendant ar yr ACC newydd i gynnal astudiaethau datblygu cynaliadwy?

**Cwestiwn 49:** Os nad ydych yn cytuno â'r egwyddor, eglurwch pam.

**Cwestiwn 50**: Os ydych yn cytuno â'r egwyddor, a ydych o'r farn y dylid cynnig y ddyletswydd yn y Bil hwn neu'n ddiweddarach mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â datblygu cynaliadwy?

**Amserlen**

250. Byddem yn croesawu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori hon tan **15 Mai 2012**. Yn dilyn ystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2012.

# Atodiad 1

## Y BIL CYFRIFOLDEB AM GYLLIDEBAU AC ARCHWILIO CENEDLAETHOL

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG
## 22 Hydref 2010

**Jane Hutt, Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**

Cafodd y Bil Cyfrifoldeb a Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ar 21 Hydref 2010.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi manteisio ar y cyfle y mae'r Bil hwn yn ei gynnig i roi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â threfniadau llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau i:

- gyflwyno siarter Cyfrifoldeb am Gyllidebau;
- cyhoeddi Datganiadau Ariannol ac Adroddiadau ar y Gyllideb;
- sefydlu'r Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau;
- gwneud darpariaethau ar gyfer y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG);
- creu strwythur corfforaethol newydd ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO);
- diwygio Atodlenni 5 a 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn amodol ar ddeddfiad, bydd Atodlen 6 y Mesur yn diwygio Atodlenni 5 a 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("deddf 2006") i roi cymhwysedd deddfwriaethol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag Archwilydd Cenedlaethol Cymru. Bydd y cymhwysedd hwnnw yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu, trwy Fesur Cynulliad - neu pe byddai'r refferendwm yn rhoi pleidlais "ie", trwy Ddeddf Cynulliad - ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cenedlaethol Cymru.

Mae *Paragraffau 2 i 4 o Atodlen 6* yn diwygio Atodlen 5 Deddf 2006, sy'n delio â chymhwysedd y Cynulliad i basio deddfwriaeth a elwir yn Fesurau Cynulliad o dan Ran 3 Deddf 2006.

*Mae Paragraff 3 Atodlen 6* yn rhoi Mater newydd (14.1) ym Maes Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn Rhan 1 Atodlen 5 Deddf 2006. Mae Rhan 1 yn pennu'r "Materion" y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt. Byddai'r cymhwysedd fyddai'n cael ei roi gan Fater 14.1 yn galluogi Mesur Cynulliad i wneud mathau penodol o ddarpariaethau mewn

perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, er enghraifft i sefydlu trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gallai'r ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud gan y Cynulliad fod yn debyg i'r hyn sy'n cael ei bennu mewn mannau eraill yn Rhan 2 y Mesur mewn perthynas â'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol.

Mae Paragraff 4 Atodlen 6 yn diwygio Rhan 2 Atodlen 5 Deddf 2006, sy'n pennu cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad i basio Mesurau'r Cynulliad. Mae'r diwygiadau'n darparu ar gyfer eithriadau i'r gwaharddiadau ar allu Mesurau'r Cynulliad i addasu darpariaethau penodol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998") a Deddf 2006, a bydd yn galluogi'r Deddfau hynny i gael eu diwygio trwy Fesur Cynulliad os mai pwrpas y diwygio yw sefydlu trefniadau sy'n gysylltiedig â llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r diwygiadau hefyd yn cynnwys darpariaethau i amddiffyn annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru rhag y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Paragraffau 5 i 7 o Atodlen 6 yn diwygio Atodlen 7 Deddf 2006, sy'n delio â chymhwysedd y Cynulliad i basio deddfwriaeth a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad o dan Ran 4 Deddf 2006. O dan adrannau 103 a 105 Deddf 2006, er mwyn i "ddarpariaethau Deddf Cynulliad" ddod i rym, sy'n galluogi'r Cynulliad i basio Deddfau Cynulliad, rhaid i'r mwyafrif sy'n pleidleisio mewn refferendwm ledled Cymru bleidleisio o blaid. Pwrpas y diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Atodlen 7 Deddf 2006 trwy baragraffau 5 i 7 yw sicrhau na fyddai'r Cynulliad, pe byddai darpariaethau'r Deddf Cynulliad yn dod i rym, yn colli dim o'r cymhwysedd fydd ganddo o ganlyniad i'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Atodlen 5 trwy baragraffau 2 i 4.

Mae Paragraff 6 o Atodlen 6 yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 7 Deddf 2006, sy'n pennu'r pynciau y gall Deddfau'r Cynulliad ymwneud â hwy, trwy osod pwnc newydd, "Auditor General for Wales" ym mharagraff 14. Mae paragraff 14 eisoes yn cynnwys y pwnc "Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities". Byddai'r pwnc newydd, yn ogystal â'r cymhwysedd hwnnw sy'n bodoli eisoes yn galluogi Deddf Cynulliad i wneud darpariaethau tebyg mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru â mater 14.1 yn Atodlen 5.

Mae Paragraff 7 Atodlen 6 yn diwygio Rhan 2 Atodlen 7 Deddf 2006, sy'n pennu cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad i basio Deddfau'r Cynulliad. Mae'r diwygiadau yn darparu ar gyfer eithriadau i'r gwaharddiadau ar allu Deddfau'r Cynulliad i addasu darpariaethau penodol o Ddeddfau 1998 a 2006. Bydd yr eithriadau hyn yn galluogi Deddf Cynulliad i addasu y rhan fwyaf o ddarpariaethau Atodlen 8 Deddf 2006, sy'n delio â swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, a bydd yn galluogi Deddf Cynulliad i addasu darpariaethau eraill Deddfau 1998 a 2006, os bydd pwrpas y diwygiad yn gysylltiedig â throsolygu neu oruchwylio'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan baragraff 7(3) hefyd yn cynnwys darpariaethau i amddiffyn annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru rhag y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Deddf 2006 yn darparu na all Mesur Cynulliad na Deddf Cynulliad addasu swyddogaethau y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol os nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â hynny. Mae Rhan 2 y Mesur yn trosglwyddo'r swyddogaethau

penodol sy'n cael eu cyflawni gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol i Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol a bydd paragraffau 26 i 28 Atodlen 5 y Mesur yn ymestyn y cyfyngiadau yn Neddf 2006 i swyddogaethau'r Swyddfa Archwilio Gyffredinol newydd. O ganlyniad, ni fydd yn bosibl i'r Cynulliad addasu swyddogaethau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol heb gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Memorandwm Esboniadol sy'n gosod cefndir a chyd-destun y pwerau deddfu yr ydym am eu cael wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**MEMORANDWM LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR BWERAU SY'N RHOI CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r memorandwm hwn yn nodi'r cefndir a'r cyd-destun sy'n berthnasol i gymal 27, ac Atodlen 6 i'r Bil Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol, sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff eu hadnabod fel Swyddfa Archwilio Cymru.

**Cefndir**

2. Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32) ("Deddf 2006") yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru basio deddfwriaeth a elwir yn Fesurau'r Cynulliad.

3. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio Mesurau mewn perthynas â'r "Materion" a restrir yn yr 20 "Maes" yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Gwneir ychwanegiadau at gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy ychwanegu Materion newydd i'r Meysydd yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae Deddf 2006 yn cynnwys pŵer i ychwanegu materion newydd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, a gall materion gael eu hychwanegu hefyd drwy ddarpariaethau Deddfau Seneddol, y cyfeirir atynt fel "pwerau fframwaith". Gall Mesurau'r Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gall Deddf Seneddol ei gwneud mewn perthynas â'r Materion hynny, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol a geir yn Neddf 2006.

4. Mae Atodlen 6 i'r Bil yn rhoi pwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ychwanegu Mater newydd (Mater 14.1) ym Maes 14 (Gweinyddiaeth Gyhoeddus) o Atodlen 5. Diben Mater 14.1 yw galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi trefniadau llywodraethu newydd ar waith ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru (a all fod yn debyg i'r rhai y mae'r Bil yn eu cynnig ar gyfer y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol) tra'n parchu annibyniaeth weithredol Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai Atodlen 6 hefyd yn diwygio paragraffau 3 a 6 yn Rhan 2 o Atodlen 5 (sy'n nodi cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru) er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i addasu darpariaethau penodol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998") a darpariaethau Deddf 2006 sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2006 yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio deddfwriaeth a elwir yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("darpariaethau Deddfau'r Cynulliad") pe bai mwyafrif y rheini a oedd yn pleidleisio mewn refferendwm yng Nghymru yn pleidleisio o blaid (a bod Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn i ddechrau'r darpariaethau). Mae Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yn pennu'r pynciau y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio Deddfau mewn perthynas â hwy, a'r eithriadau i'r pynciau hynny. Mae Atodlen 6 yn diwygio paragraff 14 yn Rhan 1 o Atodlen 7 er mwyn ychwanegu "Archwilydd Cyffredinol Cymru" fel pwnc newydd, ac mae'n diwygio'r cyfyngiadau ym mharagraffau 2 a 5 yn Rhan 2 o Atodlen 7 i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i addasu Deddfau 1998 a 2006. Bydd hynny'n ychwanegu at y cymhwysedd a nodir yma eisoes - h.y. “Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities”.

**Cyd-destun**

6. Creodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 un corff archwilio cyhoeddus i Gymru, yn cwmpasu Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi, llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru. O ganlyniad, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyflawni rôl sy'n cyfateb i rôl y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiwn Archwilio yn Lloegr ond gyda rhai gwahaniaethau pwysig. Nid oes unrhyw gorff 'datganoledig' sy'n cyfateb yn uniongyrchol i'r Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus yng Nghymru, er bod Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru feddu ar Bwyllgor Archwilio (a elwir bellach yn Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus). Parhaodd swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn sgil cyflwyno Deddf 2006 gyda mân addasiadau gan gynnwys swyddogaethau newydd sy'n adlewyrchu newidiadau yn y setliad datganoli, megis rhoi cymeradwyaeth i godi arian o Gronfa Gyfunol Cymru ac archwilio cyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

7. Nodir darpariaethau manwl ynghylch penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff, eu statws, materion ariannol a phwerau cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn Atodlen 8 o Ddeddf 2006 ac, mewn perthynas â materion ariannol, Ran 5 o'r Ddeddf honno. Mae swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gorfforaeth undyn. Nid oes gan "Swyddfa Archwilio Cymru" unrhyw bersonoliaeth gyfreithiol ei hun. Term cyfunol ydyw a ddefnyddir i ddisgrifio Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff.

8. Penodir Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Ei Mawrhydi ar ôl iddo gael ei enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rheolir daliadaeth swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru gan baragraff 2 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006. Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol bendant sy'n rheoli naill ai hyd y penodiad neu'r nifer o weithiau y gall unigolyn fod yn y swydd honno ond gwneir y cyfryw ddarpariaeth yn y telerau ac amodau ar gyfer penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru.

9. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na reolaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth y Cynulliad. Nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn un o swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr un modd ag y mae'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol yn un o swyddogion Tŷ'r Cyffredin.

10. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn penodi staff, yn pennu eu telerau ac amodau ac yn meddu ar y pŵer i sicrhau y darperir gwasanaethau i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Telir y symiau sydd eu hangen at y dibenion hyn a threuliau eraill o gyllideb Archwilydd Cyffredinol Cymru, y caiff yr amcangyfrif ar eu cyfer ei ystyried (ac o bosibl ei addasu) gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â pharagraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 a'i gynnwys yn y cynnig cyllidebol cyffredinol blynyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (fel sy'n ofynnol o dan adran 125 o Ddeddf 2006).

11. Rhoddir pŵer i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn rhai achosion, ac mae'n ofynnol iddo mewn achosion eraill, godi ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon a chynnal arolygon ac archwiliadau, er enghraifft, i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ogystal ag unrhyw arian sydd ar gael drwy gynnig cyllidebol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 120(1) a (2) o Ddeddf 2006, gall rhai darpariaethau mewn deddfiadau roi'r awdurdod i Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan rai amgylchiadau, gadw derbynebau, er enghraifft, o ffioedd a godir at ddibenion penodol. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y pŵer hefyd i fenthyg arian i dalu am unrhyw wariant dros dro sy'n fwy nag incwm.

12. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n penodi archwilydd cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn pennu telerau ac amodau'r penodiad hwnnw. Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru dalu'r cyfryw gydnabyddiaeth ag y darperir ar ei chyfer yn nhelerau'r penodiad i'r archwilydd hwnnw. Mae archwilydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn eu cyflwyno, ar y cyd ag adroddiad yr archwilydd, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd, gall yr archwilydd hwnnw gynnal archwiliadau o ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi defnyddio adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau a gall yr archwilydd gyflwyno unrhyw adroddiad ar y cyfryw archwiliad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, sy'n cynnwys aelodau annibynnol, i'w gynghori ar y gwaith o reoli risg, rheoli a llywodraethu.

14. Mae angen rhoi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd gwell ar waith ar gyfer gweithrediad Archwilydd Cyffredinol Cymru. I'r perwyl hwn, mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cyflawni rôl oruchwylio, wedi cytuno i gynnal adolygiad o waith llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu cylch gorchwyl ffurfiol ar gyfer y cyfryw adolygiad ac mae wrthi'n ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Bydd yr adolygiad yn ystyried Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol Swyddfa Archwilio Cymru (a gomisiynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddechrau 2009, a gyhoeddwyd ar 8 Hydref 2009 ac y cyhoeddwyd diweddariad ar gynnydd mewn perthynas ag ef ar 7 Hydref 2010). Yn yr Adolygiad Cymheiriaid, nodwyd bod "lle i wella ac atgyfnerthu trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru heb gyfyngu ar annibyniaeth allweddol yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio pa bynnag bynciau a ddewisir ganddo, ac i wneud dyfarniadau archwilio annibynnol yn rhydd rhag ymyrraeth wleidyddol" (Argymhellion, paragraff 8).

15. Byddai'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir yn sgil y diwygiadau arfaethedig yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio deddfwriaeth sy'n moderneiddio trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni fyddai'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Archwilydd Cyffredinol Cymru yn destun cyfarwyddyd na reolaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, ni fyddai'r cyfyngiad hwnnw yn atal Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhag rhoi swyddogaethau sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru i un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (newydd neu bresennol) sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ac na chaiff ei gadeirio gan Aelod Cynulliad sy'n aelod o grŵp gwleidyddol a chanddo rôl weithredol.

**Cwmpas y Pwerau Arfaethedig**

16. Byddai'r cymhwysedd arfaethedig yn rhoi pwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru foderneiddio trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol er mwyn sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau i allu cyflawni ei swyddogaethau yn annibynnol.

17. Byddai'r pwerau a geisir yn creu Mater newydd 14.1, yn y maes gweinyddiaeth gyhoeddus yn Atodlen 5, i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu mewn perthynas â'r canlynol:

- telerau ac amodau cyflogaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â daliadaeth swydd a chydnabyddiaeth;
- y nifer o weithiau y gall unigolyn gael ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- cyfyngiadau ar y swyddi eraill y gall Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgymryd â hwy;
- gweithgareddau cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru geisio cyflawni swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn ffordd effeithlon a chost-effeithiol ac ystyried y safonau a'r egwyddorion a ddisgwylir gan gyfrifydd neu archwilydd arbenigol;
- awdurdodi personau i gyflawni swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ar ei ran;
- arolygu neu oruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ei swyddogaethau;
- darparu neu ddefnyddio adnoddau i ategu swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru gan gynnwys cyflogi a defnyddio staff; caffael a defnyddio gwasanaethau; cadw dogfennau neu wybodaeth; a chadw cofnodion;
- codi ffioedd a symiau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilwyr a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (megis archwilwyr a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o

dan adran 13(2) o Ddeddf Archwilio (Cymru) 2004 i archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru);

- ailddatgan unrhyw ddeddf sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

18. Byddai Mater 14.1 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud newidiadau i drefniadau llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru, a allai fod yn debyg i'r rheini a nodir yn Rhan 2 o'r Bil mewn perthynas â'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Er enghraifft, gallai'r ddarpariaeth a allai gael ei gwneud gan Fesur sy'n ymwneud â mater 14.1 gynnwys rhoi swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio neu gefnogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru, a nodi nifer yr aelodau, eu rolau a'u telerau penodi. Fodd bynnag, Cynulliad Cenedlaethol Cymru fyddai'n penderfynu ar natur unrhyw newidiadau.

19. Mae paragraff 4 o Atodlen 6 i'r Bil hefyd yn diwygio paragraffau 3 a 6 yn Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 ("Eithriadau i Faterion a Chyfyngiadau Cyffredinol"). Mae Rhan 2 o Atodlen 5 yn cynnwys cyfyngiadau ar y ddarpariaeth a all gael ei gwneud mewn Mesur Cynulliad. Os bydd darpariaeth Mesur yn torri unrhyw un o'r cyfyngiadau, mae hynny y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid yw'n gyfraith. Mae'r cyfyngiadau yn ddarostyngedig i eithriadau a nodir yn Rhan 3 o Atodlen 5.

20. Mae paragraff 4 yn gwneud newidiadau i baragraffau 3 a 6 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 a fyddai'n gymwys i unrhyw ddarpariaeth a all ddeillio o Fater newydd 14.1 (fel y disgrifir ym mharagraff newydd 3(3) o Ran 2 o Atodlen 5). Mewn perthynas â'r cyfryw ddarpariaeth, mae paragraff 4(2) yn datgymhwyso paragraff 3 o Ran 2 o Atodlen 5 (sy'n diogelu rhai deddfiadau eraill rhag cael eu diwygio) i'r graddau ag y mae'n berthnasol i ddarpariaethau penodol Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac mae paragraff 4(3) yn datgymhwyso paragraff 6(1) o Ran 2 (sy'n darparu na all Mesur Cynulliad addasu darpariaethau yn Neddf 2006). Effaith hyn yw y gall y cyfryw ddarpariaeth ddiwygio Deddf 2006 a darpariaethau penodol Deddf 1998 ar yr amod bod diben y ddarpariaeth yn ymwneud â'r pethau a restrir ym Mater 14.1 (neu, er enghraifft, ei fod o ganlyniad i'r cyfryw ddarpariaeth neu'n gysylltiedig â hi).

21. Fodd bynnag, mae paragraff 4(3) o Atodlen 6 i'r Bil yn darparu na all y cyfryw ddarpariaeth ddiwygio paragraff 3 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, sy'n diogelu annibyniaeth a statws Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae hefyd yn darparu mai dim ond i bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru nad yw'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, eu Dirprwyon na'r Cwnsler Cyffredinol (nac unrhyw un sy'n gweithredu ar eu rhan) ac nad yw'n cael ei gadeirio gan Aelod Cynulliad sy'n aelod o grŵp gwleidyddol a chanddo rôl weithredol, y gall darpariaeth y mae paragraff newydd 3(3) yn berthnasol iddi (h.y. darpariaeth sy'n deillio o Fater 14.1) roi rôl iddo. Mewn geiriau eraill, dim ond i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu bwyllgor arall sy'n annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad y gall Mesur roi rôl sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac sy'n effeithio ar annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru.

22. Byddai paragraff 6 o Atodlen 6 i'r Bil yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006, sy'n pennu'r pynciau y gall darpariaethau Deddfau'r Cynulliad ymwneud â hwy, drwy ychwanegu pwnc newydd "Archwilydd Cyffredinol Cymru" ym mharagraff 14

(gweinyddiaeth gyhoeddus). Mae paragraff 14 eisoes yn cynnwys y pwnc "Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities", a fyddai'n cwmpasu rhannau o gynnwys 14.1 yn Atodlen 5. Byddai'r pwnc newydd yn sicrhau y gallai Deddf Cynulliad wneud darpariaethau tebyg mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru i fater 14.1 yn Atodlen 5. Fodd bynnag, caiff ei eirio'n wahanol o ystyried y pynciau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn Atodlen 7 ac arddull ddrafftio fwy cyffredinol yr Atodlen honno.

23. Mae paragraff 7 o Atodlen 6 i'r Bil hefyd yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006, sy'n pennu cyfyngiadau ar gymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio Deddfau'r Cynulliad. Mae'r diwygiadau yn darparu ar gyfer eithriadau i'r gwaharddiadau ar allu Deddfau'r Cynulliad i addasu darpariaethau penodol o Ddeddfau 1998 a 2006, fel y nodir ym mharagraffau 2 a 5 o Ran 2[2]. Bydd yr eithriadau hyn yn golygu y gall Deddf Cynulliad addasu Atodlen 8 i Ddeddf 2006, sy'n ymdrin â swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac y gall Deddf Cynulliad addasu darpariaethau eraill Deddfau 1998 a 2006 os bydd diben y diwygiad yn ymwneud ag arolygu neu oruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn yr un modd â'r diwygiadau i Atodlen 5, mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (gweler paragraff 21 uchod).

24. Diben y diwygiadau i Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yw sicrhau, pe bai darpariaethau Deddf Cynulliad yn dod i rym, na fyddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn colli unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd gan fater 14.1 yn Atodlen 5.

**Cyfyngiadau daearyddol**

25. Mae Adran 94 o Ddeddf 2006 yn darparu bod darpariaeth Mesur Cynulliad y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru os nad yw'n gymwys ac eithrio o ran Cymru neu os yw'n rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n dileu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae Adran 108 yn gwneud yr un ddarpariaeth mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad. Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau ategol, er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur neu'r Ddeddf yn effeithiol, darpariaeth sy'n galluogi darpariaethau'r Mesur neu'r Ddeddf i gael eu gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

26. Mae'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â swyddogaethau heblaw y rhai sy'n ymwneud â Chymru yn golygu na fyddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu rhoi swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru drwy Fesur neu Ddeddf. Mae a wnelo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru â Chymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.

---

[2] Drafftiwyd y diwygiadau ym mharagraff 7(2) a 3(a) o Atodlen 6 i'r Bil er mwyn ystyried y diwygiadau eraill i baragraffau 2 a 5 yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006 a fyddai'n cael eu gwneud gan erthyglau 10 ac 11 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2010 drafft.

**Cyfyngiadau ar addasu a rhoi swyddogaethau**

27. Yn rhinwedd paragraff 1 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, a pharagraff 7 o Ran 3 o'r Atodlen honno, ni all Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Fesur newid na dileu swyddogaethau Gweinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (ac ni all greu unrhyw swyddogaethau newydd ar gyfer Gweinidog y Goron). Yn yr un modd, yn rhinwedd paragraffau 1 a 6 yn Rhannau 2 a 3 o Atodlen 7, ni all Deddf Cynulliad addasu na dileu swyddogaethau cyn-gychwyn[3] Gweinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol onid yw'r ddarpariaeth yn gysylltiedig â darpariaeth arall yn y Ddeddf Cynulliad neu o ganlyniad iddi; ac ni all Deddf Cynulliad roi na gosod swyddogaeth ar Weinidog y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw'r darpariaethau arfaethedig eu hunain yn addasu nac yn dileu unrhyw swyddogaeth a gaiff ei harfer gan Weinidog y Goron. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gyfer Mesurau neu Ddeddfau'r Cynulliad a all effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorid yn gyntaf ag Adrannau priodol Llywodraeth y DU gan geisio dod i gytundeb cyn i'r swyddogaethau hynny gael eu newid neu eu haddasu.

28 Yn rhinwedd paragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 5, a pharagraff 8 o Ran 3 o'r Atodlen honno, ni all darpariaeth Mesur Cynulliad addasu swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol oni cheir cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae paragraffau 4 a 7 yn Rhannau 2 a 3 o Atodlen 7 yn gosod yr un cyfyngiad ar Ddeddfau'r Cynulliad. Bydd paragraffau 26-28 o Atodlen 5 i'r Bil yn ehangu'r darpariaethau hyn yn Neddf 2006 i gwmpasu swyddogaethau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol newydd. Mae'r diwygiad canlyniadol hwn yn adlewyrchu'r ffaith, os caiff Rhan 2 o'r Bil ei deddfu, y bydd swyddogaethau penodol a gyflawnir gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn y dyfodol. Ni fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu addasu'r swyddogaethau hynny heb gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Hydref 2010**

Gellir gweld y Bil a'r nodiadau esboniadol cysylltiedig yn
http://services.parliament.uk/bills/2010-11/budgetresponsibilityandnationalaudithl.html

[3] Ystyr "swyddogaeth cyn-gychwyn" yw swyddogaeth a all gael ei harfer gan Weinidog y Goron cyn y diwrnod y daw darpariaethau Deddf Cynulliad i rym - gweler paragraff 1(3) o ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# Atodiad 2

## Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) Drafft

### Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad

Prif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru;
Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
Prif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru;
Prif Weithredwyr Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd Cymru;
Prif Swyddogion Tân Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru;
Prif Weithredwyr Awdurdodau Heddlu Cymru;
Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Prawf Cymru;
Prif Weithredwyr Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru;
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;
Comisiynydd Plant Cymru;
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
Prif Weithredwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;
Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru;
Prif Weithredwr Chwaraeon Cymru;
Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru;
Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru;
Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru;
Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg/Comisiynydd y Gymraeg;
Swyddog Cyfrifyddu Bwrdd Ardollau Cymru;
Ysgrifennydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;
Cyfarwyddwr Canolfan Iechyd Cymru;
Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru;
Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu Addysg Bellach ac Uwch;
Prif Weithredwr Un Llais Cymru;
Archwilydd Cyffredinol Cymru;
Prif Weithredwr y Cyngor Adrodd Ariannol;
Y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol;
Archwilydd Cyffredinol yr Alban;
Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon;
Prif Weithredwr y Comisiwn Archwilio;
Cyfarwyddwr Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru;
Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru;
Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
Prif Arolygydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
Ysgrifennydd Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;
Aelodau'r Cynulliad;
Swyddfa Cymru;
Trysorlys Ei Mawrhydi;

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol;
Y Swyddfa Gartref;
Llywodraeth yr Alban;
Cynulliad Gogledd Iwerddon;
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth;
Pennaeth Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, Cymru;
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, Cyfarwyddwr Cymru;
Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli

# Atodiad 3

## Cynigion ar gyfer Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon i Lywodraeth Cymru erbyn **15 Mai 2012.**

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion neu ymholiadau yw:

publicauditwalesact@wales.gsi.gov.uk

Dylid anfon ymatebion drwy'r post i:

Tîm Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Llywodraeth Cymru
Llawr Cyntaf Gogledd
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau: 029 2082 6270

**Eich enw:**

**Sefydliad (os yw'n berthnasol):**

**Cyfeiriad e-bost:**
**Rhif ffôn:**

**Eich cyfeiriad:**

| Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ynghylch y ffaith y bydd yr ACC yn dal y swydd am 7 mlynedd? Ydi hynny'n rhy hir, yn rhy fyr neu'n rhesymol? |
| --- |
| |

| Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno mai dim ond unwaith y caiff person fod yn ACC? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ynghylch gosod cyfyngiadau ar y swyddi, y gyflogaeth a'r gwasanaethau y gall person eu dal unwaith y mae'n rhoi'r gorau i fod yn ACC? |
|---|
| |

| Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno bod dwy flynedd yn gyfnod priodol ar gyfer y cyfyngiadau hyn? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 5: Ydych chi'n ystyried bod y drefn ar gyfer pennu'r trefniadau talu yn deg? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ynghylch sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol? |
|---|
| |

| Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno y dylai fod yna 7 aelod o'r SAC newydd? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 8: Beth yw eich barn ynghylch cyfansoddiad y SAC newydd? |
|---|
| |

| Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau penodi ac ailbenodi ar gyfer Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill y SAC newydd? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 10: Ydych chi'n ystyried bod cyfnod penodi cychwynnol yr aelodau anweithredol, sef hyd at dair blynedd, yn ddigonol? Os nad ydych chi, rhowch eich rhesymau. | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| | | | |

| Cwestiwn 11: A ddylai'r aelodau anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, fod yn gymwys i wasanaethau am fwy na dau dymor? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am y trefniadau talu ar gyfer Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill y SAC newydd? |
|---|
| |

| Cwestiwn 13: Beth yw eich barn ynghylch y ffaith y bydd y PCC yn gallu gosod cyfyngiadau ar Gadeirydd ac aelodau anweithredol SAC yn ystod eu cyfnod yn y swydd ac wedi hynny am gyfnod o hyd at ddwy flynedd? Ydych chi'n ystyried bod dwy flynedd yn ddigon? |
|---|
| |

| Cwestiwn 14: A oes yna unrhyw resymau eraill pam y dylid dod â phenodiad aelodau anweithredol neu'r Cadeirydd i ben? |
|---|
| |

| Cwestiwn 15: Beth yw eich barn ynghylch penodi aelod sy'n gyflogai o'r SAC newydd? Ydych chi'n cytuno â'r dull sy'n cael ei gynnig ar gyfer penodi'r person hwnnw? |
|---|
| |

| Cwestiwn 16: Ydych chi'n cytuno y dylai'r gweithdrefnau recriwtio a dethol a'r amodau cyflogaeth ar gyfer staff SAC ddilyn, yn fras, y rhai ar gyfer staff Llywodraeth Cymru? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 17: Beth yw eich barn am y pwerau o dan Atodlen 1, paragraff 26 mewn perthynas â darparu gwasanaethau. A yw'r pwerau hyn yn ddigon eang? Beth arall ddylid ei ychwanegu? |
| --- |
| |

| Cwestiwn 18: A ddylai fod yna ddyletswydd ar y  PCC i benodi swyddog cyfrifyddu y SAC newydd? | | | |
| --- | --- | --- | --- |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 19: A ddylai'r PCC gymeradwyo penodiad, telerau ac amodau archwilydd y SAC newydd? | | | |
| --- | --- | --- | --- |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 20: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r PCC ystyried yr amcangyfrif ac y dylai fod yn rhan o'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol? | | | |
| --- | --- | --- | --- |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 21: Beth yw eich barn am y ffaith y byddai gan y PCC y pŵer i graffu ar y cynllun blynyddol ac /neu ei gymeradwyo gyda diwygiadau neu heb ei ddiwygio? |
| --- |
| |

| Cwestiwn 22: Beth yw eich barn ynghylch rhoi'r grym i'r PCC i osod y cynllun blynyddol gerbron y Cynulliad, ac y gallai'r Cynulliad ei gymeradwyo gyda diwygiadau neu heb ei ddiwygio? |
| --- |
| |

| Cwestiwn 23: Beth yw eich barn am y dull sy'n cael ei gynnig i'r SAC newydd benderfynu ar uchafswm yr adnoddau a ragwelir i'w dyrannu i'r ACC newydd? |
| --- |
| |

| Cwestiwn 24: Ydych chi'n ystyried bod y dull o ryddhau adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r ACC newydd yn briodol? | | | |
| --- | --- | --- | --- |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 25: Beth yw eich barn am y ffaith y byddai'r SAC newydd yn monitro ac yn cynghori'r ACC newydd? |
| --- |
| |

| Cwestiwn 26: A ddylai'r SAC newydd gymeradwyo cynllun dirprwyo yr ACC newydd? | | | |
| --- | --- | --- | --- |
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 27: Beth yw eich barn am y syniad o'i gwneud yn ofynnol i'r ACC newydd a'r SAC newydd baratoi adroddiadau interim ac adroddiadau blynyddol? |
|---|
| |

| Cwestiwn 28: Beth yw eich barn ynghylch y ffaith y bydd gan y PCC rôl graffu mewn perthynas â'r adroddiadau hyn? |
|---|
| |

| Cwestiwn 29: Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer dynodi person i arfer swyddogaethau ACC dros dro? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Unrhyw sylwadau? Os mai 'na ddylid' oedd eich ateb, dywedwch pam eich bod wedi rhoi'r ateb hwnnw. | | | |

| Cwestiwn 30: A ddylid rhoi dyletswydd ar y SAC newydd, neu roi'r pŵer iddo, i godi ffi mewn perthynas ag unrhyw archwiliad, astudiaeth ac ati gan yr ACC newydd mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol yng Nghymru? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Unrhyw sylwadau? Os mai 'na ddylid' oedd eich ateb, dywedwch pam eich bod wedi rhoi'r ateb hwnnw. | | | |

| Cwestiwn 31: Nodwch unrhyw faterion eraill yr ydych chi'n credu y dylid eu cynnwys yn y rhestr o eithriadau yng nghymal 23(2)? |
|---|
| |

| Cwestiwn 32: Ydych chi'n cytuno, mewn egwyddor, â symleiddio'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau archwilio ariannol a gwerth am arian ACC? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 33: Beth yw eich barn ynghylch y cynigion yng nghymalau 28 i 30? |
|---|
| |

| Cwestiwn 34: Ai'r ACC newydd ddylai fod yn archwilydd statudol ar gyfer Corfforaethau Addysg Uwch ac/neu Gorfforaethau Addysg Bellach? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 35: Beth yw eich barn am y cynigion yng nghymalau 40 i 42? |
|---|
| |

| Cwestiwn 36: Rhowch fanylion unrhyw gyrff neu swyddi a sefydlwyd o dan offeryn uchelfreiniol megis Siarteri neu Warantau Brenhinol yr ydych chi'n credu y dylid eu cynnwys yn y rhestr yn Nhabl 1 yng nghymal 30? |
|---|
| |

| Cwestiwn 37: A ydych chi'n cytuno mai'r ACC newydd ddylai fod yn archwilydd ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 38: A ydych chi'n cytuno â'r dyletswyddau archwilio cyffredinol (gan gynnwys yr ystyriaeth o drefniadau gwerth am arian) sydd i'w rhoi ar yr ACC newydd? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 39: Mewn perthynas â chymal 70 – a fydd unrhyw beth o bwys yn mynd ar goll os na fydd y Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer "hyrwyddo" astudiaethau wrth iddo gael ei gyflwyno? |
|---|
| |

| Cwestiwn 40: Yn eich barn chi, a oes unrhyw wahaniaeth gwirioneddol i'r perwyl hwn rhwng "astudiaeth" (examination) ac "astudio" (study)? |
|---|
| |

| Cwestiwn 41: A ddylai fod yna god ar wahân ar gyfer paru data neu a fyddai'n fwy priodol fel adran o fewn y Cod Ymarfer Archwilio a ddisgrifir yng nghymal 87? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 42: A ddylai pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 85 fod yn amodol ar ofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru a chael eu caniatâd nhw lle mae hynny'n effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 43: Beth yw eich barn am y safbwynt na ddylai'r Cynulliad bellach gael ei rymuso i gymeradwyo cod ymarfer archwilio'r ACC newydd? |
|---|
| |

| Cwestiwn 44: A ddylai fod yn ddyletswydd ar yr ACC newydd i osod ei god ymarfer archwilio gerbron y Cynulliad? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 45: A ddylai'r cod fod yn berthnasol i swyddogaethau ardystio ac ati yr ACC newydd, o dan gymal 86 a/neu hawliau mynediad yr ACC newydd at ddogfennau ac ati dan gymalau 88 a 89? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 46: Beth yw eich barn chi am gael darpariaeth unigol sy'n cwmpasu hawliau mynediad yr ACC newydd at ddogfennau a gwybodaeth o fewn y sector cyhoeddus? |
|---|
| |

| Cwestiwn 47: A ddylai'r ddarpariaeth droseddau fod yn berthnasol mewn unrhyw achos pan fydd yr ACC newydd yn arfer y pŵer i gael mynediad at ddogfennau ac ati, nid yn unig mewn achosion llywodraeth leol? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 48: Mewn egwyddor, a ddylai fod yna ddyletswydd bendant ar yr ACC newydd i gynnal astudiaethau datblygu cynaliadwy? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | |

| Cwestiwn 49: Os nad ydych yn cytuno â'r egwyddor, eglurwch pam. |
|---|
| |

| Cwestiwn 50: Os ydych yn cytuno â'r egwyddor, a ydych o'r farn y dylid cynnig y ddyletswydd yn y Bil hwn neu'n ddiweddarach mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â datblygu cynaliadwy? |
|---|
| |

**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

[DRAFFT YMGYNGHORI]

## CYNNWYS

*Cyflwyniad*

1 Trosolwg

**RHAN 1**

SEFYDLIADAU ARCHWILIO CYHOEDDUS CENEDLAETHOL

**PENNOD 1**

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

2 Swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad
4 Cyflogaeth etc cyn Archwilydd Cyffredinol
5 Statws etc
6 Anghymhwyso
7 Talu cydnabyddiaeth

**PENNOD 2**

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

*Cyffredinol*

8 Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru
9 Effeithlonrwydd
10 Gwariant
11 Benthyg

*Cynllun blynyddol*

12 Cynllun Blynyddol
13 Cynllun Blynyddol: adnoddau i'w dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol
14 Cynllun blynyddol: gweithdrefn y Cynulliad Cenedlaethol
15 Cynllun blynyddol: effaith

*Archwilydd Cyffredinol*

16 Darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol
17 Y berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol

*Ffioedd*

18 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd
19 Ffioedd a godir ar gyrff llywodraeth leol
20 Ffioedd am baru data
21 Pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd
22 Cynllun ar gyfer codi ffioedd

**RHAN 2**

ARCHWILIO CYHOEDDUS A SWYDDOGAETHAU GWERTH AM ARIAN

**PENNOD 1**

ARFER SWYDDOGAETHAU

23 Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer
24 Pwerau Atodol
25 Pwerau eraill
26 Trosglwyddo etc swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol
27 Trosglwyddo etc swyddogaethau Gweinidogion Cymru

**PENNOD 2**

GWEINIDOGION CYMRU, COMISIWN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL A CHYRFF CYHOEDDUS CYMREIG ERAILL

*Archwilio cyfrifon*

28 Gweinidogion Cymru
29 Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol
30 Cyrff cyhoeddus Cymreig eraill sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio
31 Cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio o dan adran 30: cyfyngiadau
32 Archwilio cyfrifon cryno Cyrff GIG Cymru
33 Archwilio cyfrifon swyddogion cyrff GIG Cymru
34 Archwilio corfforaethau addysg bellach ac uwch
35 Archwilio corfforaethau addysg bellach ac uwch: pwerau'r Archwilydd Cyffredinol
36 Ystyr corfforaeth addysg bellach a chorfforaeth addysg uwch

*Darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud ag archwilio cyrff o dan y Bennod hon*

37 Cynnwys cyfrifon a datganiad o gyfrifon
38 Cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â chyfrifon a datganiad o gyfrifon
39 Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: archwilio cyfrifon

*Astudiaethau gwerth am arian*

40 Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: astudiaethau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd
41 Personau ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'w hastudio
42 Cyrff addysg sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio ar gais

*Darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud ag astudiaethau*

43 Safbwyntiau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad
44 Adroddiadau ar astudiaethau
45 Adroddiadau er budd y cyhoedd

*Addasu'r cyrff sy'n ddarostyngedig i archwiliad ac astudiaeth*

46 Addasu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i archwiliad neu astudiaeth
47 Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am adroddiadau
48 Pŵer i ddynodi swyddogion cyfrifyddu

**PENNOD 3**

LLYWODRAETH LEOL CYMRU

*Ystyr "cyrff llywodraeth leol"*

49 Cyrff llywodraeth leol

*Archwilio cyfrifon*

50 Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol
51 Dyletswyddau cyffredinol wrth archwilio cyfrifon

*Adroddiadau ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol*

52 Adroddiadau di-oed ac adroddiadau eraill er budd y cyhoedd
53 Adroddiad cyffredinol
54 Ystyried adroddiadau er budd y cyhoedd
55 Y weithdrefn i ystyried adroddiadau ac argymhellion
56 Cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd o dan adran 55
57 Cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau di-oed
58 Cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau nad ydynt yn ddi-oed

*Y cyhoedd yn cael edrych ar ddogfennau etc a chamau gweithredu gan yr Archwilydd Cyffredinol*

59 Edrych ar ddatganiadau o gyfrifon ac adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol
60 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau adeg yr archwilio
61 Yr hawl i wrthwynebu adeg yr archwilio
62 Datgan bod eitem cyfrif yn anghyfreithlon

*Atal gwariant anghyfreithlon*

63 Hysbysiadau cynghori
64 Effaith hysbysiad cynghori
65 Hysbysiadau cynghori : achosion cyfreithiol
66 Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i hawlio adolygiad barnwrol
67 Archwilio eithriadol
68 Archwilio cyfrifon swyddogion
69 Rheoliadau cyfrifon ac archwilio

*Astudiaethau gwerth am arian*

70 Astudiaethau i wella darbodaeth etc mewn gwasanaethau
71 Astudiaethau ar effaith darpariaethau statudol etc
72 Cydweithio â'r Comisiwn Archwilio
73 Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol

*Safonau perfformio*

74 Safonau perfformio: cyrff perthnasol
75 Cyhoeddi gwybodaeth o ran safonau perfformio
76 Dulliau o gyhoeddi gwybodaeth a ganiateir o dan adran 75
77 Cyfarwyddiadau o dan adran 75 mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth
78 Dehongli Pennod 3

**PENNOD 4**

PARU DATA

79 Pŵer i gynnal ymarferion paru data
80 Darparu data gorfodol
81 Darparu data gwirfoddol
82 Datgelu canlyniadau paru data etc
83 Cyhoeddi
84 Cod ymarfer paru data
85 Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol

**PENNOD 5**

SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL: ATODOL

86 Ardystio hawliadau, ffurflenni etc
87 Cod ymarfer archwilio
88 Hawliau i ddogfennau a gwybodaeth etc
89 Hawliau i ddogfennau a gwybodaeth: troseddau
90 Cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol
91 Astudiaethau gweinyddu budd-dal ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol
92 Cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth
93 Cydsyniad o dan adran 92
94 Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflenwi gwybodaeth budd-daliadau i'r Archwilydd Cyffredinol

95 Dogfennau sy’n ymwneud ag awdurdodau heddlu [â chomisiynwyr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid]
96 Darparu gwybodaeth i’r Comisiwn Archwilio

**RHAN 3**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

97 Y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol
98 Indemnio
99 Gorchmynion a rheoliadau
100 Cyfarwyddiadau
101 Dehongli
102 Darpariaethau trosiannol ac atodol
103 Diddymiadau a mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
104 Cychwyn
105 Enw byr

Atodlen 1 — Corffori Swyddfa Archwilio Cymru
Rhan 1 — Aelodaeth a statws
Rhan 2 — Aelodau anweithredol
Rhan 3 — Yr archwilydd cyffredinol
Rhan 4 — Aelod sy’n gyflogai
Rhan 5 — Cyflogeion
Rhan 6 — Rheolau gweithdrefnol
Rhan 7 — Materion eraill
Atodlen 2 — Y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a SAC
Rhan 1 — Cydweithio wrth adfer swyddogaethau
Rhan 2 — Person arall, dros dro, yn arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol

# Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

[DRAFFT YMGYNGHORI]

Bil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth i ddiwygio trefniadau archwilio yng Nghymru; i ragnodi y bydd swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau, ac i greu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru; i roi a chydgrynhoi swyddogaethau archwilio cyfrifon; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Wedi iddo gael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Cyflwyniad*

**1 Trosolwg**

Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf hon—

(a) yn rhagnodi y bydd swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau ar y telerau a nodir yn Rhan 1, Pennod 1;

(b) yn creu corff corfforaethol newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru ac yn rhoi swyddogaethau iddo (Rhan 1, Pennod 2 ac Atodlenni 1 a 2);

(c) yn rhagnodi trefniadau llywodraethu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys trefniadau ar gyfer arolygiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru, a darpariaethau eraill yn ymwneud â'r berthynas rhwng y ddau (Rhan 1, Pennod 2 ac Atodlenni 1 a 2);

(d) yn rhagnodi sut y mae swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w harfer, a rhoi pwerau iddo sy'n galluogi iddynt gael eu harfer a galluogi cydweithrediad rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a phersonau priodol eraill (Rhan 2, Penodau 1 a 5).

(e) yn rhoi swyddogaethau i Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys—

   (i) archwilio cyfrifon Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol a chyrff cyhoeddus Cymreig penodol eraill, ac astudio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cyrff hynny o ran y ffordd y maent yn cyflawni'u swyddogaethau (Rhan 2, Pennod 2);

   (ii) cydgrynhoi swyddogaethau presennol mewn perthynas ag archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, ac astudio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cyrff hynny o ran y ffordd y maent yn cyflawni'u swyddogaethau (Rhan 2, Pennod 3);

   (iii) cydgrynhoi swyddogaethau presennol mewn perthynas â chynnal ymarferion paru data at ddibenion cynorthwyo atal a datgelu twyll yng Nghymru (Rhan 2, Pennod 4).

(f) yn darparu mecanwaith i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddarparu cyngor, i adrodd, ac i wneud argymhellion mewn perthynas â materion sy'n codi yng nghwrs arfer ei swyddogaethau (Rhan 2).

(g) yn rhagnodi bod rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyroddi cod ymarfer

archwilio (Rhan 2, Pennod 5) a chod ymarfer paru data (Rhan 2, Pennod 4).

# RHAN 1

## Sefydliadau Archwilio Cyhoeddus Cenedlaethol

## PENNOD 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

**2 Swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru**

(1) Bydd swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr "Archwilydd Cyffredinol") yn parhau.

(2) Ei Mawrhydi sydd i benodi person i fod yn Archwilydd Cyffredinol ar enwebiad y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Nid oes enwebiad i gael ei wneud hyd nes bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ei fodloni bod ymgynghoriad rhesymol wedi cael ei wneud gyda'r cyrff hynny yr ymddengys i'r Cynulliad eu bod yn cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

(4) Mae'r person sydd wedi ei benodi yn dal y swydd am 7 mlynedd.

(5) Ni chaniateir i'r person gael ei benodi eto.

(6) Ni effeithir ar ddilysrwydd gweithred person a benodwyd yn Archwilydd Cyffredinol gan ddiffyg yn enwebiad neu benodiad y person hwnnw.

**3 Ymddiswyddiad neu ddiswyddiad**

(1) Mae person a benodir yn Archwilydd Cyffredinol yn dal y swydd tan ddiwedd y cyfnod y penodwyd y person hwnnw ar ei gyfer.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4).

(3) Caiff Ei Mawrhydi ryddhau person o'r swydd cyn diwedd y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer—

(a) ar gais y person, neu

(b) wedi i'w Mawrhydi gael ei bodloni nad yw'r person yn gallu, oherwydd rhesymau meddygol, cyflawni dyletswyddau'r swydd, a'i fod wedi gwneud cais i gael ei ryddhau ohoni.

(4) Caiff Ei Mawrhydi ddiswyddo person o'i swydd cyn diwedd y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer ar dderbyn argymhelliad, ar sail camymddygiad y person, y dylai Ei Mawrhydi wneud hynny.

(5) Ni chaniateir gwneud argymhelliad i ddiswyddo person o'r swydd oni bai—

(a) bod y Cynulliad wedi penderfynu y dylai'r argymhelliad gael ei wneud, a

(b) bod penderfyniad y Cynulliad wedi ei basio ar bleidlais lle yr oedd nifer yr aelodau Cynulliad a bleidleisiodd o'i blaid yn ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Cynulliad.

**4 Cyflogaeth etc cyn Archwilydd Cyffredinol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson a oedd wedi ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol

o dan y Rhan hon, ond nad yw bellach yn y swydd honno.

(2) Cyn gwneud y canlynol—

(a) cymryd swydd o ddisgrifiad a bennir gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, neu

(b) ymrwymo i gytundeb neu drefniant arall o ddisgrifiad a bennir gan y Pwyllgor,

rhaid i'r person ymgynghori â'r Pwyllgor ac unrhyw berson a bennir gan y Pwyllgor.

(3) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o'r canlynol—

(a) y swyddi a bennir gan y Pwyllgor at ddibenion is-adran (2)(a);

(b) y cytundebau neu drefniadau eraill a bennir gan y Pwyllgor at ddibenion is-adran (2)(b).

(4) Mae is-adrannau (5) a (6) yn gymwys am gyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r person yn peidio â bod yn Archwilydd Cyffredinol.

(5) Rhaid i'r person beidio â gwneud y canlynol—

(a) dal swydd y caniateir i berson gael ei benodi iddi, ei argymell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer gan neu ar ran—

(i) y Goron,

(ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu

(iii) Comisiwn y Cynulliad.

(b) bod yn aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai corff neu berson arall y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer swyddogaethau o dan Ran 2 mewn perthynas ag ef.

(6) Rhaid i'r person beidio â darparu gwasanaethau, mewn unrhyw swyddogaeth, i'r canlynol—

(a) y Goron, neu unrhyw gorff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y Goron,

(b) y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw gorff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y Cynulliad Cenedlaethol,

(c) Comisiwn y Cynulliad neu unrhyw gorff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y Comisiwn, neu

(d) corff neu berson arall y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer swyddogaethau o dan Ran 2 mewn perthynas ag ef.

(7) Ond nid yw is-adrannau (5) a (6) yn atal person rhag dal unrhyw un o'r swyddi canlynol—

(a) Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol;

(b) Archwilydd Cyffredinol yr Alban;

(c) Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

**5 Statws etc**

(1) Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i gael ei adnabod wrth yr enw hwnnw ac i fod yn gorfforaeth undyn.

(2) Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol i'w ystyried yn dal swydd o dan Ei Mawrhydi neu'n un sy'n arfer unrhyw swyddogaeth ar ran y Goron.

Ond ystyrir bod yr Archwilydd Cyffredinol yn was i'r Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

**6 Anghymhwyso**

(1) Ni all person gael ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person wedi ei anghymhwyso ar y seiliau a bennir yn is-adran (3).

(2) Mae person yn peidio â bod yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person yn cael ei anghymhwyso ar y seiliau a bennir yn is-adran (3).

(3) Mae person wedi ei anghymhwyso fel Archwilydd Cyffredinol os yw'r person—

(a) yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) yn dal unrhyw swydd arall y caniateir i berson gael ei benodi iddi, neu ei argymell ar ei chyfer neu ei enwebu iddi, gan neu ar ran y canlynol—

(i) y Goron

(ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu

(iii) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi;

(d) Aelod o Senedd yr Alban;

(e) Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon;

(f) cyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru.

**7 Talu cydnabyddiaeth**

(1) Cyn i berson gael ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol, bydd trefniadau ar gyfer tâl cydnabyddiaeth yn cael eu gwneud o ran y person hwnnw gan y person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Ond cyn gwneud y trefniadau hynny rhaid i'r person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â'r Prif Weinidog a'r person sy'n gadeirydd ar Gomisiwn y Cynulliad.

(3) Caiff trefniadau ar gyfer tâl cydnabyddiaeth—

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer cyflog, lwfansau, arian rhodd a buddion eraill, a threfniadau ar gyfer pensiwn, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

(4) Ond ni fydd unrhyw elfen yn seiliedig ar berfformiad.

(5) Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol dalu i'r Gweinidog dros y Gwasanaeth Sifil, ar yr adegau hynny a benderfynir gan y Gweinidog, daliadau o'r symiau hynny y bydd yn penderfynir arnynt o ran y canlynol—

(a) darparu pensiynau, lwfansau, rhoddion ariannol neu fuddion eraill yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 i, neu mewn perthynas ag, unrhyw berson sydd yn dal swydd yr Archwilydd Cyffredinol neu sydd wedi peidio â dal y swydd honno, a

(b) y treuliadau yr aed iddynt drwy weinyddu'r pensiynau hynny, y lwfansau hynny, y rhoddion ariannol hynny neu'r buddion eraill hynny.

(6) Bydd symiau sy'n daladwy yn rhinwedd yr adran hon yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu talu ohoni.

## PENNOD 2

### Swyddfa Archwilio Cymru

*Cyffredinol*

**8 Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru**

(1) Bydd corff corfforaethol o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC").

(2) Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â SAC.

**9 Effeithlonrwydd**

Rhaid i SAC anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a chost-effeithlon.

**10 Gwariant**

(1) Am bob blwyddyn ariannol rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wneud y canlynol ar y cyd—

(a) darparu amcangyfrif o incwm a gwariant SAC, a

(b) cyflwyno'r amcangyfrif i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i bob amcangyfrif ymdrin (ymhlith pethau eraill) â'r adnoddau sy'n ofynnol at ddibenion adran 16 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i SAC ddarparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol).

(3) Rhaid i bob amcangyfrif gael ei gyflwyno i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymdrin â hi.

(4) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol—

(a) astudio pob amcangyfrif a gyflwynir iddo, a

(b) gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gydag unrhyw addasiadau y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried yn briodol.

(5) Cyn gosod amcangyfrif gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gydag unrhyw addasiadau, rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wneud y canlynol—

(a) ymgynghori â SAC a'r Archwilydd Cyffredinol, a

(b) rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wneir gan y naill neu'r llall.

**11 Benthyg**

Caiff SAC fenthyg symiau mewn sterling (ar ffurf gor-ddrafft neu fel arall) i'w cymhwyso at y diben o gyfarfod gorwariant dros dro dros symiau sydd ar gael i'w gyfarfod fel arall.

*Cynllun blynyddol*

**12 Cynllun Blynyddol**

(1) Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC gytuno ar gynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r cynllun blynyddol nodi'r canlynol ar gyfer y flwyddyn ariannol—

(a) rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol;

(b) rhaglen waith SAC;

(c) yr adnoddau sydd ar gael, ac a all ddod ar gael, i SAC;

(d) sut y mae'r adnoddau sydd ar gael yn mynd i gael eu defnyddio er mwyn ymgymryd â rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol;

(e) sut y mae'r adnoddau sydd ar gael yn mynd i gael eu defnyddio er mwyn ymgymryd â rhaglen SAC;

(f) yr uchafswm, allan o'r o adnoddau sydd ar gael, y rhagwelir y bydd SAC yn dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol at y diben o ymgymryd â rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol.

(3) Yn y Bennod hon—

ystyr "rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol" yw blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon;

ystyr "rhaglen waith SAC" yw blaenoriaethau'r SAC wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon

**13 Cynllun Blynyddol: adnoddau i'w dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol**

(1) Mae is-adrannau (2) i (4) yn nodi'r weithdrefn i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC gytuno ar uchafswm o adnoddau y rhagwelir y byddant yn cael eu dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol, i'w gynnwys yn y cynllun blynyddol.

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno datganiad ar gyfer blwyddyn ariannol i SAC yn nodi'r canlynol—

(a) rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol;

(b) amcangyfrif o'r uchafswm adnoddau sy'n ofynnol i ymgymryd â'r rhaglen.

(3) Caiff SAC naill ai—

(a) cytuno'r datganiad a chorffori'r cynnwys i'r cynllun blynyddol, neu

(b) gwrthod y datganiad, neu wrthod rhan ohono a gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ailystyried a chyflwyno datganiad diwygiedig neu ran diwygiedig ohono.

(4) Ond dim ond os yw SAC yn ystyried bod y datganiad, neu unrhyw ran ohono, yn afresymol y caiff wrthod y datganiad.

**14 Cynllun blynyddol: gweithdrefn y Cynulliad Cenedlaethol**

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a'r person sy'n gadeirydd SAC wneud y canlynol—

(a) cyflwyno'r cynllun blynyddol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad

Cenedlaethol;

(b) gosod y cynllun gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi'r cynllun blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cynllun gael ei gyflwyno iddo.

**15 Cynllun blynyddol: effaith**

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol a SAC i gael eu rhwymo gan y cynllun blynyddol, ond rhaid iddynt roi sylw dyladwy iddo wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys mewn perthynas â darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol gan SAC o dan adran 16 (ond nid yn gyfyngedig i hynny).

*Archwilydd Cyffredinol*

**16 Darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol**

(1) Rhaid i SAC ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(2) Yn benodol, mae SAC yn gyfrifol am—

(a) cyflogi staff i gynorthwyo arfer y swyddogaethau hynny,

(b) sicrhau gwasanaethau gan unrhyw berson at ddibenion y swyddogaethau hynny,

(c) dal eiddo at ddibenion arfer y swyddogaethau hynny,

(d) dal dogfennau neu wybodaeth a gaffaeliwyd neu a gynhyrchwyd yn ystod, neu at ddibenion, arfer y swyddogaethau hynny (gweler paragraff 4 o Atodlen 2), ac

(e) cadw cofnodion mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny, fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(3) Ond mae'r ymrwymiad ar SAC i ddarparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) i (6).

(4) Yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol caiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud un cais neu ragor am adnoddau gan SAC.

(5) Rhaid i gais am adnoddau bennu'r canlynol—

(a) y diben neu'r dibenion y mae'r adnoddau'n ofynnol ar eu cyfer;

(b) amcangyfrif o'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

(6) Dim ond os yw SAC yn ystyried bod y diben neu'r dibenion a bennir, neu'r amcangyfrif o adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y diben neu'r dibenion hynny yn afresymol y caiff wrthod y cais.

**17 Y berthynas â'r Archwilydd Cyffredinol**

(1) Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn brif weithredwr ar SAC (ond nid yn gyflogai iddi).

(2) Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch y berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a SAC.

*Ffioedd*

**18 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd**

(1) Caiff SAC, yn unol â chynllun a baratowyd o dan adran 22, godi ffi mewn perthynas ag arfer unrhyw un o'r swyddogaethau canlynol gan yr Archwilydd Cyffredinol—

(a) ardystio neu adrodd o dan drefniant a wneir o dan adran 25(3) (cytundebau rhwng person a naill ai Gweinidogion Cymru neu unrhyw un o Weinidogion y Goron, er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r person hwnnw);

(b) astudio ac ardystio cyfrifon person o dan adran 39 (cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, corff cyhoeddus o dan adran 30, swyddog corff GIG Cymru, a chorfforaethau addysg bellach ac uwch);

(c) astudiaeth o dan adran 40 (sy'n ymwneud â darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person wrth gyflawni ei swyddogaethau) ar gais y person (ond yn achos corff addysg a restrir yn adran 42, gweler is-adran (2)(a));

(d) trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau o dan baragraff 26 o Atodlen 1.

(2) Rhaid i SAC, yn unol â chynllun a baratowyd o dan adran 22, godi ffi mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau canlynol gan yr Archwilydd Cyffredinol—

(a) archwiliad o dan adran 40 i gorff addysg a restrir yn adran 42;

(b) ardystio hawliadau, ffurflenni etc o dan adran 86;

(c) cynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth gweinyddu budd-dal o dan adran 91.

(3) Mae ffioedd a godir o dan yr adran hon yn daladwy i SAC gan y person y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

(4) Ni chaiff SAC godi ffi ar y person sydd yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaethau.

**19 Ffioedd a godir ar gyrff llywodraeth leol**

(1) Rhaid i SAC, yn unol â chynllun a baratowyd o dan adran 22, godi ffi o ran y swyddogaethau y'u harferir gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol o dan Bennod 3 o Ran 2, ac wrth ymgymryd ag astudiaeth ar gais corff llywodraeth leol o dan adran 73.

(2) Rhaid i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau hynny.

(3) Cyn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd rhaid i SAC ymgynghori â'r canlynol—

(a) unrhyw gymdeithasau awdurdodau lleol yng Nghymru yr ymddengys i SAC eu bod â wnelont â'r peth;

(b) unrhyw bersonau eraill y gwêl SAC yn dda i ymgynghori â hwy.

(4) Rhaid i gorff awdurdod lleol, yn ddarostyngedig i is-adran (5), dalu'r ffi gymwys i SAC, yn unol â'r raddfa briodol, o ran swyddogaeth sydd wedi ei harfer.

(5) Os yw'n ymddangos i SAC bod y gwaith o arfer swyddogaeth benodol yn llawer mwy neu'n llawer llai, neu ei fod wedi bod yn llawer mwy neu'n llawer llai, nac y rhagwelwyd gan y raddfa briodol, caiff SAC godi ffi fwy neu ffi lai na'r un y cyfeirir ati yn is-adran (4).

**20 Ffioedd am baru data**

(1) Caiff SAC, yn unol â chynllun a baratowyd o dan adran 22, godi ffi mewn perthynas ag ymarfer paru data a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Bennod 4 o Ran 2.

(2) Rhaid i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o ran ymarferion paru data.

(3) Cyn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd rhaid i SAC ymgynghori â'r canlynol—

(a) y cyrff a grybwyllir yn adran 80(2), a

(b) unrhyw bersonau eraill y gwêl SAC yn dda i ymgynghori â hwy.

(4) Rhaid i gorff y mae'n ofynnol iddo ddarparu data o dan adran 80(1) ar gyfer ymarfer paru data, dalu'r ffi gymwys i SAC o ran yr ymarfer hwnnw yn unol â'r raddfa briodol.

(5) Ond os yw'n ymddangos i SAC bod y gwaith o arfer swyddogaeth benodol yn llawer mwy neu'n llawer llai, neu ei fod wedi bod yn llawer mwy neu'n llawer llai, nag y rhagwelwyd gan y raddfa briodol, caiff SAC godi ffi fwy neu ffi lai na'r un y cyfeirir ati yn is-adran (4).

(6) Yn ychwanegol at y pŵer o dan is-adran (1), caiff SAC godi ffi ar unrhyw berson arall sy'n darparu data ar gyfer ymarfer paru data, neu sy'n derbyn canlyniadau ymarfer paru data (bydd y ffi honno'n daladwy yn unol â'r telerau y cytunir arnynt rhwng SAC â'r person hwnnw).

**21 Pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodir gan SAC o dan adran 20.

(2) Mae graddfa ffioedd a ragnodir o dan is-adran (1) yn cael effaith am y cyfnod a bennir mewn perthynas â hi yn y rheoliadau.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys os—

(a) yw graddfa yn cael ei rhagnodi o dan is-adran (1) yn lle'r raddfa a ragnodwyd gan SAC, a

(b) mai'r raddfa a ragnodwyd gan SAC, fel arall, fyddai'r raddfa briodol at ddibenion adran 20.

(4) Mae cyfeiriadau at y raddfa briodol yn adran 20 i'w darllen fel cyfeiriadau at y raddfa a ragnodwyd o dan is-adran (1).

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) SAC, a

(b) unrhyw bersonau eraill y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda i ymgynghori â hwy.

**22 Cynllun ar gyfer codi ffioedd**

(1) Dim ond yn unol â chynllun a baratowyd gan SAC y caniateir codi ffioedd sy'n daladwy o dan adrannau 18 i 20.

(2) Caiff cynllun gynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol.

(3) Mewn perthynas â ffioedd taladwy o dan adran 19 neu adran 20—

(a) rhaid i'r cynllun gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd o dan

adran 19 neu adran 20, a

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn rhagnodi ffi o dan adran 21, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i fewnosod y ffi a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r ffi gyfatebol a ragnodwyd o dan adran 20.

(4) Rhaid i SAC—

(a) cyflwyno'r cynllun i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w gymeradwyo, a

(b) cyhoeddi'r cynllun os yw'n cael ei gymeradwyo.

(5) Rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr.

(6) Caiff SAC ddiwygio neu ail wneud y cynllun, ond rhaid i unrhyw ddiwygio neu ail wneud gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, a rhaid i'r cynllun gael ei gyhoeddi fel y'i ddiwygir neu y'i hail wneir.

Ond nid oes rhaid cael cymeradwyaeth os yw'r diwygio'n cael ei wneud i fewnosod graddfa ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 21 yn unig.

(7) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol osod y cynllun (fel y'i ddiwygiwyd pan fo hynny'n gymwys) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(8) Rhaid i ffioedd a symiau eraill sy'n cael eu derbyn gan yr Archwilydd Cyffredinol gael eu talu i SAC.

## RHAN 2

## ARCHWILIO CYHOEDDUS A SWYDDOGAETHAU GWERTH AM ARIAN

### PENNOD 1

### ARFER SWYDDOGAETHAU

**23 Sut y mae swyddogaethau i gael eu harfer**

(1) Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr wrth arfer ei swyddogaethau ac nid yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth y Cynulliad.

(2) Ond mae'r disgresiwn hwn yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) i (6).

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a chost-effeithlon.

(4) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, fel y mae'n ystyried yn briodol, roi ystyriaeth i'r safonau a'r egwyddorion y disgwylir i ddarparwr arbenigol proffesiynol mewn cyfrifyddiaeth neu wasanaethau archwilio eu dilyn.

(5) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gymryd barn Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad i ystyriaeth yn yr amgylchiadau a ragnodwyd gan—

(a) adrannau 25(4) (astudiaethau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflawni swyddogaethau etc y dylai'r Archwilydd Cyffredinol eu gwneud yn unol â chytundebau yr ymrwymwyd iddynt gyda Gweinidogion Cymru neu Weinidog y Goron),

(b) adran 43 (sut y mae archwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflawni swyddogaethau etc yn cael eu gwneud o dan adran 40).

(6) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol dalu sylw dyladwy i gyngor a roddir iddo gan SAC (gweler paragraff 1 o Atodlen 2) ac i'r cynllun blynyddol y mae'n cytuno arno gyda SAC (gweler adran 15).

**24 Pwerau Atodol**

Caiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud unrhyw beth a fwriedir i hwyluso cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau, neu sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig â'u cyflawni.

**25 Pwerau eraill**

(1) Pan—

(a) fo gan Weinidogion Cymru hawl i benodi archwilydd cyfrifon unrhyw berson (ar wahân i'r Archwilydd Cyffredinol), a

(b) na fyddai'r Archwilydd Cyffredinol yn gymwys i'w benodi fel arall yn archwilydd y cyfrifon hynny,

caiff Gweinidogion Cymru benodi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn archwilydd y cyfrifon hynny.

Ond cyn gwneud hyn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â SAC.

(2) Os yw'r archwilydd i'w benodi'n flynyddol mewn achos o'r fath, caiff Gweinidogion Cymru benodi'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) am flwyddyn,

(b) am ddwy flynedd neu fwy, neu

(c) yn amhenodol hyd nes y bydd y pŵer penodi yn cael ei arfer ymhellach.

(3) Os gwneir darpariaeth i'r Archwilydd Cyffredinol wneud hynny drwy gytundeb a wnaed rhwng person ac un ai Gweinidogion Cymru neu unrhyw un o Weinidogion y Goron, caiff yr Archwilydd Cyffredinol—

(a) astudio, dilysu neu adrodd ar gyfrifon y person, neu

(b) gwneud astudiaethau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person o ran y ffordd y mae'r person yn—

(i) cyflawni ei swyddogaethau, neu

(ii) defnyddio ei adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau,

ac, (os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn dewis) gwneud argymhellion mewn perthynas â hynny.

Ond cyn ymrwymo i gytundeb rhaid i Weinidogion Cymru neu Weinidog y Goron (yn ôl y digwydd) ymgynghori â SAC.

(4) Wrth benderfynu sut i arfer swyddogaethau o dan is-adran (3)(b) rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi ystyriaeth i safbwyntiau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol o ran yr astudiaethau y dylai'r Archwilydd Cyffredinol eu gwneud o dan yr is-adran honno.

(5) Os oes Gorchymyn y Cyfrin Gyngor o dan adran 58 (trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogion) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn trosglwyddo swyddogaeth o

baratoi cyfrifon i Weinidogion Cymru, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, ddarparu ar gyfer trosglwyddo unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny.

(6) Caiff gorchymyn o dan is-adran (5) a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol—

(a) gwneud darpariaethau gwahanol ar gyfer gwahanol achosion neu ddosbarthau ar achosion, neu at ddibenion gwahanol,

(b) cael ei arfer fel y bo'n gwneud darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol neu'n ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu dim ond mewn perthynas ag achosion neu ddosbarthau ar achosion,

(c) gwneud darpariaethau atodol, darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau darfodol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed.

(d) gwneud yr addasiadau hynny i—

(i) unrhyw ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol, neu

(ii) unrhyw offeryn neu ddogfen arall,

y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried yn briodol mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth a wneir gan y gorchymyn.

(7) Caiff Gorchymyn y Cyfrin Gyngor o dan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gynnwys unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan is-adran (5).

(8) Os dynodir Gweinidogion Cymru gan y Trysorlys o ran blwyddyn ariannol at ddibenion adran 10 (cyfrifon llywodraeth gyfan) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud yr archwiliad sy'n ofynnol gan is-adran (2)(c) o'r adran honno.

(9) Pan fo'r Trysorlys yn gwneud trefniadau â Gweinidogion Cymru o dan is-adran (8) o'r adran honno, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud yr archwiliad sy'n ofynnol gan baragraff (c) o'r is-adran honno.

(10) Ni chaniateir i orchymyn o dan is-adran (5) sy'n cynnwys darpariaeth ar ffurf diwygiadau i ddeddfiadau neu ddiddymiadau o ddeddfiadau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf hon gael ei wneud onid oes drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y ddarpariaeth wedi ei osod gerbron a'i gymeradwyo drwy benderfyniad dau Dŷ'r Senedd.

(11) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan is-adran (5) (oni chymeradwywyd drafft o'r offeryn statudol gan benderfyniad dau Dŷ'r Senedd) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad y naill Dŷ Seneddol neu'r llall.

**26 Trosglwyddo etc swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol**

(1) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, ddarparu bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, i'r graddau y mae'r swyddogaeth neu'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â chorff cyhoeddus sy'n dod o fewn is-adran (2), yn cael ei throsglwyddo neu eu trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol neu'n dod yn swyddogaeth neu'n swyddogaethau iddo yntau.

(2) Y cyrff cyhoeddus sy'n dod o fewn yr is-adran hon yw unrhyw gorff cyhoeddus y mae a wnelo ei swyddogaethau â Chymru'n unig neu ag ardal yng Nghymru'n unig.

(3) Ond nid yw cyrff cyhoeddus o dan is-adran (2) yn cynnwys—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol;

(b) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(c) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(d) cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1) gynnwys darpariaethau canlyniadol, cysylltiedig, atodol neu drosiannol priodol neu arbedion priodol (gan gynnwys darpariaethau ar ffurf diwygiadau neu ddiddymiadau o ddeddfiadau).

(5) Ni chaniateir i orchymyn o dan is-adran (1) sy'n cynnwys darpariaeth ar ffurf diwygiadau i ddeddfiadau neu ddiddymiadau o ddeddfiadau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf hon gael ei wneud onid oes drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y ddarpariaeth wedi ei osod gerbron a'i gymeradwyo drwy benderfyniad dau Dŷ'r Senedd.

(6) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan is-adran (1) (oni chymeradwywyd drafft o'r offeryn statudol gan benderfyniad dau Dŷ'r Senedd) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad y naill Dŷ Seneddol neu'r llall.

(7) Caiff Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogion) gynnwys unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan is-adran (1).

**27 Trosglwyddo etc swyddogaethau Gweinidogion Cymru**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, â chydsyniad yr Archwilydd Cyffredinol, drwy orchymyn, ddarparu i unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau goruchwylio mewn cysylltiad â chorff cyhoeddus neu landlord cymdeithasol cofrestredig—

(a) cael eu harfer ar eu rhan gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu

(b) cael eu trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol.

(2) Ond cyn rhoi cydsyniad o dan is-adran (1) rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â SAC.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "swyddogaethau goruchwylio" yw swyddogaethau arolygu, adolygu neu astudio rheolaeth ariannol neu reolaeth arall corff cyhoeddus neu landlord cymdeithasol cofrestredig, neu'r ffordd y mae'n cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

(4) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol lunio adroddiad ar ei arferiad, yn gyffredinol neu mewn cysylltiad â chorff neu landlord cymdeithasol cofrestredig penodol neu fater penodol, o unrhyw swyddogaeth a drosglwyddwyd iddo drwy orchymyn o dan is-adran (1)(b).

(5) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol osod unrhyw adroddiad a lunnir ganddo o dan is-adran (4) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1) wneud diwygiadau neu ddiddymiadau i ddeddfiadau.

**PENNOD 2**

GWEINIDOGION CYMRU, COMISIWN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL A CHYRFF CYHOEDDUS CYMREIG ERAILL

*Archwilio cyfrifon*

**28 Gweinidogion Cymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddiadau a roddir iddynt gan y Trysorlys—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon.

(2) Rhaid cyflwyno'r datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol i'r Archwilydd Cyffredinol heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol ddilynol.

(3) Rhaid i'r cyfrifon a'r datganiad o gyfrifon gynnwys manylion materion a thrafodion ariannol y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Weinidog.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad ac eithrio'r adran hon, o dan rwymedigaeth i lunio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon sy'n ymdrin ag unrhyw faterion.

(5) Os yw'n ymddangos i'r Trysorlys bod y materion y cyfeirir atynt yn is-adran (4) yn faterion y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon a luniwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r adran hon, caiff y Trysorlys ryddhau Gweinidogion Cymru o'r rhwymedigaeth arall am gyfnodau neu mewn cysylltiad â chyfnodau y caiff y Trysorlys eu cyfarwyddo.

(6) Mae cyfarwyddiadau y caiff y Trysorlys eu rhoi o dan is-adran (1) yn cynnwys cyfarwyddiadau i gynnwys yn y cyfrifon a'r datganiad o gyfrifon fanylion am faterion a thrafodion personau ac eithrio Gweinidogion Cymru.

**29 Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol**

(1) Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddiadau a roddir iddo gan y Trysorlys—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon.

(2) Rhaid cyflwyno'r datganiad o gyfrifon am bob blwyddyn ariannol i'r Archwilydd Cyffredinol heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol ddilynol.

(3) Mae cyfarwyddiadau y caiff y Trysorlys eu rhoi o dan is-adran (1) yn cynnwys cyfarwyddiadau i gynnwys yn y cyfrifon a'r datganiad o gyfrifon fanylion am faterion a thrafodion personau ac eithrio Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

**30 Cyrff cyhoeddus Cymreig eraill sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio**

(1) Rhaid i gorff cyhoeddus a restrir yng ngholofn (1) o Dabl 1 am bob blwyddyn ariannol—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon,

yn unol â chyfarwyddiadau a roddir iddynt gan yr awdurdod cyfarwyddo.

(2) Yr awdurdod cyfarwyddo mewn cysylltiad â chorff cyhoeddus a restrir yng ngholofn (1) o Dabl 1 yw'r awdurdod sydd yn ymddangos yn y cofnod cyfatebol ar gyfer y corff hwnnw yng ngholofn (2) o'r Tabl.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn awdurdod cyfarwyddo, cyn rhoi cyfarwyddiadau i gorff a restrir yng ngholofn (1) o Dabl 1, rhaid iddynt gael cydsyniad y Trysorlys pan fo hynny'n cael ei bennu yn y cofnod cyfatebol ar gyfer y corff hwnnw yng ngholofn (2).

(4) Rhaid cyflwyno datganiad o gyfrifon a lunnir gan gorff cyhoeddus o dan yr adran hon—

(a) i'r Archwilydd Cyffredinol, a

(b) pan fo'n cael ei bennu yn y cofnod cyfatebol ar gyfer y corff hwnnw yng ngholofn (4) o Dabl 1, i Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i gorff cyhoeddus gyflwyno datganiad o gyfrifon heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cofnod cyfatebol ar gyfer y corff hwnnw yng ngholofn (3) o Dabl 1 yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn yr un y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(6) Ystyr "un o gyrff GIG Cymru" yw—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) ymddiriedolaeth GIG y mae'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'i hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau yng Nghymru;

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yng Nghymru yn unig neu yn bennaf mewn cysylltiad â Chymru.

**Tabl 1**

| **(1)**<br>**Corff cyhoeddus** | **(2)**<br>**Awdurdod cyfarwyddo** | **(3)**<br>**Dyddiad cyflwyno datganiad o gyfrifon** | **(3)**<br>**Rheidrwydd i gyflwyno datganiad o gyfrifon i Weinidogion Cymru** |
|---|---|---|---|
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Y Trysorlys | 30 Tachwedd | Nac oes |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 30 Tachwedd | Oes |
| Comisiynydd Plant Cymru | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 31 Awst | Oes |
| Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru | Gweinidogion Cymru | 31 Awst | Oes |

| (1)<br>**Corff cyhoeddus** | (2)<br>**Awdurdod cyfarwyddo** | (3)<br>**Dyddiad cyflwyno datganiad o gyfrifon** | (3)<br>**Rheidrwydd i gyflwyno datganiad o gyfrifon i Weinidogion Cymru** |
|---|---|---|---|
| Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | Y Trysorlys | 30 Tachwedd | Oes |
| Comisiynwyr Coedwigaeth | Y Trysorlys | 30 Tachwedd | Oes |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 30 Tachwedd | Oes |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | Gweinidogion Cymru | 31 Awst | Oes |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 31 Awst | Oes |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 31 Awst | Oes |
| Amgueddfa Cymru | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 31 Awst | Oes |
| Bwrdd ardollau Cymru | Gweinidogion Cymru | 30 Tachwedd | Oes |
| Un o gyrff GIG Cymru | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 31 Awst | Oes |
| Comisiynydd y Gymraeg | Gweinidogion Cymru â chydsyniad y Trysorlys | 31 Awst | Oes |
| Cyngor Gofal Cymru | Gweinidogion Cymru | 30 Tachwedd | Oes |
| Canolfan Iechyd Cymru | Gweinidogion Cymru | 30 Tachwedd | Oes |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | Gweinidogion Cymru | 31 Awst | Oes |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Gweinidogion Cymru | 31 Awst | Oes |

**31 Cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio o dan adran 30: cyfyngiadau**

(1) Nid yw'r rhwymedigaethau ar gorff GIG Cymru yn adran 30 yn ymestyn i gyfrifon sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau elusennol neu anelusennol y mae'r corff hwnnw yn ymddiriedolwr iddynt.

(2) Nid yw'r rhwymedigaethau ar Gomisiynwyr Coedwigaeth yn adran 30 yn estyn ond —

(a) i gyfrifon sy'n ymwneud â symiau a dderbynnir ganddynt o dan adran 105 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988;

(b) mewn cysylltiad â thrafodion a gyflawnir ganddynt wrth iddynt arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o ran Cymru.

**32 Archwilio cyfrifon cryno Cyrff GIG Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gorff GIG Cymru nad yw'n Awdurdod Iechyd Arbennig.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio cyfrifon cryno mewn perthynas â chorff o'r fath ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

(3) Nid yw'r rhwymedigaeth i lunio cyfrifon cryno mewn perthynas â chorff yn ymestyn i gyfrifon sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau elusennol neu anelusennol y mae'r corff yn ymddiriedolwr iddynt.

(4) Rhaid i gyfrifon cryno gael eu llunio'n unol â chyfarwyddiadau a roddir gan y Trysorlys.

(5) Rhaid i gyfrifon cryno gael eu cyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol gan Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn yr un y maent yn ymwneud â hi.

(6) Mae'r adran hon yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 14(1) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 (pŵer i ddatgymhwyso'r adran hon mewn perthynas â chyrff a blynyddoedd penodedig)

**33 Archwilio cyfrifon swyddogion cyrff GIG Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo swyddog corff GIG Cymru yn derbyn arian neu eiddo arall—

(a) ar ran y corff hwnnw, neu

(b) y dylai'r swyddog roi cyfrif amdano i'r corff hwnnw.

(2) Rhaid i swyddog corff GIG Cymru, ar gyfer pob blwyddyn ariannol—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon

yn unol â chyfarwyddiadau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i ddatganiad o gyfrifon sy'n cael ei lunio o dan yr adran hon gael ei gyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol gan swyddog corff GIG.

(4) Rhaid cyflwyno datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol heb fod yn hwyrach na 31 Awst yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn.

**34 Archwilio corfforaethau addysg bellach ac uwch**

(1) Rhaid i gorfforaeth addysg uwch a chorfforaeth addysg bellach yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon,

yn unol â chyfarwyddiadau a roddir iddo gan yr awdurdod cyfarwyddo.

(2) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw'r awdurdod cyfarwyddo ar gyfer corfforaeth addysg uwch.

(3) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cyfarwyddo ar gyfer corfforaeth addysg bellach.

(4) Nid yw corfforaeth addysg uwch na chorfforaeth addysg bellach o dan rwymedigaeth i gyflwyno ei datganiad o gyfrifon i'r Archwilydd Cyffredinol i'w harchwilio.

(5) Ond caiff ddewis gwneud hynny.

(6) Os yw corfforaeth addysg uwch neu gorfforaeth addysg bellach yn dewis cyflwyno ei datganiad o gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol i'r Archwilydd Cyffredinol, rhaid iddi wneud hynny heb fod yn hwyrach na 31 Awst yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn.

(7) Os yw corfforaeth addysg uwch neu gorfforaeth addysg bellach yn dewis peidio â chyflwyno ei datganiad o gyfrifon i'r Archwilydd Cyffredinol, rhaid iddi, am bob blwyddyn ariannol, benodi person arall yn archwilydd.

(8) Cyn penodi person arall yn archwilydd o dan is-adran (7) rhaid i gorfforaeth ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a chymryd unrhyw gyngor a roddir ganddo i ystyriaeth.

(9) Rhaid i berson a benodir yn archwilydd o dan is-adran (7) fod yn—

(a) unigolyn, neu ffyrm, sy'n gymwys i'w benodi neu i'w phenodi yn archwilydd statudol o dan Ran 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006;

(b) aelod o Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; neu

(c) ffyrm y mae pob aelod ohoni yn aelod o'r sefydliad hwnnw.

(10) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol, ar gais Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gynghori'r cyngor mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaeth y cyngor o roi cyfarwyddiadau i gorfforaethau addysg uwch o dan is-adran (2).

**35 Archwilio corfforaethau addysg bellach ac uwch: pwerau'r Archwilydd Cyffredinol**

Caiff yr Archwilydd Cyffredinol, ar gais corfforaeth addysg bellach neu uwch yng Nghymru—

(a) ei chynghori mewn cysylltiad â phenodi personau i archwilio ei chyfrifon, neu

(b) archwilio ei chyfrifon am flwyddyn ariannol.

**36 Ystyr corfforaeth addysg bellach a chorfforaeth addysg uwch**

(1) Yn y Bennod hon—

(a) mae i "corfforaeth addysg bellach" a "corfforaeth addysg uwch" yr ystyr a roddir i "further education corporation" a "higher education corporation" yn Neddf Addysg Uwch a Phellach 1992;

(b) mae cyfeiriadau at gyfrifon corfforaeth addysg uwch yn cynnwys cyfeiriadau at ddatganiad o gyfrifon sy'n cael ei baratoi gan y gorfforaeth o dan adran 124B o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 neu baragraff 18 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(2) Rhaid i adrannau 34 a 35 gael eu dehongli yn un â Deddf Addysg 1996; ac mae cyfeiriadau mewn unrhyw ddeddfiadau at y Deddfau Addysg i gynnwys yr adrannau

hyn.

*Darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud ag archwilio cyrff o dan y Bennod hon*

**37 Cynnwys cyfrifon a datganiad o gyfrifon**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon a lunnir gan—

(a) Gweinidogion Cymru o dan adran 28;

(b) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 29;

(c) corff cyhoeddus o dan adran 30;

(d) swyddog corff GIG Cymru o dan adran 33;

(e) corfforaeth addysg uwch neu gorfforaeth addysg bellach o dan adran 34.

(2) Rhaid i gyfrifon a datganiadau o gyfrifon roi cyfrif gwir a theg o—

(a) ble mae'r person arni'n ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a

(b) incwm a gwariant y person yn ystod y flwyddyn ariannol.

**38 Cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â chyfrifon a datganiad o gyfrifon**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gyfarwyddiadau a roddir gan—

(a) y Trysorlys o dan adrannau 28, 29 neu 32;

(b) awdurdod cyfarwyddo o dan adran 30;

(c) Gweinidogion Cymru o dan adran 33;

(d) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu Weinidogion Cymru o dan adran 34.

(2) Caiff cyfarwyddiadau gynnwys gofynion ynghylch y canlynol (ymhlith pethau eraill)—

(a) materion a thrafodion ariannol y mae'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon i fod i ymwneud â hwy,

(b) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon a'r ffordd y mae i'w chyflwyno,

(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon i'w llunio yn unol â hwy, a

(d) yr wybodaeth ychwanegol (os oes) sydd i fynd gyda'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon.

(3) Yn achos Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae cyfarwyddiadau y caiff y Trysorlys eu rhoi o dan adran 30 yn cynnwys cyfarwyddiadau i gynnwys yn y cyfrifon ac yn y datganiad o gyfrifon fanylion am faterion a thrafodion ariannol personau heblaw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**39 Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: archwilio cyfrifon**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i ddatganiad o gyfrifon a gyflwynir gan yr Archwilydd Cyffredinol gan—

(a) Gweinidogion Cymru o dan adran 28;

(b) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 29;

(c) corff cyhoeddus o dan adran 30;

(d) swyddog corff GIG Cymru o dan adran 33;

(e) corfforaeth addysg uwch neu gorfforaeth addysg bellach o dan adran 34 (pan fo'n dewis gwneud hynny).

(2) Mae'r adran hon yn gymwys hefyd i gyfrifon cryno sy'n cael eu cyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 32 (ac mae'r cyfeiriadau yn is-adrannau (3) i (5) at "ddatganiad o gyfrifon" i'w dehongli fel petaent yn cynnwys cyfrifon cryno).

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) astudio, ardystio ac adrodd ar unrhyw ddatganiad o gyfrifon a gyflwynir iddo,

(b) darparu copi o'r datganiad o gyfrifon fel y'i ardystiwyd ganddo gyda'i adroddiad arno i'r person a gyflwynodd y datganiad o gyfrifon, a

(c) heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl i ddatganiad o gyfrifon gael ei gyflwyno, gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gopi o'r datganiad o gyfrifon fel y'i hardystiwyd ganddo ynghyd â'i adroddiad arno.

(4) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, yn benodol, fod yn fodlon, o archwilio'r datganiad o gyfrifon a gyflwynir iddo—

(a) bod y gwariant y mae'r datganiad o gyfrifon yn ymwneud ag ef wedi ei wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu,

(b) nad yw arian a gafodd y corff y mae'r datganiad o gyfrifon yn ymwneud ag ef at ddiben neu at at ddibenion penodol wedi ei wario at ddiben neu at ddibenion gwahanol,

(c) bod y datganiad o gyfrifon yn cydymffurfio â gofynion pob darpariaeth statudol sy'n gymwys i'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon, a

(d) bod arferion priodol wedi eu dilyn wrth lunio'r datganiad o gyfrifon,

(5) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried os yw'r corff cyhoeddus y mae'r datganiad o gyfrifon yn ymwneud ag ef wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

*Astudiaethau gwerth am arian*

**40 Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: astudiaethau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol astudio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person a restrir yn is-adran (4) ac (os yw'n dewis gwneud hynny) gwneud argymhellion ynghylch darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y person hwnnw, o ran y ffordd y mae'n—

(a) cyflawni ei swyddogaethau, neu

(b) defnyddio ei adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau.

(2) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol hefyd wneud astudiaethau i'r ddarpariaeth o wasanaethau gan berson a restrir yn is-adran (4), a gwneud (os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn dewis) argymhellion mewn perthynas â hynny.

(3) Ond wrth iddo astudio a gwneud argymhellion o dan is-adran (1) neu (2) nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol yr hawl i gwestiynu rhinweddau amcanion polisi'r person.

(4) Y personau sy'n ddarostyngedig i'w hastudio o dan is-adran (1) neu (2) yw—

(a) Gweinidogion Cymru (gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Weinidog);

(b) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) corff cyhoeddus a restrir yng ngholofn (1) o Dabl 1 yn adran 30 (fel y caniateir ei diwygio o dro i dro);

(d) y personau ychwanegol a restrir yn adran 41;

(e) y cyrff addysg a restrir yn adran 47, ond dim ond pan fo cais wedi dod, mewn modd a bennir yn yr adran honno, i'r Archwilydd Cyffredinol wneud astudiaeth.

(5) Nid yw corff GIG Cymru yn ddarostyngedig i astudiaeth o dan is-adran (4)(c) i'r graddau y mae'n arfer swyddogaethau yn rhinwedd bod yn ymddiriedolwr i ymddiriedolaeth elusennol neu anelusennol.

(6) Mae'r Comisiynwyr Coedwigaeth yn ddarostyngedig i astudiaeth o dan is-adran (4)(c) mewn perthynas â'r canlynol yn unig—

(a) defnydd o'r symiau a dderbynnir ganddynt o dan adran 105 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998;

(b) arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o ran Cymru.

**41 Personau ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'w hastudio**

(1) Y personau ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'w hastudio o dan adran 40 yw—

(a) person (ac eithrio corff llywodraeth leol a swyddog corff GIG Cymru) sy'n llunio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhaid eu hastudio gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o ddeddfiad;

(b) person (ac eithrio corff llywodraeth leol) y mae'r Archwilydd Cyffredinol, yn rhinwedd darpariaeth unrhyw ddeddfiad, yn cynnal astudiaethau mewn perthynas ag ef sy'n ymwneud â darbodaeth effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y person hwnnw o ran y ffordd y mae'n defnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau;

(c) person (ac eithrio landlord cymdeithasol cofrestredig) y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau mewn perthynas ag ef yn rhinwedd darpariaeth a wneir o dan adran 27 (trosglwyddo etc swyddogaethau Gweinidogion Cymru);

(d) landlord cymdeithasol cofrestredig, ond dim ond pan fo Gweinidogion Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi cytuno y dylai un landlord cymdeithasol cofrestredig neu ragor fod yn ddarostyngedig i'w hastudio;

(e) Asiantaeth yr Amgylchedd, ond mewn cysylltiad â'r canlynol yn unig—

(i) symiau a ddaw i ddwylo'r Asiantaeth oddi wrth Weinidogion Cymru;

(ii) swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â Chymru;

(iii) swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â chorff trawsffiniol y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau amgylcheddol mewn perthynas ag ef;

(iv) swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas ag ardal ffiniol yn Lloegr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau amgylcheddol mewn perthynas a hi.

(2) Caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru a

ddarganfuwyd ganddo wrth astudio landlord cymdeithasol cofrestredig.

(3) Yn yr adran hon—

ystyr "ardal ffiniol yn Lloegr" yw rhan o Loegr sy'n cyffinio â Chymru (ond nid Lloegr gyfan);

ystyr "corff trawsffiniol" yw unrhyw gorff (gan gynnwys adran o'r llywodraeth) neu ymgymerwr sy'n arfer swyddogaethau neu'n cynnal gweithgaredd yng Nghymru (neu unrhyw ran ohoni), neu mewn perthynas â hi (neu unrhyw ran ohoni) ac yn unman arall;

ystyr "swyddogaethau amgylcheddol" yw swyddogaethau mewn maes y mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd swyddogaethau.

**42 Cyrff addysg sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio ar gais**

Y cyrff addysg yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio o dan adran 40 yw'r cyrff a restrir yng ngholofn gyntaf Tabl 2, ond dim ond pan fo'r corff ei hun neu'r awdurdod a restrir yn y cofnod cyfatebol yn ail golofn Tabl 2 wedi gwneud cais i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaeth.

**Tabl 2**

| Corff addysg | Awdurdod sy'n gwneud cais |
|---|---|
| Sefydliad o fewn y sector addysg uwch | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Corff llywodraethu sefydliad addysg uwch | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Corff llywodraethu sefydliad sy'n cael taliad o dan adran 86 o Ddeddf Addysg 2005 | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Darparwr hyfforddiant sy'n cael cymorth ariannol o dan adran 78 o Ddeddf Addysg 2005 oddi wrth yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (ac eithrio pan ddaw'r cymorth ariannol hwnnw yn gyfan gwbl o grantiau a wneir i'r Asiantaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol). | Yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion |
| Sefydliad o fewn y sector addysg bellach | Gweinidogion Cymru |
| Corff llywodraethu sefydliad addysg bellach | Gweinidogion Cymru |

*Darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud ag astudiaethau*

**43 Safbwyntiau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad**

Wrth benderfynu sut i wneud astudiaeth o dan adran 40 rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi ystyriaeth i safbwyntiau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

**44 Adroddiadau ar astudiaethau**

Caiff yr Archwilydd Cyffredinol osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar—

(a) canlyniadau unrhyw astudiaeth a gynhelir o dan adran 40, a

(b) argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol (os oes rhai) sy'n deillio o'r astudiaeth.

**45 Adroddiadau er budd y cyhoedd**

(1) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried y byddai ym mudd y cyhoedd i ddod a mater a ddaeth i sylw'r Archwilydd Cyffredinol wrthi iddo arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon i sylw'r cyhoedd, caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar y mater hwnnw.

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl llunio adroddiad, osod yr adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

*Addasu'r cyrff sy'n ddarostyngedig i archwiliad ac astudiaeth*

**46 Addasu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i archwiliad neu astudiaeth**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, addasu'r rhestr o gyrff cyhoeddus yng ngholofn (1) o Dabl 1 yn adran 30 drwy—

(a) ychwanegu neu hepgor corff cyhoeddus;

(b) newid y disgrifiad o gorff cyhoeddus.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff hwnnw ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol ymgynghori â hwy.

(3) Ni all y cyrff canlynol gael eu hepgor o'r rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i archwiliad neu astudiaeth—

(a) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(b) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

(c) Comisiynydd Plant Cymru;

(d) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(e) Comisiynydd y Gymraeg.

(4) Caiff gorchymyn a wneir o dan is-adran (1)—

(a) cynnwys addasiadau y mae Gweinidogion Cymru'n eu hystyried yn briodol;

(b) cael ei wneud mewn perthynas â holl swyddogaethau, gweithgareddau neu gyllido'r corff neu rai ohonynt,

(c) cael ei wneud mewn perthynas ag un neu ragor o gyrff neu bersonau neu un neu ragor o ddosbarthau ar gyrff neu bersonau.

(5) Mae "addasiadau" o dan is-adran (4)(a) yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i)—

(a) gosod, amrywio neu dynnu gofynion o ran cyfrifon (yn cynnwys datganiadau o gyfrifon) neu archwilio neu astudio datganiad o gyfrifon;

(b) gosod, amrywio neu dynnu gofynion ynghylch astudiaeth i ddarbodaeth, effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd corff o ran y ffordd y mae'n cyflawni swyddogaethau neu'n defnyddio adnoddau;

(c) paratoadau gan berson o gyfrifon sy'n ymestyn i faterion a thrafodion ariannol unrhyw ymgymeriad (fel y'i ddiffinnir yn adran 1161(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006) y mae'r person (neu, os oedd yn ymgymeriad a ddiffiniwyd felly, y byddai'r person) yn rhiant-ymgymeriad iddo (o fewn ystyr adran 1162 o'r Ddeddf honno);

(d) rhoi (neu ddiwygio neu ddirymu) cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru;

(e) cyhoeddi dogfennau, a hawl y cyhoedd i gael edrych ar ddogfennau (gan gynnwys adroddiadau);

(f) addasu hawl yr Archwilydd Cyffredinol i gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth o dan adran 88.

(6) Mae pŵer Gweinidogion Cymru o dan is-adran (1) yn gyfyngedig i ddarpariaethau—

(a) a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu

(b) sy'n ymwneud â pherson sy'n arfer swyddogaethau neu'n cynnal gweithgareddau mewn perthynas â materion y mae Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol yn eu harfer.

(7) Dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio y caiff gorchymyn o dan is-adran (1) dynnu, neu gyfyngu ar, unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddiwygiadau eraill i unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon ag yr ystyriant yn briodol mewn cysylltiad ag arfer y pŵer yn is-adran (1), neu at y diben hwnnw, neu o ganlyniad i hynny.

(9) Nid yw newid yn enw corff cyhoeddus y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon mewn perthynas ag ef yn effeithio ar weithrediad y Ddeddf hon mewn perthynas â'r corff hwnnw.

**47 Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am adroddiadau**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth am adroddiadau a wneir gan gorff cyhoeddus a restrir yng ngholofn (1) o Dabl 1 yn adran 30 ar arfer ei swyddogaethau.

(2) Ond nid yw'r pŵer yn ymestyn i wneud darpariaethau am adroddiadau a wneir gan—

(a) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(b) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

(c) Comisiynydd Plant Cymru;

(d) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(e) Comisiynydd y Gymraeg.

**48 Pŵer i ddynodi swyddogion cyfrifyddu**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ddynodi swyddogion cyfrifyddu ar gyfer y cyrff canlynol, ac i bennu dyletswyddau'r swyddog—

(a) corff cyhoeddus a restrir yng ngholofn (1) o Dabl 1 yn adran 30;

(b) corff cyhoeddus a allai, yn rhinwedd adran 46, gael ei ychwanegu at y rhestr yng ngholofn (1) o Dabl 1 yn adran 30 (p'un a yw'r corff hwnnw wedi cael ei

ychwanegu ai peidio).

(2) Mae'r pŵer i ddynodi swyddogion cyfrifyddu yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Parhaol ddynodi swyddogion cyfrifyddu ychwanegol ar gyfer corff cyhoeddus ac i bennu eu dyletswyddau.

(3) Caiff gorchymyn alluogi person sydd wedi ei ddynodi yn swyddog cyfrifyddu ar gyfer corff cyhoeddus ddynodi swyddogion cyfrifyddu ychwanegol ar gyfer y corff ac i bennu eu dyletswyddau

(4) Ond rhaid i allu'r swyddog cyfrifyddu dynodedig i ddynodi swyddogion cyfrifyddu ychwanegol fod yn ddarostyngedig i gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Parhaol.

(5) Ond nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i wneud darpariaethau ar gyfer dynodi swyddog cyfrifyddu—

(a) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(b) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;

(c) Comisiynydd Plant Cymru;

(d) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(e) Comisiynydd y Gymraeg.

(6) Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wneud y canlynol, os gofynnir iddo wneud hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin—

(a) cymryd tystiolaeth gan berson dynodedig yn rhinwedd yr adran hon fel swyddog cyfrifyddu corff cyhoeddus (gan gynnwys swyddog cyfrifyddu ychwanegol a ddynodwyd o dan is-adran (1)), ar ran Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin

(b) adrodd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin a throsglwyddo unrhyw dystiolaeth a gymerwyd i'r Pwyllgor hwnnw.

(7) Ystyr "Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru" yw'r person a benodwyd yn unol ag adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i fod yn bennaeth ar staff Llywodraeth Cymru (p'un a yw'r person hwnnw yn cael ei adnabod fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ai peidio).

## PENNOD 3

## LLYWODRAETH LEOL CYMRU

*Ystyr "cyrff llywodraeth leol"*

### 49 Cyrff llywodraeth leol

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "corff llywodraeth leol" yw unrhyw un o'r canlynol—

(a) awdurdod lleol;

(b) pwyllgor awdurdod lleol (gan gynnwys cyd-bwyllgor o ddau awdurdod neu fwy);

(c) awdurdod iechyd porthladd ar gyfer ardal awdurdod iechyd porthladd sy'n gyfan gwbl o fewn Cymru;

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(e) bwrdd cadwraeth a sefydlwyd drwy orchymyn Gweinidogion Cymru o dan adran 86 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;

(f) [comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru];

(g) [prif gwnstabl heddlu a gynhelir o dan adran 2 o Ddeddf yr Heddlu 1996 ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru;]

(h) awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

(i) bwrdd draenio mewnol ar gyfer ardal ddraenio leol sy'n gyfan gwbl o fewn Cymru;

(j) ymddiriedolaeth prawf Gymreig (fel y'i diffinnir gan baragraff 13(6) o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r rhestr o gyrff yn is-adran (1) drwy—

(a) ychwanegu awdurdod cyhoeddus y mae ei swyddogaethau yn—

(i) ymwneud â Chymru neu ran o Gymru'n unig, a

(ii) ymwneud â materion sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

(b) hepgor corff;

(c) newid disgrifiad o gorff.

(3) Nid yw newid yn enw corff a restrir yn is-adran (1) yn effeithio ar weithrediad y Ddeddf hon mewn perthynas â'r corff hwnnw.

*Archwilio cyfrifon*

**50 Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol**

(1) Rhaid i gorff llywodraeth leol wneud ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth ar gyfer pob blwyddyn (neu pa ddyddiad bynnag arall y bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo, yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig).

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol yn unol â'r Bennod hon.

**51 Dyletswyddau cyffredinol wrth archwilio cyfrifon**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys o ran archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol o dan y Bennod hon.

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) bod yn fodlon ar y canlynol—

(i) bod y cyfrifon wedi ei paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 69;

(ii) eu bod yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n gymwys i'r cyfrifon;

(iii) bod arferion priodol wedi cael eu parchu wrth grynhoi'r cyfrifon;

(iv) bod y corff, os yw'n ofynnol iddo gyhoeddi gwybodaeth yn unol â

chyfarwyddyd o dan adran 75 (gwybodaeth am berfformiad), wedi gwneud y trefniadau hynny ar gyfer casglu a chofnodi'r wybodaeth ac ar gyfer ei chyhoeddi sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran honno.

(b) ystyried a yw'r corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

*Adroddiadau ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol*

**52 Adroddiadau di-oed ac adroddiadau eraill er budd y cyhoedd**

(1) Wrth archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol o dan y Bennod hon, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a ddylai, er budd y cyhoedd, wneud adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn—

(a) iddo gael ei ystyried gan y corff, neu

(b) dod ag ef i sylw'r cyhoedd.

(2) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried y dylai adroddiad gael ei wneud, er budd y cyhoedd, rhaid iddo ystyried a yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r mater gael ei wneud yn destun adroddiad di-oed.

(3) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried bod budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r mater gael ei wneud yn destun adroddiad di-oed, rhaid iddo wneud yr adroddiad ar unwaith.

(4) Os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried bod budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r mater gael ei wneud yn destun adroddiad di-oed, rhaid iddo wneud yr adroddiad ar ddiwedd yr archwiliad.

(5) Mewn achos o fewn is-adran (3), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol anfon yr adroddiad at y corff yn syth ar ôl ei wneud.

(6) Mewn achos o fewn is-adran (4), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol anfon yr adroddiad at y corff cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n cychwyn ar y diwrnod y mae'n gorffen ei archwiliad.

**53 Adroddiad cyffredinol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gorffen archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol o dan y Bennod hon.

(2) Os yw'n ofynnol darparu datganiad o gyfrifon drwy reoliadau o dan adran 69, (rheoliadau cyfrifon ac archwilio), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gofnodi'r canlynol yn y datganiad—

(a) tystysgrif sy'n tystio bod yr archwiliad wedi ei gwblhau yn unol â'r Bennod hon, a

(b) ei farn ar y datganiad o gyfrifon.

(3) Mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gofnodi'r canlynol ar y cyfrifon—

(a) tystysgrif sy'n tystio bod yr archwiliad wedi ei gwblhau yn unol â'r Bennod hon, a

(b) ei farn ar y cyfrifon.

(4) Ond os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud adroddiad o dan adran 52

(adroddiadau di-oed ac adroddiadau eraill er budd y cyhoedd) ar ddiwedd yr archwiliad, caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnwys y dystysgrif a'r farn y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2) a (3) yn yr adroddiad yn hytrach na'u cofnodi ar y datganiad neu'r cyfrifon.

**54 Ystyried adroddiadau er budd y cyhoedd**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud adroddiad o dan adran 52 (adroddiadau di-oed ac adroddiadau eraill er budd y cyhoedd) ar fater sy'n dod i'w sylw yn ystod archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol.

(2) Rhaid i'r corff ystyried yr adroddiad—

(a) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei dderbyn, os yw'r corff yn cael ei grybwyll yn is-adran (3);

(b) yn unol ag adran 55 (y weithdrefn i ystyried adroddiadau ac argymhellion), mewn unrhyw achos arall.

(3) Dyma'r cyrff y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(a)—

(a) awdurdod iechyd porthladd;

(b) bwrdd cadwraeth;

(c) bwrdd draenio mewnol;

(d) ymddiriedolaeth prawf.

(4) Pan roddir yr agenda i aelodau'r corff ar gyfer cyfarfod o'r corff y mae'r adroddiad i'w ystyried ynddo, rhaid i'r adroddiad gael ei roi hefyd.

(5) Mae is-adran (6) yn gymwys i'r pwerau hyn—

(a) y pŵer i eithrio, o dan adran 1(4)(b) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, eitemau o agenda cyfarfod a roddwyd o dan yr adran honno (rhoi'r agenda etc i bapurau newydd);

(b) y pŵer i eithrio'r canlynol o dan adran 100B(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972—

(i) yr adroddiad cyfan, neu ran ohono, sy'n agored i'w archwilio o dan adran 100B(1) o'r Ddeddf honno (copïau o'r agenda i fod yn agored i'w harchwilio'n gyhoeddus),

(ii) yr adroddiad cyfan, neu ran ohono, sy'n agored i'r cyhoedd o dan adran 100B(6) o'r Ddeddf honno (y cyhoedd i gael gafael ar agenda ac adroddiadau cyn cyfarfodydd), neu

(iii) yr adroddiad cyfan, neu ran ohono, sydd i'w roi o dan adran 100B(7) o'r Ddeddf honno (rhoi agenda etc i bapurau newydd).

(6) Nid yw'r pwerau a grybwyllir yn is-adran (5) yn cynnwys pŵer i eithrio'r adroddiad a grybwyllir yn is-adran (4) (nac unrhyw ran ohono).

(7) Mae Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael effaith mewn perthynas â'r adroddiad a grybwyllir yn is-adran (4) fel pe na bai adran 100C(1)(d) (y cyhoedd i gael gafael ar gopïau o adroddiadau am 6 blynedd ar ôl cyfarfod) o'r Ddeddf honno wedi ei chyfyngu i'r rhan honno o'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem a oedd yn ystod y cyfnod yr oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

**55 Y weithdrefn i ystyried adroddiadau ac argymhellion**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ofynnol i gorff llywodraeth leol o dan adran 54(2)(b) ystyried adroddiad yn unol â'r adran hon.

(2) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys os yw'r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo archwilio unrhyw gyfrifon sydd gan gorff llywodraeth leol—

(a) yn anfon argymhelliad ysgrifenedig i'r corff, a

(b) yn datgan yn y ddogfen sy'n cynnwys yr argymhelliad y dylid, yn ei farn ef, ystyried yr argymhelliad yn unol â'r adran hon.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw'r corff yn—

(a) awdurdod iechyd porthladd;

(b) bwrdd cadwraeth;

(c) bwrdd draenio mewnol;

(d) ymddiriedolaeth prawf.

(4) Os yw'r adran hon yn gymwys, rhaid i'r corff ystyried yr adroddiad neu'r argymhelliad mewn cyfarfod a gynhelir ganddo cyn diwedd y cyfnod o fis sy'n dechrau ar y diwrnod y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn anfon yr adroddiad neu'r argymhelliad iddo.

(5) Yn y cyfarfod rhaid i'r corff benderfynu—

(a) os caiff adroddiad o dan adran 52 (adroddiadau di-oed ac adroddiadau eraill er budd y cyhoedd) ei ystyried yn y cyfarfod, a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;

(b) os caiff argymhelliad o fewn is-adran (2) ei ystyried yn y cyfarfod, a yw'r argymhelliad i'w dderbyn;

(c) pa gamau gweithredu (os oes rhai) i'w cymryd wrth ymateb i'r adroddiad neu'r argymhelliad.

(6) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol estyn y cyfnod o fis a grybwyllir yn is-adran (4) o ran adroddiad neu argymhelliad os yw'n fodlon ei bod yn rhesymol i ganiatáu rhagor o amser i'r corff gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan is-adrannau (4) a (5) o ran yr adroddiad neu'r argymhelliad.

(7) Caniateir estyn cyfnod o dan is-adran (6) ragor nag unwaith.

(8) Nid oes dim yn adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (dirprwyo swyddogaethau) sy'n gymwys i ddyletswydd a osodir ar gorff gan yr adran hon.

(9) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw ddyletswyddau (i'r graddau y maent yn ymwneud â phwnc adroddiad neu argymhelliad) a osodir gan yr isod neu o dan yr isod—

(a) y Ddeddf hon;

(b) adrannau 114 i 116 (adroddiadau gan brif swyddogion cyllid) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

(c) adran 5 (swyddogaethau swyddogion monitro) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(d) unrhyw ddeddfiad arall.

**56 Cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd o dan adran 55**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ofynnol i gorff llywodraeth leol gynnal cyfarfod o dan adran 55(4).

(2) Ni chaniateir cynnal y cyfarfod ar ddiwrnod penodol ond os cyhoeddwyd hysbysiad o leiaf saith niwrnod clir cyn y diwrnod hwnnw mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal y corff, a'r hysbysiad hwnnw yn cydymffurfio ag is-adran (3).

(3) Mae hysbysiad yn cydymffurfio â'r is-adran hon os yw—

(a) yn nodi amser a lleoliad y cyfarfod,

(b) yn nodi bod y cyfarfod i'w gynnal i ystyried adroddiad neu argymhelliad (yn ôl y digwydd) gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac

(c) yn disgrifio pwnc yr adroddiad neu'r argymhelliad.

(4) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod rhaid i'r corff—

(a) sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei hysbysu am y penderfyniadau a wnaed gan y corff o dan adran 55(5),

(b) cael cymeradwyaeth yr Archwilydd Cyffredinol i grynodeb ysgrifenedig o'r penderfyniadau hynny ("y crynodeb a gymeradwywyd"), ac

(c) sicrhau bod hysbysiad sy'n cynnwys y crynodeb a gymeradwywyd yn cael ei gyhoeddi mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal y corff .

(5) Nid oes angen i'r crynodeb a gymeradwywyd grynhoi unrhyw benderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar adeg pan oedd y cyhoedd wedi eu gwahardd o'r cyfarfod—

(a) o dan adran 100A(2) (gwybodaeth gyfrinachol) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;

(b) yn unol â phenderfyniad o dan adran 100A(4) (gwybodaeth esempt) o'r Ddeddf honno;

(c) yn unol â phenderfyniad o dan adran 1(2) (diogelu budd y cyhoedd) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.

(6) Ond os yw adrannau 100C a 100D (argaeledd cofnodion, papurau cefndir a dogfennau eraill i'w harchwilio ar ôl cyfarfodydd) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gymwys o ran y cyfarfod, rhaid i'r crynodeb a gymeradwywyd nodi'r dogfennau o ran y cyfarfod sy'n agored i'w harchwilio o dan yr adrannau hynny.

(7) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw ddarpariaethau a wneir o ran cyfarfodydd corff gan adran 54(4) i (7) neu gan y canlynol, neu o dan y canlynol—

(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972;

(b) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960;

(c) unrhyw ddeddfiad arall.

**57 Cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau di-oed**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Archwilydd Cyffredinol wedi anfon adroddiad o dan adran 52(5) a wnaed o dan adran 52(3) i gorff llywodraeth leol.

(2) O bryd i'w gilydd pan gaiff y corff yr adroddiad caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd—

(a) archwilio'r adroddiad ar bob adeg resymol yn ddi-dâl;

(b) gwneud copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ohono ar bob adeg resymol yn ddi-

dâl;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r corff roi copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ohono iddo pan delir swm rhesymol.

(3) Pan fo corff yn cael adroddiad a anfonwyd iddo o dan adran 52(5) rhaid i gorff wneud y canlynol yn ddi-oed—

(a) sicrhau bod hysbysiad yn cael ei gyhoeddi mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal y corff,

(b) rhoi copi o'r adroddiad i bob aelod o'r corff, ac

(c) cyhoeddi copi o'r adroddiad ar ei wefan, os oes ganddo un.

(4) Rhaid i'r hysbysiad a gyhoeddir o dan is-adran (3)—

(a) nodi pwnc yr adroddiad, a

(b) datgan y caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd edrych ar yr adroddiad a gwneud copi ohono neu unrhyw ran ohono ar yr adegau ac yn y lle neu'r lleoedd a bennir yn yr hysbysiad.

(5) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol—

(a) hysbysu unrhyw berson bod yr adroddiad wedi ei wneud;

(b) rhoi copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ohono i unrhyw berson.

(6) Mae'n drosedd i unrhyw berson sydd â gofal adroddiad o dan adran 52(3)—

(a) rhwystro person wrth iddo arfer hawl a roddwyd iddo gan is-adran (2)(a) neu (b), neu

(b) gwrthod cydymffurfio â gofyniad o dan is-adran (2)(c).

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (6) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(8) Mae corff yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad yn is-adran (3).

(9) Mae corff sy'n euog o drosedd o dan is-adran (8) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(10) Nid oes dim yn yr adran hon yn effeithio ar weithrediad adran 54(4) i (7).

**58 Cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer adroddiadau nad ydynt yn ddi-oed**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 52(6) wedi anfon adroddiad a wnaed o dan adran 52(4) i gorff llywodraeth leol.

(2) Rhaid i'r corff gyhoeddi copi o'r adroddiad ar ei wefan, os oes ganddo un.

(3) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol—

(a) hysbysu unrhyw berson bod adroddiad wedi ei wneud;

(b) cyhoeddi'r adroddiad;

(c) rhoi copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ohono i unrhyw berson.

(4) O'r adeg pan anfonir yr adroddiad i'r corff—

(a) rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol sicrhau y caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd—

(i) edrych ar yr adroddiad ar bob adeg resymol yn ddi-dâl;

(ii) gwneud copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ohono ar bob adeg resymol yn ddi-dâl;

(b) caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd fynnu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi copi o'r adroddiad neu unrhyw ran ran ohono iddo, pan delir swm rhesymol.

*Y cyhoedd yn cael edrych ar ddogfennau etc a chamau gweithredu gan yr Archwilydd Cyffredinol*

**59 Edrych ar ddatganiadau o gyfrifon ac adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol**

(1) Caiff etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal corff llywodraeth leol—

(a) edrych ar unrhyw ddatganiad o gyfrifon a luniwyd gan y corff o dan adran 69 a gwneud copi ohono ar bob adeg resymol ac yn ddi-dâl;

(b) edrych ar unrhyw adroddiad (ac eithrio adroddiad o dan adran 52(3)) a wnaed i'r corff gan yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud copi ohono ar bob adeg resymol ac yn ddi-dâl;

(c) mynnu bod copi o ddatganiad neu adroddiad sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b) yn cael ei anfon ato pan delir swm rhesymol am bob copi.

(2) Mae'n drosedd i berson sydd â gofal dogfen sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b) o is-adran (1)—

(a) rhwystro person wrth iddo arfer hawl o dan yr adran hon i edrych ar y ddogfen neu wneud copi ohoni, neu

(b) gwrthod rhoi copi o'r ddogfen i berson sydd â hawl i gael un o dan is-adran (1)(c).

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at gopi o ddogfen yn cynnwys copi o unrhyw ran ohoni.

**60 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau adeg yr archwilio**

(1) Pan fydd cyfrifon yn cael eu harchwilio o dan y Bennod hon, caiff aelod o'r cyhoedd â buddiant —

(a) edrych ar yr cyfrifon i'w harchwilio a phob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy;

(b) gwneud copi o'r cyfan neu unrhyw ran o'r cyfrifon ac o unrhyw un neu ragor o'r dogfennau eraill a grybwyllir ym mharagraff (a).

(2) Ar gais etholwr llywodraeth leol ar gyfer unrhyw ardal y mae a wnelo'r cyfrifon sydd i'w harchwilio o dan y Bennod hon â hi, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi cyfle i'r etholwr, neu i gynrychiolydd yr etholwr, gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon.

(3) Ond nid oes dim yn yr adran hon yn rhoi hawl i berson—

(a) i edrych ar unrhyw gyfrifon neu ddogfen arall sy'n ymwneud â chorff i'r graddau y mae'r cyfrifon neu'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth bersonol;

(b) i fynnu bod unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth ateb unrhyw gwestiwn.

(4) Yn is-adran (3) ystyr "gwybodaeth bersonol" yw gwybodaeth sy'n ymwneud ag

unigolyn sydd ar gael i'r corff llywodraeth leol am resymau sy'n gysylltiedig â'r naill neu'r llall o'r canlynol—

(a) y ffaith bod yr unigolyn yn dal neu wedi dal swydd yn y corff neu'n cael ei gyflogi neu wedi cael ei gyflogi gan y corff;

(b) y ffaith bod taliadau neu fuddion eraill yn cael eu gwneud neu eu rhoi neu wedi cael eu gwneud neu eu rhoi i'r unigolyn gan y corff mewn cysylltiad â swydd neu gyflogaeth o dan berson arall.

(5) At ddibenion is-adran (4) mae taliadau a wneir i unigolyn neu fuddion a roddir iddo mewn cysylltiad â swydd neu gyflogaeth yn cynnwys unrhyw daliad a wnaed neu fudd a roddwyd i unigolyn mewn cysylltiad â pheidio â dal y swydd neu'r gyflogaeth.

**61 Yr hawl i wrthwynebu adeg yr archwilio**

(1) Caiff etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal y mae a wnelo archwiliad o gyfrifon â hi, neu gynrychiolydd yr etholwr, wrthwynebu—

(a) unrhyw fater y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bŵer i wneud cais am ddatganiad mewn cysylltiad af o dan adran 62 (datgan bod eitem cyfrif yn anghyfreithlon);

(b) unrhyw fater arall y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i wneud adroddiad o dan adran 52 (adroddiadau di-oed ac adroddiadau eraill er budd y cyhoedd) mewn cysylltiad ag ef.

(2) Caniateir gwrthwynebu—

(a) yn ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol, neu

(b) gerbron yr Archwilydd Cyffredinol mewn archwiliad o'r cyfrifon.

(3) Rhaid i etholwr llywodraeth leol, neu gynrychiolydd yr etholwr, sy'n bwriadu gwrthwynebu gerbron yr Archwilydd Cyffredinol mewn archwiliad o'r cyfrifon—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol o'r gwrthwynebiad arfaethedig a'r sail dros ei wneud, a

(b) ar yr un pryd, anfon copi o'r hysbysiad i'r corff yr archwilir ei gyfrifon.

(4) Os nad yw etholwr llywodraeth leol, neu gynrychiolydd etholwr, sydd wedi rhoi hysbysiad am wrthwynebiad arfaethedig yn ymddangos yn yr archwiliad o gyfrifon, caiff yr Archwilydd Cyffredinol drin yr hysbysiad fel gwrthwynebiad ysgrifenedig at ddibenion yr adran hon.

**62 Datgan bod eitem cyfrif yn anghyfreithlon**

(1) Pan ymddangoso i'r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo gynnal archwiliad o dan y Bennod hon fod eitem cyfrif yn erbyn y gyfraith, caiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud cais i'r llys am ddatganiad bod yr eitem yn erbyn y gyfraith.

(2) Ar gais o dan yr adran hon caiff y llys wneud y datganiad y gwnaed cais amdano neu wrthod ei wneud.

(3) Os yw'r llys yn gwneud y datganiad y gwnaed cais amdano caiff orchymyn hefyd i'r cyfrifon gael eu cywiro.

(4) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu peidio â gwneud cais am ddatganiad o dan yr adran hon mewn perthynas ag eitem cyfrif, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol

hysbysu person sydd wedi gwrthwynebu o dan adran 61(1)(a) mewn perthynas â'r eitem cyfrif am ei benderfyniad.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys os yw'r person sydd wedi gwrthwynebu wedi methu â chydymffurfio ag adran 61(2).

(6) Caiff person a hysbyswyd o dan is-adran (4) am benderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol fynnu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan yn ysgrifenedig y rhesymau am y penderfyniad cyn diwedd y cyfnod a ganiateir, sef 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbyswyd y person am y penderfyniad.

(7) Caiff person sy'n cael rhesymau am benderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol o dan is-adran (6) apelio i'r llys yn erbyn y penderfyniad cyn diwedd y cyfnod a ganiateir, sef 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y caiff y person y rhesymau.

(8) Ar apêl o dan is-adran (7) mae gan y llys yr un pwerau mewn perthynas â'r eitem cyfrif ag y byddai ganddo petai'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud cais i'r llys am ddatganiad o dan is-adran (1) mewn perthynas â'r eitem cyfrif.

(9) Ar gais neu apêl o dan yr adran hon sy'n ymwneud â chyfrifon corff, caiff y llys wneud unrhyw orchymyn sydd yn ei dyb ef yn addas er mwyn i'r corff dalu treuliau yr aed iddynt mewn cysylltiad â'r cais neu'r apêl gan—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol;

(b) y person sy'n dwyn yr apêl.

(10) Mae gan yr Uchel Lys a'r llysoedd sirol awdurdodaeth at ddibenion yr adran hon.

*Atal gwariant anghyfreithlon*

**63 Hysbysiadau cynghori**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddyroddi hysbysiad o dan yr adran hon ("hysbysiad cynghori") os oes ganddo reswm i gredu bod un neu ragor o'r gofynion a ganlyn wedi eu bodloni.

(2) Y gofynion yw—

(a) bod corff llywodraeth leol neu swyddog i'r corff ar fin gwneud penderfyniad neu wedi gwneud penderfyniad sy'n golygu bod y corff yn mynd, neu y byddai'n mynd, i gostau anghyfreithlon;

(b) bod corff llywodraeth leol neu swyddog i'r corff ar fin cymryd neu wedi cymryd camau gweithredu a fyddai, o fynd â hwy i'r pen, yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg;

(c) bod corff llywodraeth leol neu swyddog i'r corff ar fin cofnodi eitem cyfrif y byddai ei chofnodi yn anghyfreithlon.

(3) At ddibenion yr adran hon ac adran 64 (effaith hysbysiad cynghori) mae camau gweithredu'r canlynol i'w trin fel camau gweithredu corff—

(a) pwyllgor neu is-bwyllgor i'r corff;

(b) person (ac eithrio swyddog i'r corff ) a awdurdodir i weithredu ar ran y corff.

(4) Hysbysiad sy'n bodloni'r gofynion hyn yw hysbysiad cynghori—

(a) mae wedi ei gyfeirio i'r corff neu at swyddog;

(b) mae'n pennu pa un neu ragor o'r gofynion a bennir yn is-adran (2) sydd wedi ei fodloni neu eu bodloni, a'r penderfyniad, cam gweithredu neu eitem cyfrif y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef;

(c) mae'n pennu y bydd yr hysbysiad yn cael effaith ar y diwrnod y cyflwynir copi ohono i'r person y cyfeiriwyd ef ato;

(d) mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff neu'r swyddog i roi i'r Archwilydd Cyffredinol dim llai na'r cyfnod penodedig o rybudd ysgrifenedig o fwriad y corff neu'r swyddog i—

(i) gwneud neu weithredu'r penderfyniad y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef,

(ii) cymryd neu barhau i gymryd y camau gweithredu y mae a wnelo'r hysbysiad â hwy, neu

(iii) cofnodi'r eitem cyfrif y mae a wnelo'r hysbysiad â hi.

(5) At ddibenion is-adran (4)(d) y cyfnod penodedig o rybudd yw'r cyfnod (nad yw'n fwy na 21 o ddiwrnodau) a bennir yn yr hysbysiad cynghori.

(6) O ran copi o hysbysiad cynghori—

(a) rhaid ei gyflwyno i'r corff y cyfeiriwyd ef iddo neu at swyddog i'r corff y cyfeiriwyd ef ato;

(b) os cyfeiriwyd yr hysbysiad at swyddog, rhaid ei gyflwyno i'r swyddog;

(c) caniateir ei gyflwyno i unrhyw berson arall y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn barnu ei fod yn addas.

(7) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, cyn pen y cyfnod gofynnol, gyflwyno datganiad o resymau dros y gred y cyfeirir ati yn is-adran (1)—

(a) i'r corff, a

(b) os cyfeiriwyd yr hysbysiad cynghori at swyddog i'r corff, i'r swyddog.

(8) Y cyfnod gofynnol at ddibenion is-adran (7) yw 7 niwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad cynghori i'r corff neu'r swyddog y cyfeiriwyd ef ato.

(9) Rhaid i ddogfen sydd i'w chyflwyno i swyddog corff o dan yr adran hon gael ei chyflwyno i'r swyddog drwy ei chyfeirio at y swyddog a chael—

(a) ei thraddodi iddo yn un o swyddfeydd y corff lle y cyflogir ef,

(b) ei gadael mewn swyddfa o'r fath, neu

(c) ei hanfon drwy'r post i swyddfa o'r fath.

(10) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol dynnu hysbysiad cynghori yn ôl ar unrhyw adeg.

(11) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi hysbysiad ysgrifenedig o'r tynnu'n ôl i unrhyw gorff, swyddog, neu berson arall y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad cynghori iddo o dan is-adran (6).

**64 Effaith hysbysiad cynghori**

(1) Mae is-adrannau (2) i (4) yn gymwys tra bo hysbysiad cynghori yn cael effaith.

(2) Os yw'r hysbysiad cynghori yn ymwneud â phenderfyniad, nid yw'n gyfreithlon i'r corff dan sylw nac i swyddog i'r corff wneud na gweithredu'r penderfyniad oni bai a hyd nes i'r amodau a nodir yn is-adran (5) gael eu bodloni.

(3) Os yw'r hysbysiad cynghori yn ymwneud â chamau gweithredu, nid yw'n gyfreithlon i'r corff dan sylw nac i swyddog i'r corff gymryd na pharhau i gymryd y camau gweithredu oni bai a hyd nes i'r amodau a nodir yn is-adran (5) gael eu bodloni.

(4) Os yw'r hysbysiad cynghori yn ymwneud ag eitem cyfrif, nid yw'n gyfreithlon i'r corff dan sylw nac i swyddog i'r corff gofnodi'r eitem cyfrif oni bai a hyd nes i'r amodau a nodir yn adran (5) gael eu bodloni.

(5) Dyma'r amodau—

(a) bod y corff wedi ystyried, yng ngoleuni'r hysbysiad cynghori a'r datganiad o dan adran 63(7), ganlyniadau gwneud y peth a grybwyllir ym mha un bynnag o is-adrannau (2) i (4) sy'n gymwys;

(b) bod y corff neu'r swyddog wedi rhoi y cyfnod o rybudd ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n ofynnol gan yr hysbysiad cynghori o dan adran 63(4)(d); ac

(c) bod y cyfnod hwnnw wedi dod i ben.

(6) Mae hysbysiad cynghori yn cael effaith ar y diwrnod y cyflwynir copi o'r hysbysiad i'r corff neu'r swyddog y cyfeiriwyd ef ato.

(7) Mae hysbysiad cynghori yn peidio â chael effaith—

(a) os na chyflwynir datganiad o resymau yn unol ag adran 63(7), ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn adran 63(8);

(b) mewn unrhyw achos arall, pan gaiff ei dynnu'n ôl o dan adran 63(10).

(8) Caiff SAC adennill o'r corff dan sylw unrhyw dreuliau yr aed iddynt yn rhesymol gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth ddyroddi neu mewn cysylltiad â dyroddi hysbysiad cynghori.

(9) Yn yr adran hon ystyr "y corff dan sylw", mewn perthynas â hysbysiad cynghori, yw'r corff y cyfeirir yr hysbysiad iddo, neu y cyfeirir yr hysbysiad at swyddog ohono.

**65 Hysbysiadau cynghori : achosion cyfreithiol**

(1) Mae'r is-adran a ganlyn yn gymwys—

(a) os yw corff yn contractio i waredu neu gaffael buddiant mewn tir cyn cyflwyno hysbysiad cynghori, a

(b) os yw'r hysbysiad cynghori yn cymryd effaith cyn cwblhau'r gwaredu neu'r caffael, ac o ganlyniad i hynny mae'n anghyfreithlon i'r corff gwblhau'r gwaredu neu'r caffael.

(2) Nid yw bodolaeth yr hysbysiad cynghori yn rhagfarnu unrhyw rwymedi mewn iawndal a allai fod ar gael i unrhyw berson o ganlyniad i fethiant y corff i gwblhau'r contract.

(3) Nid oes sail dros achos yn erbyn yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud â cholled neu ddifrod yr honnir iddo gael ei achosi o ganlyniad i hysbysiadau cynghori a ddyroddwyd yn ddidwyll.

**66 Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i hawlio adolygiad barnwrol**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud hawliad am adolygiad barnwrol mewn cysylltiad â phenderfyniad gan gorff llywodraeth leol, neu fethiant y corff i weithredu, os yw'n rhesymol i gredu y byddai'r penderfyniad neu'r methiant i weithredu wedi

effeithio ar gyfrifon y corff.

(2) Mae hyn yn ddarostyngedig i adran 31(3) (dim hawlio adolygiad barnwrol heb ganiatâd y llys) o Ddeddf Uwchlysoedd 1981.

(3) Nid yw bodolaeth y pwerau a roddir i'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Bennod hon yn sail dros wrthod—

(a) hawliad sy'n dod o fewn is-adran (1), neu

(b) cais am ganiatâd i wneud hawliad o fewn is-adran (1).

(4) Ar hawliad gan yr Archwilydd Cyffredinol am adolygiad barnwrol mewn cysylltiad â phenderfyniad corff neu fethiant corff i weithredu, caiff y llys wneud unrhyw orchymyn sydd yn ei farn ef yn addas er mwyn i'r corff dalu treuliau yr aeth yr Archwilydd Cyffredinol iddynt mewn cysylltiad â'r hawliad.

**67 Archwilio eithriadol**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol os yw—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol yn meddwl y byddai'n ddymunol i wneud hynny, neu

(b) etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal y corff yn gwneud cais am archwiliad eithriadol o gyfrifon y corff.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol os ymddengys iddynt y byddai'n ddymunol ac er budd y cyhoedd i gynnal archwiliad eithriadol o gyfrifon y corff.

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â'r cais, oni bai bod y cais yn afresymol.

(4) Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i archwiliad eithriadol o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys i archwiliad arferol o dan y Bennod hon—

(a) adran 51 (dyletswyddau cyffredinol ar archwilio cyfrifon);

(b) adrannau 88 (hawliau'r Archwilydd Cyffredinol i gael dogfennau a gwybodaeth) a 16 (hawliau'r Archwilydd Cyffredinol i gael dogfennau a gwybodaeth: troseddau);

(c) adrannau 52 i 58 (adroddiadau ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol);

(d) adrannau 61 (yr hawl i wrthwynebu adeg yr archwilio) a 62 (datgan bod eitem cyfrif yn anghyfreithlon).

(5) Ni chaniateir cynnal archwiliad eithriadol o gyfrifon corff o dan yr adran hon oni roddir 3 diwrnod clir o rybudd ysgrifenedig i'r corff bod yr archwiliad yn digwydd.

(6) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, yn y lle cyntaf, dalu unrhyw gostau yr eir iddynt wrth gynnal archwiliad eithriadol o gyfrifon corff o dan yr adran hon.

(7) Caiff SAC adennill y cyfan neu ran o'r costau oddi wrth y corff.

**68 Archwilio cyfrifon swyddogion**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw swyddog i gorff llywodraeth leol yn cael arian neu eiddo arall—

(a) ar ran y corff, neu

(b) y dylai'r swyddog roi cyfrif amdano i'r corff.

(2) Rhaid i archwilydd cyfrifon y corff archwilio cyfrifon y swyddog.

(3) Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys gyda'r addasiadau angenrheidiol i'r cyfrifon a'r archwiliad—

(a) adran 19;

(b) adran 21;

(c) adran 50(1);

(d) adrannau 51 i 54;

(e) adrannau 57 i 62;

(f) adran 67;

(g) adran 69.

**69 Rheoliadau cyfrifon ac archwilio**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n gymwys i gyrff llywodraeth leol, wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) cadw cyfrifon;

(b) ffurf, llunio ac ardystio cyfrifon a datganiadau o gyfrifon;

(c) adneuo cyfrifon corff yn swyddfeydd y corff neu mewn lle arall;

(d) cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfrifon a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon;

(e) arfer unrhyw hawliau gwrthwynebu neu archwilio a roddir gan adran 59, 60 neu 61 a'r camau sydd i'w cymryd gan gorff i hysbysu etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal y corff am yr hawliau hynny.

(2) Cyn gwneud unrhyw reoliadau rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol,

(b) unrhyw gymdeithasau awdurdodau lleol yng Nghymru yr ymddengys iddynt fod ganddynt fuddiant, ac

(c) unrhyw gyrff cyfrifwyr yr ymddengys iddynt yn briodol.

(3) Mae person yn cyflawni trosedd os yw—

(a) yn torri darpariaeth mewn rheoliadau o dan yr adran hon heb esgus rhesymol, a

(b) y rheoliadau yn datgan bod y dor-ddarpariaeth yn drosedd.

(4) Os yw person a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (3) yn dwyn tystiolaeth bod ganddo esgus rhesymol am y methiant, yr erlyniad sydd i brofi nad oedd gan y person esgus rhesymol.

(5) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (3) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(6) Mae is-adran (7) yn gymwys os yw—

(a) person yn cael ei gollfarnu am gyflawni trosedd o dan is-adran (3) mewn perthynas â chorff, a

(b) yr Archwilydd Cyffredinol yn mynd i gostau mewn cysylltiad ag achos am y drosedd.

(7) Caniateir adennill y costau oddi wrth y person a gollfernir neu'r corff, i'r graddau nas adenillir hwy oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall.

*Astudiaethau gwerth am arian*

**70 Astudiaethau i wella darbodaeth etc mewn gwasanaethau**

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, hybu neu ymgymryd ag astudiaethau sydd wedi eu cynllunio i'w alluogi i wneud argymhellion—

(a) i wella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau awdurdodau gwella Cymreig at ddibenion Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;

(b) i wella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau a ddarperir gan gyrff llywodraeth leol eraill;

(c) i wella rheoli ariannol neu reoli arall ar gyrff llywodraeth leol.

(2) Mae'r astudiaethau y mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd â hwy neu eu hybu o dan is-adran (1) yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) astudiaethau sydd wedi eu cynllunio i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i benderfynu pa gyfarwyddiadau y dylai eu rhoi o dan adran 75;

(b) astudiaethau o wybodaeth a gyhoeddir yn unol ag adran 75 sydd wedi eu cynllunio i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i benderfynu, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, pa wybodaeth gymharol i'w chyhoeddi am y safonau perfformiad a gyflawnir gan gyrff sy'n gyrff perthnasol at ddibenion yr adran honno.

(3) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol hybu neu ymgymryd ag astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan gyrff llywodraeth leol, a gwneud argymhellion sy'n ymwneud â hynny.

(4) Pan fo'r Archwilydd Cyffredinol yn hybu neu'n ymgymryd ag astudiaeth o dan yr adran hon, rhaid iddo gyhoeddi'r canlynol neu sicrhau eu bod ar gael drwy ddull arall—

(a) canlyniadau'r astudiaeth, a

(b) unrhyw argymhellion a wneir.

(5) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei rwymedigaeth o dan is-adran (4) drwy osod adroddiad sy'n cynnwys canlyniadau'r astudiaeth ac unrhyw argymhellion a wneir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Cyn hybu neu ymgymryd ag astudiaeth o dan yr adran hon, ac eithrio astudiaeth o fath a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) o is-adran (2), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r canlynol—

(a) unrhyw gymdeithasau cyrff llywodraeth leol a ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol fel rhai â buddiant, a

(b) unrhyw gymdeithasau cyflogeion a ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol fel rhai priodol.

(7) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gydweithio â'i gilydd mewn cysylltiad ag arfer eu priod swyddogaethau o dan yr adran hon ac adrannau 94 a 95 (adolygiadau, ymchwiliadau ac astudiaethau gan Weinidogion Cymru) o Ddeddf Iechyd

a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

(8) Yn yr adran hon mae i "awdurdod gwella Cymreig" yr ystyr a roddir yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**71 Astudiaethau ar effaith darpariaethau statudol etc**

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hybu neu ymgymryd ag astudiaethau sydd wedi eu cynllunio i'w alluogi i lunio adroddiadau ar effaith y canlynol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd corff llywodraeth leol wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau—

(a) gweithrediad unrhyw ddarpariaethau statudol, neu

(b) unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru (p'un ai o dan ddarpariaeth statudol ai peidio).

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol o bryd i'w gilydd osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad am unrhyw faterion sydd yn ei farn ef—

(a) yn codi o astudiaethau o dan yr adran hon, a

(b) yn faterion y dylid tynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol atynt.

(3) Cyn hybu neu ymgymryd ag astudiaeth o dan yr adran hon, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r canlynol—

(a) unrhyw gymdeithasau cyrff llywodraeth leol a ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol bod â wnelont â'r peth, a

(b) unrhyw gymdeithasau cyflogeion a ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol fel rhai priodol ymgynghori â hwy.

(4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru gydweithio â'i gilydd mewn cysylltiad ag arfer eu priod swyddogaethau o dan yr adran hon ac adrannau 95(2) (astudiaethau gan Weinidogion Cymru ar effaith darpariaethau statudol) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

**72 Cydweithio â'r Comisiwn Archwilio**

Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydweithio â'r Comisiwn Archwilio pan ymddangoso i'r Archwilydd Cyffredinol ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn cyflawni'r swyddogaethau o dan adrannau 71 (astudiaethau i wella darbodaeth etc mewn gwasanaethau) a 72 (astudiaethau ar effaith darpariaethau statudol etc) yn effeithlon ac yn effeithiol.

**73 Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol, ar gais corff llywodraeth leol, hybu neu ymgymryd ag astudiaethau sydd wedi eu cynllunio i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i wneud argymhellion i wella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y corff wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

(2) Cyn gwneud y cais rhaid i'r corff ymgynghori ag unrhyw gymdeithasau cyflogeion a ymddengys iddo fel rhai priodol ymgynghori â hwy.

*Safonau perfformio*

**74 Safonau perfformio: cyrff perthnasol**

(1) Mae pob un o'r cyrff llywodraeth leol a ganlyn yn gorff perthnasol at ddibenion adrannau 75 i 77—

(a) awdurdod lleol;

(b) pwyllgor awdurdod lleol (gan gynnwys cyd-bwyllgor o ddau awdurdod neu fwy);

(c) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(d) [comisiynydd heddlu a throsedd] ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru;

(e) awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 (pŵer i greu awdurdodau tân ac achub cyfunol) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 (awdurdodau cyfunol o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947) o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu bod adrannau 75 i 77 yn cael effaith fel petai unrhyw gorff llywodraeth leol arall yn gorff perthnasol at ddibenion yr adrannau hynny.

(3) Yn yr adran hon, nid yw "awdurdod lleol" yn cynnwys cyngor cymunedol.

**75 Cyhoeddi gwybodaeth o ran safonau perfformio**

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi unrhyw gyfarwyddiadau y mae'n ei farnu'n briodol ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol gyhoeddi'r wybodaeth a grybwyllir yn is-adran (2).

(2) Gwybodaeth mewn perthynas â'u gweithgareddau mewn blwyddyn ariannol yw'r wybodaeth honno, a fydd, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, yn hwyluso gwneud cymariaethau priodol—

(a) rhwng safonau perfformiad a gyflawnwyd gan gyrff perthnasol gwahanol yn y flwyddyn ariannol, neu

(b) rhwng safonau perfformiad a gyflawnwyd gan gyrff perthnasol mewn blynyddoedd ariannol gwahanol.

(3) Gwneir y cymariaethau wrth gyfeirio at y meini prawf canlynol: cost, darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

(4) Os yw'n ofynnol i gorff perthnasol, drwy gyfarwyddid o dan yr adran hon, gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid iddo—

(a) gwneud trefniadau i gasglu a chofnodi'r wybodaeth sy'n sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i'w chyhoeddi ac (i'r graddau y bo hynny'n ymarferol) fod popeth a gyhoeddir yn unol â'r cyfarwyddyd yn gyflawn ac yn gywir,

(b) cyhoeddi'r wybodaeth yn unol â'r cyfarwyddyd ac mewn dull a ganiateir o dan adran 102 cyn diwedd y cyfnod o 9 mis sy'n cychwyn yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ac

(c) cadw dogfen sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth a gyhoeddwyd yn unol â'r cyfarwyddyd ar gael i'w harchwilio gan etholwyr awdurdod lleol ei ardal.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio'r cyfnod a bennir yn is-adran (4)(b).

(6) Rhaid i'r cyfnod a bennir yn y gorchymyn o dan is-adran (5) beidio â bod yn hirach na 9 mis sy'n cychwyn yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol dan sylw.

(7) Caiff etholwr awdurdod lleol ar gyfer ardal corff perthnasol—

(a) archwilio a gwneud copïau o'r ddogfen gyfan a gaiff ei chadw ar gael i'w harchwilio gan y corff o dan is-adran (4)(c), neu unrhyw ran ohoni, a hynny ar bob adeg resymol ac yn ddi-dâl;

(b) gofyn am gopïau o'r ddogfen gyfan honno, neu ran ohoni, gael eu traddodi iddo pan delir swm rhesymol am bob copi.

(8) Mae'n drosedd i berson sydd â dogfen a gaiff ei chadw ar gael i'w harchwilio o dan is-adran (4)(c) yn ei feddiant—

(a) rhwystro person sy'n arfer ei hawliau o dan is-adran (7), neu

(b) gwrthod cydymffurfio â gofyniad o dan is-adran (7)(b).

(9) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (8) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**76 Dulliau o gyhoeddi gwybodaeth a ganiateir o dan adran 75**

(1) Dyma'r dulliau cyhoeddi a ganiateir o dan adran 75(4)(b) .

(2) Caiff y corff perthnasol gyhoeddi'r wybodaeth mewn papur newydd—

(a) sydd wedi ei argraffu i werthu, a

(b) sy'n cylchredeg yn ei ardal.

(3) Os yw'r corff perthnasol yn sicrhau bod yr amod dosbarthu yn cael ei fodloni mewn perthynas â'r wybodaeth, caiff gyhoeddi'r wybodaeth mewn papur newydd neu gyfnodolyn sydd—

(a) wedi ei gynhyrchu a'i ddosbarthu gan berson arall (ac eithrio [endid sydd o dan reolaeth awdurdod lleol]), a

(b) yn rhad ac am ddim i'r derbynnydd.

(4) Mae corff perthnasol yn sicrhau bod yr amod dosbarthu yn cael ei fodloni mewn perthynas â'r wybodaeth—

(a) os yw'r corff, mewn unrhyw achos, yn cymryd pob cam sy'n rhesymol i sicrhau bod copi o'r cyhoeddiad sy'n cynnwys yr wybodaeth yn cael ei ddosbarthu i bob tŷ annedd yn ei ardal;

(b) mewn achos pan fo'r corff yn ystyried bod yr wybodaeth o ddiddordeb i bersonau sy'n cynnal busnes yn ei ardal, os yw'r corff yn cymryd y camau hynny y mae'n eu hystyried yn rhesymol ac yn ymarferol i sicrhau bod copi o'r cyhoeddiad sy'n cynnwys yr wybodaeth yn cael ei ddosbarthu hefyd i fangreoedd busnes yn ei ardal.

(5) [Yn is-adran (3) mae i "endid sydd o dan reolaeth awdurdod lleol" yr ystyr a roddir iddo at ddibenion yr adran honno drwy orchymyn o dan adran 218 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.]

(6) [Ond caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod endid neu endidau o ddisgrifiad

penodol yn cael eu trin fel pe na baent o dan reolaeth awdurdod lleol at ddibenion is-adran (3)].

(7) [Caniateir rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (6) fel ei fod yn gymwys—

(a) am y cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd; neu

(b) yn ddarostyngedig i amodau a bennir felly.]

(8) [Yn is-adran (6) ystyr "endid" yw unrhyw endid, boed hynny'n berson cyfreithiol ai peidio.]

**77 Cyfarwyddiadau o dan adran 75 mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth**

(1) Rhaid i gyfarwyddyd o dan adran 75 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth—

(a) nodi'r flwyddyn neu'r blynyddoedd ariannol y mae'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi i ymwneud â hi neu â hwy,

(b) pennu neu ddisgrifio'r gweithgareddau y mae'r wybodaeth i ymwneud â hwy, ac

(c) gwneud darpariaeth ynglŷn â'r materion sydd i'w cynnwys yn yr wybodaeth ac ynglŷn â ffurf ei chyhoeddi.

(2) Caniateir rhoi cyfarwyddyd o dan adran 75 fel ei fod yn gymwys i naill ai'r holl gyrff perthnasol neu'r holl gyrff perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 75 sy'n gosod gofyniad newydd ar gorff perthnasol ynglŷn â chyhoeddi unrhyw wybodaeth, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) ymgynghori ag unrhyw gymdeithasau o gyrff perthnasol y gwêl yn dda i ymgynghori â hwy, a

(b) ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y gwêl yn dda i ymgynghori â hwy.

(4) Rhaid i gyfarwyddyd o dan adran 75 sy'n gosod gofyniad newydd ar gorff perthnasol ynglŷn â chyhoeddi unrhyw wybodaeth beidio â chael ei roi yn hwyrach na 31 Rhagfyr yn y flwyddyn ariannol sy'n dod cyn y flwyddyn ariannol berthnasol.

(5) Y flwyddyn ariannol berthnasol yw'r flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi yn ymwneud â hi.

(6) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 75 rhaid iddo—

(a) cyhoeddi'r cyfarwyddyd yn y dull y mae'n ei ystyried yn briodol ar gyfer dod ag ef i sylw'r cyhoedd, a

(b) anfon copi o'r cyfarwyddyd i bob gorff perthnasol y gosodir dyletswyddau arnynt yn rhinwedd y cyfarwyddyd.

(7) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at osod gofyniad newydd ar gorff perthnasol ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth yn gyfeiriadau at—

(a) gosod gofyniad gan y cyfarwyddyd cyntaf o dan adran 75 sy'n gymwys i'r corff;

(b) unrhyw estyniad neu ychwanegiad wedi hynny at—

(i) y materion sydd i'w cynnwys yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol i'r corff ei chyhoeddi mewn perthynas â blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddiadau o dan adran 75, neu

(ii) y gweithgareddau y mae'r wybodaeth honno i ymwneud â hwy.

**78 Dehongli Pennod 3**

(1) Yn y Bennod hon, ystyr "etholwr llywodraeth leol" yw person a gofrestrwyd fel etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr o etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl.

(2) Mae cyfeiriad yn y Bennod hon at etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal, mewn perthynas ag awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n awdurdod cynllunio lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol, yn gyfeiriad at etholwr llywodraeth leol ar gyfer unrhyw ardal y mae'r cyfan neu ran ohoni wedi ei chynnwys yn ardal y Parc.

## PENNOD 4

Paru data

**79 Pŵer i gynnal ymarferion paru data**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data neu drefnu iddynt gael eu cynnal ar ei ran.

(2) Ymarfer sy'n ymwneud â chymharu setiau o ddata i benderfynu i ba raddau y maent yn paru (gan gynnwys adnabod patrymau a thueddiadau) yw ymarfer paru data.

(3) Mae'r pŵer yn is-adran (1) yn arferadwy at y diben o gynorthwyo atal a datgelu twyll yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru.

(4) Caniateir i'r cynhorthwy hwnnw ffurfio rhan o archwiliad, ond nid oes rhaid iddo ffurfio rhan o archwiliad.

(5) Ni chaniateir defnyddio ymarfer paru data i adnabod patrymau a thueddiadau mewn ymddygiad neu nodweddion unigolyn sydd yn dadlennu dim mwy na'i botensial i gyflawni twyll yn y dyfodol.

(6) Yn y darpariaethau canlynol o'r Bennod hon, mae cyfeiriadau at ymarfer paru data yn gyfeiriad at ymarfer a gynhelir neu a drefnir i'w gynnal o dan yr adran hon.

**80 Darparu data gorfodol**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i—

(a) unrhyw gorff a grybwyllir yn is-adran (2), a

(b) unrhyw swyddog neu aelod o'r corff hwnnw,

ddarparu'r data hwnnw i'r Archwilydd Cyffredinol neu berson sy'n gweithredu ar ei ran, (ar y ffurf honno) y caiff yr Archwilydd Cyffredinol neu berson sy'n gweithredu ar ei ran ofyn amdani at y diben o gynnal ymarferion paru data.

(2) Dyma'r cyrff—

(a) corff llywodraeth leol yng Nghymru (fel a ddiffinnir yn adran 49);

(b) corff GIG Cymru (fel a ddiffinnir yn adran 30).

(3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad yr Archwilydd Cyffredinol o dan is-adran (1) yn euog o drosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod—

(a) i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol, a

(b) i ddirwy bellach, nad yw'n fwy na £20, am bob diwrnod y mae'r drosedd yn

parhau ar ôl i'r person gael ei gollfarnu am y drosedd honno.

(4) Os yw person a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (3) yn dwyn tystiolaeth bod ganddo esgus rhesymol am y methiant, yr erlyniad sydd i brofi nad oedd oedd ganddo esgus rhesymol.

(5) Os yw swyddog neu aelod o gorff yn cael eu collfarnu o drosedd o dan is-adran (3), caniateir i unrhyw gostau yr aeth yr Archwilydd Cyffredinol iddynt mewn cysylltiad ag achos am y drosedd gael eu hadennill oddi wrth y corff hwnnw, i'r graddau nas enillir hwy oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall.

**81 Darparu data gwirfoddol**

(1) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried ei bod yn briodol cynnal ymarfer paru data gan ddefnyddio data sy'n cael ei ddal gan gorff neu berson nad yw'n ddarostyngedig i adran 80, neu'n cael ei ddal ar ran corff neu berson nad yw'n ddarostyngedig i'r adran honno, caniateir datgelu'r data i'r Archwilydd Cyffredinol neu berson sy'n gweithredu ar ei ran.

(2) Nid yw datgeliad o dan is-adran (1) yn torri—

(a) unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd sy'n ddyledus gan berson sy'n gwneud y datgeliad, neu

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar y datgeliad gwybodaeth (ym mha fodd bynnag ei gosodir).

(3) Ond nid oes dim yn yr adran hon yn awdurdodi datgeliad sydd—

(a) yn torri Deddf Diogelu Data 1998, neu

(b) wedi ei wahardd gan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

(4) Ni chaniateir datgelu data o dan is-adran (1) os yw'r data'n cynnwys data claf.

(5) Ystyr "data claf" yw data mewn perthynas ag unigolyn sydd yn cael ei ddal at ddibenion meddygol (o fewn ystyr adran 251 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006) a bod modd, o gael y data hwnnw, adnabod unigolyn.

(6) Nid yw'r adran hon yn cyfyngu ar yr amgylchiadau y caniateir datgelu data ar wahân i'r adran hon.

(7) Caniateir i ymarferion paru data gynnwys data a ddarparwyd gan gorff neu berson y tu allan i Gymru a Lloegr.

**82 Datgelu canlyniadau paru data etc**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r wybodaeth ganlynol—

(a) gwybodaeth sy'n ymwneud â chorff neu berson penodol a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu ar ei ran, at y diben o gynnal ymarfer paru data,

(b) canlyniadau unrhyw ymarfer o'r fath.

(2) Caniateir datgelu'r wybodaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu ar ei ran, os yw'r datgeliad—

(a) yn ddatgeliad at ddiben neu mewn cysylltiad â diben y cynhaliwyd yr ymarfer paru data ar ei gyfer,

(b) i gorff a grybwyllir yn is-adran (3) (neu barti perthynol) ar gyfer neu mewn

cysylltiad ag un neu ragor o swyddogaethau'r corff hwnnw sy'n cyfateb neu'n debyg i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Bennod 2 neu 3 o'r Rhan hon, neu

(c) yn unol â dyletswydd a osodwyd gan ddarpariaeth statudol, neu odani.

(3) Dyma'r cyrff—

(a) y Comisiwn Archwilio,

(b) Archwilydd Cyffredinol yr Alban,

(c) Comisiwn Cyfrifon yr Alban,

(d) Archwilio'r Alban,

(e) Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon,

(f) person a ddynodir yn archwilydd llywodraeth leol o dan Erthygl 4 o Orchymyn Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2005.

(4) ystyr "parti perthynol", mewn perthynas â chorff a grybwyllir yn is-adran (3), yw—

(a) corff neu berson sy'n gweithredu ar ei ran,

(b) corff y mae'n ofynnol i'w gyfrifon gael ei archwilio ganddo, neu gan berson a benodir ganddo,

(c) person a benodir ganddo i archwilio'r cyfrifon hynny.

(5) Os yw data sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ymarfer paru data yn cynnwys data claf—

(a) mae is-adran (2)(a) yn gymwys ond i'r graddau y mae'r diben y gwneir y datgeliad ar ei gyfer yn ymwneud â chorff GIG perthnasol,

(b) mae is-adran (2)(b) yn gymwys ond i'r graddau y mae'r swyddogaeth y gwneir y datgeliad ar ei chyfer neu mewn perthynas â hi yn ymwneud â chorff o'r fath.

(6) Yn is-adran (5)—

(a) mae i "data claf" yr un ystyr ag a roddir iddo yn adran 81(5),

(b) ystyr "corff GIG perthnasol" yw—

(i) corff GIG Cymru fel y'i ddiffinnir yn adran 30,

(ii) corff gwasanaeth iechyd fel y'i ddiffinnir yn adran 53(1) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998,

(iii) corff y GIG fel y'i ddiffinnir yn adran 22(1) o Ddeddf Gofal Cymdeithas ac Iechyd (Yr Alban) 2002,

(iv) corff y mae Erthygl 90 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Personol (Gogledd Iwerddon) 1972 yn gymwys iddo.

(7) Ni chaniateir datgelu ymhellach wybodaeth a ddatgelir o dan is-adran (2) ac eithrio—

(a) at y diben neu mewn cysylltiad â'r diben y datgelwyd ef o dan baragraff (a) neu ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r swyddogaeth y datgelwyd ef ar ei chyfer o dan baragraff (b) o'r is-adran honno,

(b) er mwyn ymchwilio i drosedd neu ei herlyn (i'r graddau nad yw'r datgeliad yn dod o fewn paragraff (a)), neu

(c) yn unol â dyletswydd a osodwyd gan ddarpariaeth statudol neu odani.

(8) Ac eithrio fel a awdurdodir gan is-adrannau (2) a (7), mae person sy'n datgelu

gwybodaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi yn euog o drosedd ac yn agored—

(a) ar gael rhywun yn euog drwy dditiad, i'w garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd, i ddirwy, neu i'r ddau, neu

(b) ar gollfarn ddiannod, i'w garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na 12 mis, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu i'r ddau.

(9) Nid yw adran 92 (cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth) yn gymwys i wybodaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi.

**83 Cyhoeddi**

(1) Nid oes dim yn adran 82 yn gwahardd yr Archwilydd Cyffredinol rhag cyhoeddi adroddiad ar ymarfer paru data (gan gynnwys adroddiad ar ganlyniadau'r ymarfer).

(2) Ond ni chaiff yr adroddiad gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â chorff neu berson perthnasol—

(a) os yw'r corff neu berson yn destun i unrhyw ddata sydd wedi ei gynnwys yn yr ymarfer paru data,

(b) os oes modd adnabod y corff neu'r person o'r wybodaeth, ac

(c) os nad yw'r wybodaeth yn eiddo i'r cyhoedd fel arall.

(3) Caniateir i adroddiad sy'n cael ei gyhoeddi o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi mewn unrhyw fodd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn briodol er mwyn dod ag ef i sylw'r aelodau hynny o'r cyhoedd a all fod â diddordeb ynddo.

(4) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw bwerau sydd gan archwilydd neu'r Archwilydd Cyffredinol lle y mae'r ymarfer paru data dan sylw yn ffurfio rhan o archwiliad o dan Bennod 2 neu 3 y Rhan hon.

**84 Cod ymarfer paru data**

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol lunio cod ymarfer sy'n ymwneud ag ymarferion paru data, a chadw golwg arno.

(2) Pan fo ymarfer o'r fath yn cael ei gynnal a phan mae rhywun yn cymryd rhan mewn ymarfer o'r fath, rhaid ystyried y cod.

(3) Caiff cod a lunnir o dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol.

(4) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddiwygio cod a lunnir o dan yr adran hon o bryd i'w gilydd.

(5) Cyn llunio neu ddiwygio'r cod, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r cyrff a grybwyllir yn adran 80(2), y Comisiynydd Gwybodaeth ac â chyrff neu bersonau eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(6) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) osod copi o'r cod, ac o unrhyw ddiwygiadau a wneir iddo, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a

(b) cyhoeddi'r cod, o dro i dro, fel ag y mae mewn grym am y tro.

**85 Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol**

(1) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, ddiwygio'r Bennod hon—

(a) i ychwanegu unrhyw ddiben a grybwyllir yn is-adran (2) at y dibenion y caniateir cynnal ymarferion paru data yn eu cylch,

(b) i addasu cymhwysiad y Bennod hon mewn perthynas ag unrhyw ddiben a ychwanegir.

(2) Dyma'r dibenion y caniateir eu hychwanegu—

(a) cynorthwyo i atal a datgelu troseddu (ac eithrio twyll) yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru,

(b) cynorthwyo i ddal ac erlyn troseddwyr yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru,

(c) cynorthwyo i gasglu dyled sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau yn ymwneud â Chymru yn unig, neu â rhan o Gymru yn unig.

(3) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r Bennod hon drwy orchymyn—

(a) i ychwanegu corff cyhoeddus at y rhestr o gyrff yn adran 80(2) y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â Chymru'n unig neu ag ardal o Gymru yn unig,

(b) i addasu cymhwysiad y Bennod hon mewn perthynas â chorff sydd wedi ei ychwanegu felly,

(c) i hepgor corff o'r rhestr honno.

(4) Cyn gwneud gorchymyn o dan yr adran hon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol.

(5) O ran gorchymyn o dan yr adran hon—

(a) rhaid ei wneud drwy offeryn statudol, a

(b) caiff gynnwys y darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau atodol, neu y darpariaethau trosiannol hynny y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried yn briodol.

(6) Ni chaniateir i orchymyn o dan yr adran hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn statudol wedi cael ei osod gerbron, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad dau Dŷ'r Senedd.

## PENNOD 5

## SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL: ATODOL

### 86 Ardystio hawliadau, ffurflenni etc

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, os oes corff perthnasol yn gofyn iddo, wneud trefniadau ar gyfer—

(a) ardystio unrhyw hawliad neu ffurflen o ran grant a wnaed neu gymhorthdal a dalwyd i'r corff hwnnw gan Weinidogion Cymru, unrhyw un o Weinidogion y Goron neu unrhyw awdurdod cyhoeddus,

(b) ardystio unrhyw gyfrif a gyflwynwyd gan y corff hwnnw i Weinidogion Cymru, unrhyw un o Weinidogion y Goron neu unrhyw awdurdod cyhoeddus gyda golwg ar gael taliad o dan gontract rhwng y corff hwnnw a Gweinidogion Cymru, Gweinidogion y Goron neu'r awdurdod cyhoeddus,

(c) ardystio amcangyfrif y corff hwnnw o dan baragraff 5(6)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 o swm ei gyfraniad ardrethi annomestig ar gyfer blwyddyn ariannol, ac ar gyfer ardystio'r swm a gyfrifwyd, neu

(d) ardystio unrhyw ffurflen gan y corff hwnnw, drwy unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad, sy'n ofynnol i gael ei ardystio neu yr awdurdodir ei ardystio gan archwilydd y corff neu o dan drefniadau a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(2) Yn yr adran hon—

ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw corff a sefydlwyd gan Gytuniadau'r UE neu odanynt neu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad, ac

ystyr "corff perthnasol" yw, ar unrhyw adeg, corff y mae ei gyfrifon neu ei ddatganiadau cyfrifon yn ddarostyngedig i'w harchwilio o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon.

**87 Cod ymarfer archwilio**

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddyroddi cod ymarfer archwilio sy'n rhagnodi'r modd y mae i gyflawni ei swyddogaethau o dan Benodau 1, 2 a 3 o'r Rhan hon a swyddogaethau tebyg o dan unrhyw ddeddfiad arall.

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â'r cod.

(3) Rhaid i god a ddyroddir o dan yr adran hon ymgorffori'r hyn yr ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer proffesiynol gorau o ran y safonau, gweithdrefnau a'r technegau sydd i'w mabwysiadu.

(4) Caiff cod a ddyroddir o dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol.

(5) Cyn dyroddi cod o dan yr adran hon rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddo ei bod yn briodol ymgynghori a hwy.

(6) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol drefnu bod unrhyw god a ddyroddir o dan yr adran hon yn cael ei gyhoeddi.

(7) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol o dro i dro adolygu cod a ddyroddir o dan yr adran hon; ag mae is-adrannau (3) i (6) yn gymwys i god diwygiedig fel y maent yn gymwys i god fel y'i paratowyd gyntaf.

**88 Hawliau i ddogfennau a gwybodaeth etc**

(1) Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl cael mynediad at bob dogfen sy'n ymwneud â chorff cyhoeddus yr ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol ei bod yn angenrheidiol at ddibenion arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r corff hwnnw o dan Benodau 1 i 4 o'r Rhan hon, a hynny ar bob adeg resymol.

(2) At ddibenion yr adran hon mae "corff cyhoeddus" yn cynnwys person sy'n gwneud cytundeb â Gweinidogion Cymru neu un o Weinidogion y Goron o dan adran 25(3).

(3) Mae'r dogfennau y mae'r hawl yn gymwys iddynt yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig) i'r canlynol—

(a) dogfen sy'n cael ei dal neu ei rheoli gan berson sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan y corff drwy gyfrwng grant, benthyciad neu garantî, neu o ganlyniad i gymryd buddiant mewn unrhyw eiddo neu gorff corfforaethol;

(b) dogfen sy'n cael ei dal neu ei rheoli gan berson sydd wedi cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r corff yn unol â chontract yr oedd y corff yn barti iddo, neu sydd wedi cyflenwi nwyddau neu wasanaethau yn unol ag is-gontract perthnasol;

(c) dogfen o ddisgrifiad a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

(4) At ddibenion is-adran (3)(b) mae contract yn is-gontract perthnasol os yw perfformio'r contract hwnnw'n cyflawni, neu'n cyfrannu at gyflawni, dyletswydd i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r corff mewn contract arall.

(5) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i berson y mae'n credu bod ganddo wybodaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (6)—

(a) rhoi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau o dan Benodau 1 i 4 o'r Rhan hon,

(b) i ddod ger ei fron yn bersonol—

(i) i roi'r cymorth, yr wybodaeth neu'r esboniad, neu

(ii) i gyflwyno unrhyw ddogfen sy'n cael ei dal neu ei rheoli ganddo, ac y mae'r hawl a roddir yn is-adran (1) yn gymwys iddi.

(6) Gwybodaeth sydd yn ymwneud â'r canlynol yw'r wybodaeth—

(a) corff cyhoeddus (gan gynnwys landlord cymdeithasol cofrestredig) sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Penodau 1 i 4 o'r Rhan hon;

(b) dogfen y mae'r hawl a roddir yn is-adran (1) yn gymwys iddi;

(c) person sy'n dal neu'n rheoli dogfen o'r fath.

(7) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol at ddiben arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â chorff cyhoeddus o dan Benodau 1 i 4 y Rhan hon ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ddangos ei gyfrifon (gan gynnwys cyfrifon ar gyfer trafodion penodol).

(8) Rhaid i gorff cyhoeddus ddarparu pob cyfleuster a'r holl wybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol y gallai fod eu hangen arno at ddibenion arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â'r corff o dan Benodau 1 i 4 o'r Rhan hon.

(9) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol,

(b) y personau hynny yr ymddengys yn briodol iddynt ymgynghori â hwy.

**89 Hawliau i ddogfennau a gwybodaeth: troseddau**

(1) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 88(1) yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar gollfarn ddiannod—

(a) i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol, a

(b) i ddirwy bellach nad yw'n fwy na £20 am bob diwrnod y mae'r drosedd yn parhau ar ôl i'r person gael ei gollfarnu am y drosedd honno.

(3) Os yw person a gyhuddir o drosedd o dan is-adran (1) yn dwyn tystiolaeth fod ganddo esgus rhesymol am y methiant, yr erlyniad sydd i brofi nad oedd gan y person esgus

rhesymol.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys os—

(a) yw person yn euog o drosedd o dan is-adran (1), a

(b) oes costau yr aed iddynt gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad ag achos am y drosedd.

(5) Caniateir adennill y costau oddi wrth y person a gollfarnwyd neu wrth berson priodol, i'r graddau nas adenillir hwy oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall.

(6) Person perthnasol yw person a oedd yn rheoli'r ddogfen a grybwyllir yn adran 88(6) ar yr adeg y gosodwyd y gofyniad.

(7) Nid yw mynd yn groes i is-adran (1) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol yn droseddol.

(8) Ond nid yw is-adran (7) yn effeithio ar atebolrwydd troseddol personau sydd yng ngwasanaeth y Goron.

**90 Cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyfeirio unrhyw fater sy'n codi o arferiad swyddogaethau o dan Bennod 3 at yr Ysgrifennydd Gwladol os ymddengys bod y mater yn un a allai fod yn berthnasol at ddibenion unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol.

(2) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol gopi o unrhyw adroddiad a wneir ganddo o dan adran 52 sy'n cynnwys sylwadau ar weinyddiaeth awdurdod lleol o fudd-dal tai neu fudd-dal treth gyngor.

**91 Astudiaethau gweinyddu budd-dal ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol**

(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, astudiaethau gweinyddu budd-dal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal yr astudiaethau hynny.

(2) Astudiaethau sydd wedi eu cynllunio i alluogi gwneud argymhellion ar gyfer gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gwella safon perfformio wrth gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â budd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor (neu'r ddau), gan un neu ragor o awdurdodau lleol yng Nghymru, yw astudiaethau gweinyddu budd-dal.

(3) Caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol ddatgelu unrhyw wybodaeth a geir yng nghwrs astudiaeth gweinyddu budd-dal i'r Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion unrhyw swyddogaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gysylltiedig â budd-dal tai neu fudd-dal y Dreth Gyngor.

(4) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol anfon copi o adroddiad o astudiaeth gweinyddu budd-dal a wnaed ganddo i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(5) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Archwilydd Cyffredinol anfon copi o adroddiad o astudiaeth gweinyddu budd-dal i unrhyw awdurdod lleol y mae'r astudiaeth yn ymwneud ag ef.

(6) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi adroddiad o astudiaeth gweinyddu budd-dal ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol.

(7) Dim ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud trefniadau i dalu ffi i SAC mewn cysylltiad â'r astudiaeth y caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaeth gweinyddu budd-dal.

(8) Mae'n rhaid i faint y ffi fod yn swm rhesymol sydd wedi ei gytuno rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a SAC.

(9) Rhaid i ffi sy'n daladwy o dan yr adran hon gael ei chodi'n unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd o dan adran 22.

**92 Cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw gwybodaeth mewn perthynas â chorff neu berson penodol wedi ei chael gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu gan berson sy'n gweithredu ar ei ran—

(a) o dan Bennod 3 o Ran 2 o'r Ddeddf hon, neu Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, neu

(b) yn ystod astudiaeth o dan adran 40 mewn cysylltiad â landlord cymdeithasol cofrestredig.

(2) Rhaid peidio â datgelu'r wybodaeth ond yn unol ag unrhyw un o'r canlynol—

(a) gyda chydsyniad y corff neu'r person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef;

(b) at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Bennod 3 o Ran 2 o'r Ddeddf hon, neu Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;

(c) at ddibenion swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol;

(d) at ddibenion swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(e) at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol yng Nghymru;

(f) at ddibenion unrhyw ymchwiliad troseddol sydd yn cael ei gynnal neu y caniateir ei gynnal yn y Deyrnas Unedig neu'n rhywle arall;

(g) at ddibenion unrhyw achos troseddol sydd yn cael ei gychwyn neu y caniateir ei gychwyn yn y Deyrnas Unedig neu'n rhywle arall;

(h) at ddibenion cychwyn neu ddirwyn ymchwiliad neu achos o'r fath i ben;

(i) at y diben o hwyluso penderfyniad ynghylch a ddylai ymchwiliad neu achos o'r fath gael ei gychwyn neu ei ddirwyn i ben a'i peidio.

Yn is-baragraff (e) mae i "swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" yr un ystyr a "social services functions" yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970.

(3) Caiff person sydd yn awdurdod lleol at ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, neu berson sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod hwnnw, hefyd ddatgelu gwybodaeth o'r fath—

(a) yn unol ag adrannau 41(2) neu 45; neu

(b) mewn unrhyw amgylchiadau eraill, ac eithrio lle y byddai'r datgeliad yn

rhagfarnu neu'n debygol o ragfarnu perfformiad effeithiol swyddogaeth a osodir ar y person drwy ddeddfiad neu o dan ddeddfiad, neu a roddir iddo felly.

(4) Caiff person nad yw o fewn is-adran (3) hefyd ddatgelu'r wybodaeth honno yn unol â chydsyniad a roddir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(5) Mae adran 95 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â chydsyniad at ddibenion is-adran (2).

(6) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n datgelu gwybodaeth yn groes i'r adran hon.

(7) Mae person sy'n euog o drosedd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol.

**93 Cydsyniad o dan adran 92**

(1) Rhaid cael cydsyniad at ddibenion adran 92(4) yn unol â'r adran hon.

(2) Rhaid i berson sy'n gofyn am gydsyniad ("y ceisydd") wneud cais am gydsyniad sydd—

(a) yn ysgrifenedig,

(b) yn nodi enw'r ceisydd a chyfeiriad ar gyfer gohebu,

(c) yn disgrifio'r wybodaeth y mae'r person yn gofyn am gysyniad mewn perthynas â hi, a

(d) yn nodi'r person y bydd yr wybodaeth yn cael ei ddatgelu iddo.

(3) Rhaid rhoi cydsyniad ac eithrio lle y byddai'r datgeliad yn rhagfarnu neu'n debygol o ragfarnu perfformiad effeithiol swyddogaeth a osodir ar yr Archwilydd Cyffredinol drwy ddeddfiad neu o dan ddeddfiad, neu y rhoddir iddo felly.

(4) Caniateir rhoi neu wrthod cydsyniad ar lafar neu'n ysgrifenedig; ond pan fo'n cael ei roi neu ei wrthod ar lafar, rhaid iddo gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

(5) Rhaid i gais sy'n cael ei wrthod yn ysgrifenedig (neu, pan fo cais yn cael ei wrthod ar lafar, cadarnhad ysgrifenedig gwrthod cydsynio) gynnwys rhesymau dros wrthod.

(6) Rhaid i berson y gwnaed cais iddo am gydsyniad roi neu wrthod ei gydsyniad heb fod yn hwyrach na'r ugeinfed niwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais.

(7) Ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sydd yn ŵyl banc mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.

**94 Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflenwi gwybodaeth budd-daliadau i'r Archwilydd Cyffredinol**

(1) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyflenwi i'r Archwilydd Cyffredinol unrhyw wybodaeth sy'n cael ei dal ganddo sydd yn—

(a) ymwneud â budd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor, a

(b) ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol yn berthnasol i arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

**95 Dogfennau sy'n ymwneud *ag awdurdodau heddlu* [â chomisiynwyr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid]**

(1) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud adroddiad o dan adran 52(5) neu (6) a bod

yr adroddiad yn ymwneud ag *awdurdod heddlu ar gyfer* [comisiynwyr heddlu a throsedd ar gyfer, neu brif gwnstabl heddlu a gynhelir o dan adran 2 o Ddeddf yr Heddlu 1996, ar gyfer] ardal heddlu yng Nghymru, rhaid iddo anfon copi o'r adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol ac at Weinidogion Cymru.

(2) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi anfon dogfen (neu gopi o ddogfen) sy'n ymwneud ag *un awdurdod heddlu neu fwy* un neu fwy o gomisiynwyr heddlu a throsedd] ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru i *awdurdod heddlu* [gomisiynydd heddlu a throsedd] ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, caiff anfon copi o'r adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol ac at Weinidogion Cymru.

[(3) Os yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi anfon dogfen (neu gopi o ddogfen) sy'n ymwneud ag un neu ragor o brif gwnstabliaid heddlu a gynhelir o dan adran 2 o Ddeddf yr Heddlu 1996 ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru, caiff anfon copi o'r adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol ac at Weinidogion Cymru.]

**96 Darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Archwilio**

(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, ar gais, ddarparu i'r Comisiwn Archwilio unrhyw wybodaeth y bydd y Comisiwn Archwilio'n gofyn amdani yn rhesymol at y diben o wneud cymariaethau wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 33 a 34 o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 rhwng cyrff llywodraeth leol yng Nghymru a chyrff llywodraeth leol eraill.

(2) Yn yr adran hon—

(a) mae i "cyrff llywodraeth leol yng Nghymru" yr un ystyr â "corff llywodraeth leol" yn adran 49(1);

(b) mae i "cyrff llywodraeth leol eraill" yr un ystyr ag a roddir i "local government body"yn adran 53(1) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998.

## RHAN 3

### Amrywiol a chyffredinol

**97 Y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol**

Rhaid i'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol—

(a) ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol, a

(b) cymryd i ystyriaeth unrhyw waith perthnasol a wnaed neu a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol,

cyn i'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaeth o dan adran 6 neu 7 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 (astudiaethau darbodaeth etc) ynghylch person sy'n destun astudiaeth o dan Benodau 2 neu 3 o Ran 2 o'r Ddeddf hon.

**98 Indemnio**

(1) Mae unrhyw swm taladwy gan berson sydd wedi ei indemnio o ganlyniad i unrhyw atebolrwydd am dor-ddyletswydd (naill ai o dan gontract neu fel arall) yr aed iddo gan berson sydd wedi ei indemnio wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon i'w godi ar a'i dalu o Gronfa Gyfunol Cymru.

(2) Rhaid i'r atebolrwydd beidio â bod i berson arall sydd wedi ei indemnio.

(3) Mae'r canlynol yn bersonau wedi eu hindemnio—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol;

(b) cyn Archwilydd Cyffredinol a benodwyd o dan y Ddeddf hon;

(c) SAC;

(d) cyn aelod neu aelod presennol o SAC;

(e) cyn gyflogai neu gyflogai presennol i SAC;

(f) person sy'n darparu, neu sydd wedi darparu gwasanaethau i'r Archwilydd Cyffredinol o dan drefniadau a wnaed gan SAC.

**99 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol (p'un ai ar ei ben ei hun neu ynghyd â darpariaeth arall) onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo—

(a) gorchymyn o dan adran 27(1) (trosglwyddo swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chorff cyhoeddus neu landlord cymdeithasol cofrestredig);

(b) gorchymyn o dan adran 46(1)(a) (ychwanegu neu ddileu corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'w archwilio neu i'w astudio) ac eithrio gorchymyn sy'n cynnwys darpariaeth o dan yr adran honno y mae'r cyfan ohono'n ddarpariaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-adran (4);

(c) gorchymyn o dan adran 47(1) (pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am adroddiadau);

(d) rheoliadau o dan adran 48(1) (darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol i Lywodraeth Cymru ddynodi swyddogion cyfrif);

(e) gorchymyn o dan adran 49(2) (diwygio'r diffiniad o "corff llywodraeth leol") ac eithrio gorchymyn sy'n cynnwys darpariaeth o dan yr adran honno y mae'r cyfan ohono'n ddarpariaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-adran (4);

(f) rheoliadau o dan adran 69(1)) (darpariaeth am gyfrifon ac archwilio cyrff llywodraeth leol);

(g) gorchymyn o dan adran 74(2) (yn caniatáu i adrannau 75 i 77 gael effaith fel petai unrhyw gorff llywodraeth leol arall yn gorff perthnasol at ddibenion yr adrannau hynny);

(h) gorchymyn o dan adran 75(5) (yn amrywio'r amser sydd gan gorff perthnasol i gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'i weithgareddau mewn blwyddyn ariannol);

(i) gorchymyn o dan adran 88(3) (pennu disgrifiad o ddogfen y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl i gael mynediad ati.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y

Ddeddf hon, ac eithrio offeryn sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 104 (cychwyn) yn unig, yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Darpariaeth sy'n diwygio cyfeiriad at berson o ganlyniad i newid yn enw'r person hwnnw yw'r ddarpariaeth a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (e) o is-adran (2).

(5) Mae unrhyw bŵer gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, neu at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu yn ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodol neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthau ar achosion penodol;

(c) i wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n angenrheidiol neu yn briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

**100 Cyfarwyddiadau**

(1) O ran unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon—

(a) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;

(b) rhaid ei roi yn ysgrifenedig;

(c) caiff wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthau ar achosion penodol; a

(d) caiff wneud darpariaeth wahanol at achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, neu at ddibenion gwahanol.

(2) Nid yw is-adran (1) yn cyfyngu ar bwerau o dan y Ddeddf hon i roi cyfarwyddiadau.

**101 Dehongli**

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "Archwilydd Cyffredinol" ("*Auditor General*") yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (gweler Pennod 1 o Ran 1);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw unrhyw berson sydd—

(a) yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus,

(b) yn cael ei gyllido yn gyfan gwbl neu'n sylweddol gan arian cyhoeddus, neu

(c) wedi ei restru yng ngholofn (1) o Dabl 1 yn adran 30;

mae i "corff GIG Cymru" ("*Welsh NHS body*") yr ystyr a roddir yn adran 30;

mae i "corff llywodraeth leol" ("*local government body*") yr ystyr a roddir yn adran

49;

ystyr "Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly Commission*") yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darpariaeth statudol" ("*statutory provision*") yw darpariaeth a geir mewn deddfiad neu ddarpariaeth sy'n cael effaith o dan ddeddfiad;

mae i "data claf" ("*patient data*") yr ystyr a roddir yn adran 81;

mae "deddfiad" ("*enactment*") yn cynnwys—

(a) deddfiad pryd bynnag y bydd wedi ei basio neu wedi ei wneud,

(b) deddfiad a gynhwysir yn y Ddeddf hon, ac

(c) darpariaeth a gynhwysir mewn is-ddeddfwriaeth (yn ystyr Deddf Dehongli 1978);

ystyr "etholwr llywodraeth leol" ("*local government elector*") yw person a gofrestrir fel etholwr llywodraeth leol yn y rhestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl;

ystyr "landlord cymdeithasol cofrestredig" ("*registered social landlord*") yw corff a gofrestrwyd fel landlord cymdeithasol o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996;

ystyr "Llywodraeth Cymru" ("*Welsh Government*") yw Llywodraeth Cynulliad Cymru;

ystyr "Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly's Public Accounts Committee*") yw'r pwyllgor y cyfeirir ato fel y "Pwyllgor Archwilio" yn adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

ystyr "SAC" ("WAO") yw Swyddfa Archwilio Cymru (gweler Pennod 2 o Ran 1);

mae i "Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru" ("*Permanent Secretary to the Welsh Government*") yr ystyr a roddir yn adran 76(7).

**102 Darpariaethau trosiannol ac atodol**

(1) Mae Atodlen [3] (darpariaethau trosiannol) yn cael effaith.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n briodol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â'r Ddeddf hon neu i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (2) yn cynnwys diwygiadau, diddymiadau a dirymiadau o unrhyw ddeddfiad ond nid yw'n gyfyngedig iddynt.

(4) Mae'r diwygiadau, diddymiadau a dirymiadau y caniateir eu gwneud yn rhinwedd is-adran (3) yn ychwanegol at y rhai a wneir gan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon neu y caniateir eu gwneud dan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon.

**103 Diddymiadau a mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

Mae Atodlen [4] (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau) yn cael effaith.

**104 Cychwyn**

*I'w gwblhau*

**105 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

# ATODLEN 1
*(Adran 8(2))*

## CORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## RHAN 1

## AELODAETH A STATWS

*Aelodaeth*

1 (1) Mae SAC i gael 7 aelod.

(2) Dyma hwy—

(a) 5 person nad ydynt yn gyflogai i SAC ("aelodau anweithredol") (gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon),

(b) yr Archwilydd Cyffredinol (gweler Rhan 3 o'r Atodlen hon), ac

(c) un cyflogai i SAC ("aelod sy'n gyflogai") (gweler Rhannau 4 a 5 o'r Atodlen hon).

*Penodi*

2 (1) Mae aelodau SAC i'w penodi fel a ganlyn.

(2) Mae'r aelodau anweithredol i'w penodi gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (gweler paragraff 4).

(3) Y Cynulliad Cenedlaethol sydd i benodi un o'r aelodau anweithredol yn gadeirydd ar SAC (gweler paragraff 5).

(4) Penodir yr Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 2.

(5) Mae'r aelod sy'n gyflogai i'w benodi gan yr aelodau anweithredol (gweler paragraff 13).

(6) Rhaid gwneud pob penodiad ar sail teilyngdod.

*Statws*

3 (1) Nid yw SAC nac unrhyw un o'i haelodau i'w hystyried neu ei ystyried—

(a) yn was neu'n asiant i'r Goron, na

(b) yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.

Ond ystyrir bod aelodau SAC yn weision y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

(2) Nid yw eiddo SAC i'w ystyried yn eiddo i'r Goron neu'n eiddo sy'n cael ei ddal ar ran y Goron.

## RHAN 2

## AELODAU ANWEITHREDOL

*Penodi aelodau anweithredol*

4 (1) Mae aelodau anweithredol i'w penodi gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i benodiadau a wneir o dan is-baragraff (1) gael eu gwneud ar sail teilyngdod ac ar sail casgliadau cystadleuaeth deg ac agored.

*Penodi cadeirydd ar SAC*

5 (1) Mae cadeirydd ar SAC i'w benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol o blith yr aelodau anweithredol fel a ganlyn.

(2) Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol sydd i gyflwyno a symud cynnig i benodi person yn gadeirydd, wedi iddo ymgynghori â'r Prif Weinidog a'r person sy'n gadeirydd ar Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad o dan y paragraff hwn o dan yr un weithdrefn sy'n ofynnol ar gyfer y penodiad gwreiddiol.

(4) Mae estyniad i'r penodiad yn cyfrif fel penodiad ar wahân at ddibenion paragraffau 6 i 8.

*Cyfnod penodi ac ailbenodi*

6 (1) Rhaid i benodiad o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon fod am gyfnod o hyd at 3 blynedd (a dim mwy).

(2) Ni chaniateir penodi person o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon fwy na dwywaith.

*Trefniadau talu cydnabyddiaeth*

7 (1) Caiff y person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas â'r person sy'n gadeirydd SAC, wedi iddo ymgynghori â'r Prif Weinidog a'r person sy'n gadeirydd Comisiwn y Cynulliad.

(2) Bydd symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu ohoni.

(3) Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas ag unrhyw aelod anweithredol arall.

(4) Bydd symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (3) yn cael eu talu gan SAC.

(5) Caniateir i drefniadau talu cydnabyddiaeth o dan y paragraff hwn—

(a) darparu ar gyfer cyflog, lwfansau, rhoddion ariannol, a buddion eraill i dalu costau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid, ond nid ar gyfer pensiwn, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

(6) Ond ni fydd unrhyw elfen yn seiliedig ar berfformiad.

*Telerau penodi eraill*

8 (1) Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol bennu telerau penodi eraill ar gyfer penodiad o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon.

(2) Caiff y telerau hynny gynnwys cyfyngiadau ar y canlynol—

(a) y swyddi (gan gynnwys y swyddi y caniateir penodi personau iddynt, eu hargymell ar eu cyfer neu eu henwebu ar eu cyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad) y caiff aelod anweithredol eu

dal tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod; a

(b) y cytundebau neu drefniadau eraill (gan gynnwys cytundebau neu drefniadau gyda'r Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad, neu gyrff neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad) y caiff aelod anweithredol fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod.

(3) Ond dim ond tra bod person yn aelod anweithredol, ac am uchafswm o 2 flynedd yn dechrau ar y diwrnod y mae person yn peidio â bod yn aelod anweithredol, y caniateir gorfodi'r cyfyngiadau hyn.

*Ymgynghori*

9 Cyn gwneud unrhyw drefniadau o dan baragraff 7 neu benderfyniad o dan baragraff 8, rhaid i'r person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Pwyllgor ei hun (yn ôl y digwydd), ymgynghori ag unrhyw berson sydd â throsolwg o benodiadau cyhoeddus y mae'r Pwyllgor neu'r person sy'n gadeirydd arno (yn ôl y digwydd) yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori ag ef.

*Dod â phenodiadau i ben*

10 (1) Caiff y person sy'n gadeirydd ar SAC ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Caiff unrhyw aelod anweithredol arall ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Daw penodiad y person sy'n ymddiswyddo i ben, yn unol ag is-baragraffau (1) neu (2), pan fo'r ymddiswyddiad yn cael ei dderbyn.

11 (1) Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ddod â phenodiad unrhyw aelod anweithredol i ben drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod os—

(a) bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd SAC heb ganiatâd SAC am gyfanswm o 3 mis neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis,

(b) yw'r aelod wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant â chredydwyr,

(c) yw ystâd yr aelod wedi ei secwestru yn yr Alban neu fod yr aelod wedi ymrwymo i gynllun trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyled (Yr Alban) 2002 fel dyledwr, neu wedi gwneud, o dan gyfraith yr Alban, gyfansoddiad neu drefniant gyda chredydwyr yr aelod neu wedi rhoi gweithred ymddiried iddynt,

(d) yw'r aelod yn anaddas i barhau oherwydd camymddygiad,

(e) yw'r aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu

(f) yw'r aelod yn methu â chyflawni ei swyddogaethau, neu'n anaddas i'w cyflawni, neu'n anfodlon eu cyflawni fel arall.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddod â phenodiad aelod anweithredol fel cadeirydd SAC i ben wedi i gynnig gael ei gyflwyno a'i symud gan y person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Cyn cyflwyno cynnig rhaid i'r person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â'r Prif Weinidog a'r person sy'n gadeirydd Comisiwn y Cynulliad.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddod â'r penodiad i ben ar y seiliau canlynol—

(a) bod y person wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu

(b) bod y person, fel arall yn anfodlon cyflawni swyddogaethau bod yn gadeirydd SAC.

RHAN 3

YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

*Talu cydnabyddiaeth ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol*

12 (1) Caiff SAC wneud darpariaeth i daliadau ychwanegol gael eu gwneud i'r Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â lwfansau a buddion eraill i dalu costau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn mynd iddynt yn briodol ac o anghenraid yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC a Phrif Weithredwr arni.

(2) Caniateir i daliadau gael eu gwneud o dan is-baragraff (1) yn ychwanegol at y tâl cydnabyddiaeth sy'n daladwy i'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 7.

(3) Mae symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) i'w talu gan SAC.

RHAN 4

AELOD SY'N GYFLOGAI

*Penodi*

13 (1) Mae aelod sy'n gyflogai i gael i benodi gan yr aelodau anweithredol fel a ganlyn.

(2) Os oes swydd wag, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol argymell person i'r aelodau anweithredol ei benodi.

(3) Rhaid i'r aelodau anweithredol—

(a) penodi'r person hwnnw, neu

(b) penodi person arall o'u dewis hwy.

*Telerau penodi*

14 (1) Bydd telerau penodi aelod sy'n gyflogai yn cael eu pennu gan yr aelodau anweithredol.

(2) Caiff y telerau gynnwys trefniadau talu cydnabyddiaeth sydd yn—

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer lwfansau, rhoddion a buddion eraill i dalu'r costau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan y person yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

(3) Ni chaiff trefniadau talu cydnabyddiaeth ddarparu ar gyfer talu cyflog nac ychwaith, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), ar gyfer pensiwn.

(4) Bydd y symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (2) yn cael eu talu gan SAC.

(5) Os yw'r cyflogai ("A") yn cyfrannu i gynllun pensiwn o dan delerau cyflogaeth A gyda SAC, rhaid i'r trefniadau talu cydnabyddiaeth (heb effeithio ar barhad y gyflogaeth

honno) wneud darpariaethau sy'n sicrhau bod gwasanaeth A fel aelod sy'n gyflogai i'w drin, at ddibenion y cynllun, fel petai'n wasanaeth fel cyflogai i SAC.

*Telerau penodi eraill*

15 (1) Caiff yr aelodau anweithredol bennu telerau penodi eraill ar gyfer penodiad o dan y Rhan hon o'r Atodlen hon.

(2) Caiff y telerau hyn gynnwys cyfyngiadau ar y canlynol—

(a) y swyddi (gan gynnwys y swyddi y caniateir penodi personau iddynt, eu hargymell ar eu cyfer neu eu henwebu ar eu cyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad) y caiff aelod sy'n gyflogai eu dal tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod, a

(b) y cytundebau neu drefniadau eraill (gan gynnwys cytundebau neu drefniadau eraill gyda'r Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad, neu gyrff neu bersonau sy'n gweithredu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad) y caiff aelod sy'n gyflogai fod yn barti iddynt tra bo'r person hwnnw yn aelod, neu wedi iddo beidio â bod yn aelod.

(3) Ond dim ond tra bod person yn aelod sy'n gyflogai, ac am uchafswm o 2 flynedd yn dechrau ar y diwrnod y mae person yn peidio â bod yn aelod sy'n gyflogai, y caniateir gorfodi'r cyfyngiadau hyn.

*Dod â phenodiad i ben*

16 Mae penodiad aelod sy'n gyflogai yn dod i ben—

(a) os yw telerau penodi'r aelod yn darparu ei fod yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) ar yr hwyraf, pan fo aelod yn peidio â bod yn gyflogai i SAC.

17 Caiff aelod sy'n gyflogai ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau anweithredol. Daw penodiad yr aelod sy'n gyflogai i ben pan fo'r ymddiswyddiad yn cael ei dderbyn gan yr aelodau anweithredol.

18 Caiff yr aelodau anweithredol ddod â phenodiad aelod sy'n gyflogai i ben drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod os—

(a) bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd SAC heb ganiatâd SAC am gyfanswm o 3 mis neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis,

(b) yw'r aelod wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant â chredydwyr,

(c) yw ystâd yr aelod wedi ei secwestru yn yr Alban neu fod yr aelod wedi ymrwymo i gynllun trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyled (Yr Alban) 2002 fel dyledwr, neu wedi gwneud, o dan gyfraith yr Alban, gyfansoddiad neu drefniant gyda chredydwyr yr aelod neu wedi rhoi gweithred ymddiried iddynt,

(d) yw'r aelod yn anaddas i barhau oherwydd camymddygiad,

(e) yw'r aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu

(f) yw'r aelod yn methu â chyflawni ei swyddogaethau neu'n anaddas i'w cyflawni neu'n anfodlon eu cyflawni fel arall.

## RHAN 5

## CYFLOGEION

19 (1) Caiff SAC gyflogi staff.

(2) Bydd staff SAC yn cael eu cyflogi ar y telerau hynny y caniateir i SAC eu penderfynu.

(3) Ond rhaid i SAC sicrhau—

(a) bod y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a dewis personau fel aelodau o staff SAC yn cyfateb yn fras i'r rhai hynny sy'n gymwys ar gyfer recriwtio a dewis personau fel aelodau o staff Llywodraeth Cymru, a

(b) bod y telerau cyflogaeth yn cyfateb yn fras i'r rhai hynny sy'n gymwys i aelodau o staff Llywodraeth Cymru.

(4) Rhaid i SAC dalu'r tâl cydnabyddiaeth hwnnw y darperir ar ei gyfer gan y telerau cyflogaeth, neu o dan y telerau hynny.

(5) Ni chaiff person sy'n gyflogai i SAC ddal unrhyw swydd y caniateir penodi person iddi, argymell person ar ei chyfer neu enwebu person ar ei chyfer gan neu ar ran—

(a) y Goron;

(b) y Cynulliad Cenedlaethol; neu

(c) Comisiwn y Cynulliad.

(6) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (swyddi y mae adran 1 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddynt), yn y man priodol yn y rhestr "Cyrff eraill" mewnosoder—

"Employment as a member of the staff of the Wales Audit Office".

(7) Rhaid i SAC dalu i'r Gweinidog dros y Gwasanaeth Sifil, ar yr adegau hynny a benderfynir ganddo, daliadau o'r symiau hynny y bydd yn penderfynu arnynt, o ran y canlynol—

(a) darparu pensiynau, lwfansau, rhoddion ariannol neu fuddion eraill yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 i aelodau staff SAC neu mewn perthynas ag unrhyw bersonau sydd wedi bod yn aelod o staff SAC, a

(b) y treuliau yr aed iddynt drwy weinyddu'r pensiynau hynny, y lwfansau hynny, y rhoddion ariannol hynny neu'r buddion eraill hynny.

(8) Nid yw aelod o staff SAC i'w ystyried—

(a) yn was neu'n asiant i'r Goron, na

(b) yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.

Ond ystyrir bod aelod o staff SAC yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

## RHAN 6

## RHEOLAU GWEITHDREFNOL

*Cyffredinol*

20 Rhaid i SAC wneud rheolau at ddibenion rheoleiddio gweithdrefnau SAC.

*Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC*

21 (1) Rhaid i'r rheolau ddarparu am gworwm ar gyfer unrhyw gyfarfodydd SAC (gan gynnwys cyfarfodydd pwyllgorau neu is-bwyllgorau a sefydlwyd o dan baragraff 22).

(2) Caiff y rheolau ddarparu bod cworymau gwahanol yn gymwys i amgylchiadau gwahanol (er enghraifft, mewn perthynas â chyfarfodydd penodol neu at ddibenion penodol).

(3) Rhaid i'r rheolau ddarparu na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.

*Pwyllgorau*

22 (1) Caiff y rheolau gynnwys—

(a) darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgorau SAC, ac i'r pwyllgorau hynny sefydlu is-bwyllgorau, a

(b) darpariaeth i reoleiddio gweithdrefnau'r pwyllgorau a'r is-bwyllgorau hynny.

(2) Caiff cyflogai i SAC nad yw'n aelod sy'n gyflogai fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor.

(3) Caiff person nad yw'n aelod o SAC nac yn gyflogai i SAC fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor, ar yr amod nad oes dim un o swyddogaethau SAC wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor (gweler paragraff 25).

## RHAN 7

## MATERION ERAILL

*Pwerau*

23 Caiff SAC wneud unrhyw beth (gan gynnwys caffael neu waredu unrhyw eiddo neu hawliau) a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn gysylltiedig neu'n gydnaws ag, arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.

*Dilysrwydd*

24 Nid effeithir ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan SAC (gan gynnwys unrhyw beth a wneir gan ei haelodau anweithredol, aelodau sy'n gyflogeion neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor) gan—

(a) swydd wag, neu

(b) penodiad diffygiol.

*Dirprwyo swyddogaethau*

25 (1) Caiff SAC ddirprwyo ei swyddogaethau i—

(a) unrhyw un o'i haelodau, cyflogeion neu bwyllgorau, neu

(b) i berson sy'n darparu gwasanaethau i SAC.

(2) Caiff pwyllgor ddirprwyo swyddogaeth (gan gynnwys swyddogaethau a ddirprwywyd iddo) i is-bwyllgor.

(3) Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn atal SAC na'r pwyllgor (yn ôl y digwydd) rhag gweithredu'r swyddogaeth ei hun.

(4) Nid yw dirprwyo swyddogaeth o dan is-baragraff (1) yn effeithio ar gyfrifoldeb SAC am y swyddogaeth.

(5) Ni chaniateir dirprwyo swyddogaethau o dan y paragraff canlynol—

(a) adran 10(1)(a) (amcangyfrif incwm a gwariant SAC am bob blwyddyn ariannol);

(b) adran 12(1) (cytuno ar gynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyda'r Archwilydd Cyffredinol);

(c) paragraff 20 o Ran 6 o'r Atodlen hon (gwneud rheolau at y diben o reoleiddio gweithdrefn SAC);

(d) paragraff 28(1) o Ran 7 o'r Atodlen hon (penodi person yn archwilydd cyfrifon SAC);

(e) paragraff 3 o Ran 1 o Atodlen 2 (paratoi adroddiad neu adroddiad interim, ar y cyd, bob blwyddyn ariannol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC);

(f) paragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 2 (dynodi person arall, dros dro, i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol).

*Darparu gwasanaethau*

26 (1) Caniateir gwneud trefniadau rhwng SAC ac awdurdod perthnasol ynglŷn â'r canlynol—

(a) ar gyfer bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod yn cael eu harfer gan SAC neu gyflogai i SAC,

(b) ar gyfer bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod yn cael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol,

(c) ar gyfer darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol—

(i) i'r awdurdod (neu at ddibenion yr awdurdod) gan SAC,

(ii) gan, neu ar ran yr awdurdod i SAC,

(iii) gan, neu ar ran yr awdurdod i'r Archwilydd Cyffredinol,

(d) ar gyfer darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i'r awdurdod (neu at ddibenion yr awdurdod) gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(2) Nid yw unrhyw drefniadau ar gyfer arfer swyddogaeth awdurdod perthnasol gan SAC, neu gan gyflogai i SAC, o dan is-baragraff (1)(a), neu gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan is-baragraff (1)(b), yn effeithio ar gyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol am y swyddogaeth honno.

(3) Os bodlonir yr amod yn is-baragraff (5), caiff SAC ac—

(a) awdurdod perthnasol,

(b) archwilydd cymwysedig, neu

(c) corff cyfrifyddu,

wneud trefniadau i gydweithio â'i gilydd a rhoi cymorth i'w gilydd.

(4) Os bodlonir yr amod yn is-baragraff (5), caiff yr Archwilydd Cyffredinol ac—

(a) awdurdod perthnasol,

(b) archwilydd cymwysedig, neu

(c) corff cyfrifyddu,

wneud trefniadau i gydweithio â'i gilydd a rhoi cymorth i'w gilydd.

(5) Dyma'r amod—

(a) bod SAC yn ystyried y byddai gwneud hynny yn hwyluso, neu y byddai'n gydnaws ag, arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu SAC, a

(b) bod yr awdurdod perthnasol, yr archwilydd cymwysedig neu'r corff cyfrifyddu dan sylw yn ystyried y byddai gwneud hynny yn hwyluso, neu byddai'n gydnaws ag arfer swyddogaethau'r awdurdod, y person neu'r corff hwnnw.

(6) Caiff SAC wneud trefniadau o dan y paragraff hwn ar y telerau, gan gynnwys telerau ynghylch tâl, sy'n briodol ym marn SAC.

Ond rhaid gwneud amodau ynghylch tâl i SAC yn unol â'r cynllun ar gyfer codi ffioedd a wneir o dan adran 22.

(7) Yn y paragraff hwn—

ystyr "archwilydd cymwysedig" yw person sydd—

(a) yn gymwys i gael ei benodi yn archwilydd statudol o dan Ran 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu

(b) yn aelod o gorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy;

ystyr "awdurdod perthnasol" yw unrhyw un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth, unrhyw awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw awdurdod lleol) neu ddeiliad swydd gyhoeddus;

ystyr "corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy" yw corff o gyfrifwyr sydd yn—

(a) sefydledig yn y Deyrnas Unedig neu Wladwriaeth AEE arall, a

(b) am y tro wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn;

ystyr "corff cyfrifyddu" yw—

(a) corff sydd yn gorff goruchwylio cydnabyddedig at ddibenion Rhan 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu

(b) corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy.

*Cyfrifon SAC*

27 (1) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad benodi'r Archwilydd Cyffredinol neu berson priodol arall yn swyddog cyfrifyddu ar gyfer SAC.

(2) Rhaid i'r person a benodir fel swyddog cyfrifyddu SAC, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddiau a roddir iddo gan y Trysorlys—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon.

(3) Rhaid i'r datganiad o gyfrifon roi cyfrif gwir a theg o—

(a) cyflwr materion SAC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a

(b) incwm a gwariant SAC yn ystod y flwyddyn ariannol.

(4) Mae'r cyfarwyddiadau y caiff y Trysorlys eu rhoi yn cynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) gyfarwyddiadau yn ymwneud â'r canlynol—

(a) y materion a thrafodion ariannol y mae'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon i ymwneud â hwy,

(b) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y mae'r cyfrifon i'w cyflwyno,

(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon i'w paratoi yn unol â hwy, a

(d) yr wybodaeth ychwanegol (os oes) sydd i ddod gyda'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon.

(5) Caiff y cyfarwyddiadau y caniateir i'r Trysorlys eu rhoi gynnwys cyfarwyddiadau i ddarparu cyfrifon sy'n ymwneud â materion a thrafodion ariannol personau ac eithrio SAC.

(6) Mae gan swyddog cyfrifyddu SAC, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid SAC, gyfrifoldebau eraill a bennir o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

*Archwilio SAC*

28 (1) Rhaid i SAC, â chydsyniad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, benodi person yn archwilydd ei chyfrifon.

(2) Dim ond os yw'r person yn archwilydd cymwysedig fel y'i ddiffinnir ym mharagraff 26 y mae person yn gymwys i'w benodi.

(3) Os yw'r person a benodir yn archwilydd yn peidio â bod yn berson y gellid ei benodi felly, mae'r person yn peidio â bod yn archwilydd.

(4) Rhaid i'r person a benodir yn archwilydd, fel y gwêl y person hwnnw yn dda, roi sylw i'r safonau a'r egwyddorion y byddai disgwyl i ddarparwr proffesiynol arbenigol o wasanaethau cyfrifyddu neu archwilio eu dilyn.

(5) Mae'r archwilydd i gael ei benodi ar y telerau hynny y caiff SAC eu penderfynu, ond rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar y telerau penodi.

(6) Rhaid i SAC dalu tâl cydnabyddiaeth i'r archwilydd y darperir amdano gan delerau penodi'r archwilydd, neu o dan y telerau hynny.

29 (1) Rhaid i'r datganiad o gyfrifon y mae'n ofynnol i swyddog cyfrifyddu SAC ei lunio o dan baragraff 27 am flwyddyn ariannol gael ei lofnodi gan y swyddog cyfrifyddu a'i gyflwyno gan gadeirydd SAC i'r archwilydd a benodwyd o dan baragraff 28 heb fod yn hwyrach na 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol honno.

(2) Rhaid i'r archwilydd—

(a) archwilio ac ardystio unrhyw ddatganiad o gyfrifon a gyflwynir iddo, a

(b) cyflwyno copi o'r datganiad o gyfrifon fel y'i hardystiwyd ganddo ynghyd â'i adroddiad arno i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid i'r archwilydd, yn benodol, fod yn fodlon, o archwilio datganiad o gyfrifon a gyflwynir iddo—

(a) bod y gwariant y mae a wnelo'r datganiad ag ef wedi ei wneud yn gyfreithlon ac

yn unol â'r awdurdod sydd yn ei lywodraethu,

(b) nad yw arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafodd SAC at ddiben penodol neu at ddibenion penodol, wedi ei wario at ddiben neu ddibenion gwahanol,

(c) bod y datganiad o gyfrifon yn cydymffurfio â gofynion pob darpariaeth statudol sy'n gymwys i'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon, a

(d) bod arferion priodol wedi eu dilyn wrth lunio'r datganiad o gyfrifon.

(4) Mae gan yr archwilydd yr hawl i gael gafael ar bob dogfen yr ymddengys i'r archwilydd ei bod yn angenrheidiol at ddibenion archwilio'r cyfrifon, ar bob adeg resymol.

(5) Caiff yr archwilydd—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal, neu'n atebol am unrhyw un o'r dogfennau hynny, ddarparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniad y mae'n rhesymol i'r archwilydd ei ystyried yn angenrheidiol at y diben hwnnw, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol ddarparu cyfrifon i'r archwilydd, ar adegau a bennir ganddo, o ran y trafodion hynny (gan y person perthnasol) a bennir gan yr archwilydd.

(6) ystyr "person perthnasol" yw—

(a) yr Archwilydd Cyffredinol,

(b) SAC, neu

(c) unrhyw berson y mae ei faterion a'i drafodion ariannol yn ymwneud â'r cyfrifon o ganlyniad i baragraff 27(5).

(7) Caiff yr archwilydd—

(a) cynnal astudiaethau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol,

(b) cynnal astudiaethau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae SAC wedi defnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau SAC, ac

(c) cyflwyno adroddiad o ganlyniadau unrhyw astudiaethau o'r fath i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

(8) At ddibenion gwneud astudiaethau o'r fath—

(a) mae gan yr archwilydd hawl i gael gafael, ar bob adeg resymol, ar bob dogfen ym meddiant neu o dan reolaeth yr Archwilydd Cyffredinol neu SAC, y mae'n ofynnol i'r archwilydd eu cael yn rhesymol at y diben hwnnw, a

(b) caiff yr archwilydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal, neu'n atebol am unrhyw un o'r dogfennau hynny, ddarparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniad y mae'n rhesymol i'r archwilydd ei ystyried yn angenrheidiol at y diben hwnnw.

(9) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon y Cynulliad Cenedlaethol osod y canlynol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol—

(a) copi o'r datganiad o gyfrifon a luniwyd gan swyddog cyfrifyddu SAC fel y'i hardystiwyd gan yr archwilydd, ac adroddiad yr archwilydd arno, a gyflwynwyd i'r pwyllgor o dan is-baragraff (2)(b), a

(b) adroddiad ar ganlyniad astudiaethau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gyflwynwyd i'r pwyllgor o dan is-baragraff (7)(c).

*Tystiolaeth ddogfennol*

*30* *(1)* Mae cymhwysiad sêl SAC i'w dilysu gan lofnod—

(a) aelod o SAC, neu

(b) cyflogai i SAC a awdurdodwyd (naill ai'n gyffredinol neu'n benodol) ar gyfer y diben hwnnw gan SAC.

(2) Mae dogfen yr honnir ei bod wedi ei chyflawni'n briodol o dan sêl SAC, neu yr honnir ei bod wedi ei llofnodi ar ei rhan—

(a) i gael ei derbyn yn dystiolaeth , a

(b) oni phrofir i'r gwrthwyneb, rhaid cymryd ei bod wedi'i chyflawni neu ei llofnodi felly.

# ATODLEN 2

*(Adran 17(2))*

## Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

## RHAN 1

## CYDWEITHIO WRTH ADFER SWYDDOGAETHAU

1 (1) Rhaid i SAC, yn y dull y mae'n ystyried yn briodol, fonitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;

(2) Caiff SAC ddarparu cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi ystyriaeth i unrhyw gyngor a roddir.

*Dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i SAC*

2 (1) Caniateir dirprwyo unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i—

(a) cyflogai i SAC,

(b) person sy'n darparu gwasanaethau i SAC, neu

(c) cyflogai i SAC a pherson sy'n darparu gwasanaethau i SAC, yn gweithredu ar y cyd.

(2) Ond dim ond os yw'r cyflogai neu'r person arall wedi ei awdurdodi (neu, yn achos is-baragraff (1)(c), os yw'r ddau wedi eu hawdurdodi) i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan gynllun a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'i gymeradwyo gan SAC y caniateir i swyddogaeth gael ei dirprwyo.

(3) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol adolygu a diwygio neu ail-wneud y cynllun ar unrhyw adeg ond rhaid i unrhyw ddiwygio neu ail-wneud gael ei gymeradwyo gan SAC.

(4) Caiff cynllun gynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol.

(5) Caniateir i unrhyw swyddogaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol gael ei harfer ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a chyflogai neu berson arall sydd wedi ei awdurdodi o dan y cynllun.

(6) Nid yw dirprwyaeth yn gwahardd yr Archwilydd Cyffredinol rhag gwneud unrhyw beth yn bersonol.

(7) Nid yw darpariaeth a wneir o dan is-baragraff (1) ar gyfer dirprwyo swyddogaeth neu o dan is-baragraff (5) ar gyfer arfer swyddogaeth ar y cyd yn effeithio ar gyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol am y swyddogaeth honno.

(8) Ni chaniateir dirprwyo swyddogaeth llunio cynllun o dan y paragraff hwn.

*Adroddiadau*

3 (1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC ar gyfer pob blwyddyn ariannol lunio adroddiad blynyddol, ar y cyd, ar arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn ystod y flwyddyn.

(2) Rhaid i adroddiad blynyddol gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) asesiad o'r graddau y mae arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi bod yn gyson â'r cynllun blynyddol a gytunwyd am y flwyddyn o dan adran 11, a'r graddau y cyflawnwyd y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun.

(3) Yn ychwanegol at adroddiad blynyddol, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC lunio hefyd adroddiadau interim ar ddau achlysur yn ystod blwyddyn ariannol ar arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.

(4) Rhaid i adroddiad interim gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) asesiad o'r graddau y mae arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC wedi bod yn gyson â'r cynllun blynyddol a gytunwyd am y flwyddyn o dan adran 11, a'r graddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun.

(5) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a'r person sy'n gadeirydd SAC ar y cyd—

(a) cyflwyno'r adroddiadau blynyddol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol;

(b) cyflwyno'r adroddiadau interim i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar ddyddiadau i'w pennu gan y Pwyllgor, ac

(c) gosod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol—

(a) ystyried (yn gyhoeddus) adroddiad a gyflwynir iddo a llunio adroddiad sy'n cofnodi ei ganfyddiadau mewn perthynas ag ef, a

(b) gosod ei adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r adroddiad y mae'n ymwneud ag ef gael ei gyflwyno.

(7) Rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi adroddiad ariannol cyn pen tri mis ar ôl iddo gael ei gyflwyno iddo.

(Nid yw hyn yn gymwys i adroddiad interim).

*Dogfennau a gwybodaeth*

4 (1) Caniateir darparu unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae'n ofynnol i berson ei darparu i'r Archwilydd Cyffredinol, neu y caniateir ei darparu iddo, i SAC (naill ai gan y person hwnnw neu gan yr Archwilydd Cyffredinol).

(2) At ddibenion adran 3(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a rheoliad 3(2) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (neu unrhyw reoliadau sy'n disodli'r rheoliadau hynny), mae unrhyw ddogfen neu wybodaeth sy'n cael ei chadw gan SAC fel y crybwyllir ym mharagraff 16(2)(d) i'w thrin fel petai'r ddogfen neu'r wybodaeth yn cael ei chadw gan SAC ar ei rhan ei hun.

## RHAN 2

### PERSON ARALL, DROS DRO, YN ARFER SWYDDOGAETHAU'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

5 Caiff SAC, gyda chytundeb y person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, ddynodi person i arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol dros dro yn lle'r Archwilydd Cyffredinol ("dynodiad dros dro").

6 Ni chaniateir gwneud dynodiad dros dro ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

(a) bod swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn wag;

(b) nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon cyflawni swyddogaethau'r swydd; neu

(c) bod SAC a'r person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried bod yr Archwilydd Cyffredinol yn methu â chyflawni swyddogaethau'r swydd.

7 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5 yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) —

(a) bod yn brif weithredwr SAC (gweler adran 17),

(b) bod yn swyddog cyfrifyddu SAC (gweler paragraff 27(1) o Ran 7 o Atodlen 1), ac

(c) y pŵer i ddirprwyo o dan baragraff 2 o Atodlen 2.

8 Rhaid i berson sydd wedi ei ddynodi i arfer swyddogaethau fod yn gyflogai i SAC.

9 Bydd person sydd wedi ei ddynodi i arfer swyddogaethau yn parhau'n gyflogedig gan SAC ar yr un telerau.

10 Ond bydd y person hwnnw yn cael ei ddynodi i arfer swyddogaethau ar delerau ychwanegol (gan gynnwys telerau talu cydnabyddiaeth) y cytunir arnynt gan SAC a'r person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

11 Caniateir gwneud dynodiad dros dro mewn perthynas ag amgylchiad y cyfeirir ato ym mharagraff 6 am hyd at 6 mis.

12 Ond caniateir estyn dynodiad dros dro unwaith gan SAC, gyda chytundeb y person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, am hyd at 6 mis arall.

13 Pan fo person yn cael ei ddynodi o dan baragraff 5, rhaid i'r person sy'n gadeirydd SAC osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol sy'n nodi'r canlynol—

(a) bod person wedi ei ddynodi a'r rheswm dros hynny;

(b) pwy yw'r person a ddynodwyd;

(c) y cyfnod y mae'r person wedi ei ddynodi ar ei gyfer; a

(d) bod y person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno i'r dynodiad fel sy'n ofynnol gan baragraff 5.

14 Pan fo cyfnod y mae'r person yn cael ei ddynodi ar ei gyfer yn cael ei estyn o dan baragraff 12, rhaid i'r person sy'n gadeirydd SAC osod datganiad pellach gerbron y Cynulliad Cenedlaethol sy'n nodi'r canlynol—

(a) y cyfnod estynedig y mae'r person yn cael ei ddynodi ar ei gyfer;

(b) y rhesymau dros estyn y cyfnod; ac

(c) bod y person sy'n gadeirydd ar Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno i'r estyniad fel sy'n ofynnol gan baragraff 12.